# Mapio ac adolygu gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau a chyflogwyr ar draws ysgolion yng Nghymru

**Adroddiad terfynol**

Cyflwynwyd i **Lywodraeth Cymru** gan **Ymchwil Arad**

*Gorffennaf 2021*

Ymchwil Arad
8 Rhodfa Columbus
Maes Brigantîn
Caerdydd CF10 4SD
029 2044 0552
www.aradresearch.com

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad ..... 5**

1.1 Cefndir yr astudiaeth ..... 5

1.2 Nodau'r adolygiad ..... 6

1.3 Methodoleg ..... 6

**2. Crynodeb o'r adolygiad llenyddiaeth ..... 7**

2.1 Negeseuon allweddol o'r llenyddiaeth ..... 7

2.2 Casgliadau ..... 12

**3. Gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yng Nghymru ..... 14**

3.1 Trosolwg ..... 14

3.2 Rhaglenni a mentrau cenedlaethol ..... 14

3.3 Prosiectau a rhaglenni rhanbarthol a lleol ..... 16

3.4 Rhaglenni a phrosiectau â ffocws mwy penodol ..... 18

3.5 Sylwadau ar weithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yng Nghymru ..... 19

**4. Dadansoddiad o ddata'r arolwg o ysgolion ..... 31**

4.1 Cyflwyniad ..... 31

4.2 Cynllunio gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr (MMCCh) mewn ysgolion uwchradd ..... 31

4.3 Mathau o weithgareddau mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr (MMCCh) mewn ysgolion ..... 33

4.4 Cynllunio gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr (MMCCh) mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig ..... 35

4.5 Ymwybyddiaeth o raglenni a chymorth yn ymwneud â metergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwr (MMCCh) ..... 37

4.6 Partneriaid a darparwyr ..... 39

4.7 Rhwystrau i ddarparu gweithgareddau mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwr (MMCCh) ..... 41

4.8 Ansawdd ac effaith mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwr (MMCCh) 42

4.9 Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol ..... 45

4.10 Cymorth ychwanegol ..... 46

4.11 Darpariaeth ddigidol ..... 46

**5. Casgliadau a'r camau nesaf ..... 49**

5.1 Darpariaeth gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yng Nghymru ..... 49

5.2 Cynllunio a darparu gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr mewn ysgolion....49
5.3 Cyflwyno darpariaeth ddigidol a'r galw am hynny....50
5.4 Effaith mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yng Nghymru....51
5.5 Rhwystrau a bylchau yn y ddarpariaeth....52
5.6 Y camau nesaf....53
**6. Atodiad A: Adolygiad llenyddiaeth....54**
6.1 Addysg yng Nghymru....54
6.2 Addysg gyrfaoedd ac MMCCh yn y DU....57
6.3 Negeseuon allweddol o'r llenyddiaeth....61
6.4 Casgliadau....75
Cyfeiriadau....76

## Rhestr o'r ffigurau

Ffigur 4.1: P'un a oes gan ysgolion uwchradd bolisi, cynllun neu strategaeth ar gyfer gweithgaredd MMCCh, neu berson penodedig yn gyfrifol am hynny 32
Ffigur 4.2: Barn yr ymatebwyr ar gynllunio a theilwra gweithgareddau MMCCh 33
Ffigur 4.3: Gweithgareddau MMCCh a ddarperir ar wahanol gyfnodau allweddol gan ysgolion uwchradd 35
Ffigur 4.4: P'un a oes gan ysgolion cynradd neu ysgolion arbennig berson penodedig ar gyfer MMCCh 36
Ffigur 4.5: Gweithgareddau MMCCh a ddarperir gan ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig 37
Ffigur 4.6: Barn ar weithgareddau MMCCh, yr adnoddau sydd ar gael a'r gefnogaeth a gafwyd 39
Ffigur 4.7: Partneriaid y mae ysgolion yn nodi eu bod wedi gweithio â nhw 40
Ffigur 4.8: P'un a yw ysgolion wedi wynebu rhwystrau i gynnal gweithgareddau MMCCh 42
Ffigur 4.9: Rhwystrau sy'n wynebu ysgolion wrth gynnal gweithgareddau MMCCh 42
Ffigur 4.10: Barn ar ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael 43
Ffigur 4.11: Barn ar effaith gweithgareddau MMCCh 45

## Rhestr o'r tablau

Tabl 6.1: Adolygiadau llenyddiaeth allweddol ar addysg gyrfaoedd/meithrin cysylltiadau â chyflogwyr 61
Tabl 6.2: Nodweddion gweithgaredd effeithiol ar gyfer meithrin perthnasoedd a chysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr 64
Tabl 6.3: Goblygiadau ymarferol gweithgaredd effeithiol ar gyfer meithrin cysylltiadau â chyflogwyr 68

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Cefndir yr astudiaeth

Comisiynwyd Ymchwil Arad gan Lywodraeth Cymru i fapio ac adolygu gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr (MMCCh) ar draws ysgolion yng Nghymru. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau gwaitih ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Medi 2020 a mis Mawrth 2021.

Mae'r astudiaeth yn rhan o'r gwaith cynllunio ehangach ar gyfer y cwricwlwm newydd yng Nghymru. Wrth wraidd y cwricwlwm mae'r pedwar diben, sy'n nodi'r dyheadau ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc erbyn iddynt gyrraedd 16 oed; gan eu galluogi i fod yn ddysgwyr llwyddiannus, sy'n chwarae rhan weithredol yn eu cymuned ac yn y gymdeithas ehangach, ac sy'n barod i ffynnu mewn byd cynyddol gymhleth. Mae'r cwricwlwm yn trefnu dysgu o amgylch chwe maes dysgu a phrofiad (MDaPh), pob un wedi'i gynllunio i gynorthwyo dysgwyr i gyflawni pedwar diben y cwricwlwm, gan ddarparu'r man cychwyn a'r dyhead wrth ddatblygu cwricwlwm ar lefel ysgol.

Mae gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith (CWRE) i'w gweld ym mhob un o'r chwe MDaPh. Bydd CWRE yn helpu dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth a dyheadau mewn perthynas ag ystod o ddewisiadau gyrfa, gan greu gweithlu mwy amrywiol, sy'n cyfrannu at yr economi yng Nghymru. Dylai dealltwriaeth o'r byd gwaith ddechrau'n ifanc. Dylai dysgwyr oedran cynradd elwa o fwy o ymwybyddiaeth o rolau. Mae hyn yn sail i ddysgu parhaus, gan alluogi dysgwyr yn yr ysgol uwchradd i wneud penderfyniadau gyrfa gwybodus a phriodol. Dylai CWRE alluogi dysgwyr i ddatblygu:

- dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n tywys, yn siapio ac yn dylanwadu ar ragolygon a datblygiad gyrfa, a'r sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu eu cynlluniau gyrfa a'u datblygiad
- ymwybyddiaeth o sgiliau, priodoleddau a diddordebau unigol, a sut maent yn effeithio ar ddewisiadau gyrfa, gan godi dyheadau dysgwyr a dealltwriaeth o ganlyniadau
- gwybodaeth am gyflogaeth a mentergarwch, y gellir ei chymhwyso wrth chwilio am waith, ymgeisio am swyddi, a chynnal cyflogaeth, neu hunangyflogaeth
- y sgiliau i reoli bywyd bob dydd mor annibynnol ag y gallant.

Bydd canllawiau newydd ar gyfer CWRE ar draws y cwricwlwm ar gael yn 2021, i'w cyflwyno ym mis Medi 2022 i bob grŵp blwyddyn mewn ysgolion cynradd ac i flwyddyn 7 mewn ysgolion uwchradd. Byddant yn cael eu cyflwyno i flwyddyn 8 ym mis Medi 2023 ac o flwyddyn i flwyddyn nes iddynt gael eu cyflwyno i flwyddyn 11 yn 2026.

Yn ystod y cyfnod yr oedd yr adroddiad hwn yn cael ei ddrafftio, cyhoeddodd Gyrfa Cymru ei weledigaeth strategol newydd ar gyfer 2021-26, *Dyfodol Disglair*. Mae'r strategaeth yn amlinellu gweledigaeth Gyrfa Cymru i gefnogi pobl ifanc ac oedolion yng Nghymru drwy ddarparu mynediad at gyngor gyrfaoedd diduedd o ansawdd uchel sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau addysg, economaidd a llesiant unigolion.

Yn olaf, nodyn ar derminoleg: cyfeirir yn aml yn yr adroddiad hwn at brofiadau cysylltiedig â gwaith. Mae profiadau cysylltiedig â gwaith yn cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys ymweliadau gan gyflogwyr, dosbarthiadau meistr a mentora, profiad gwaith strwythuredig, sesiynau blasu a ffeiriau gyrfaoedd.

## 1.2 Nodau'r adolygiad

Nodau'r adolygiad oedd:

- cynnal dadansoddiad o'r prosiectau a nodwyd mewn ymarfer mapio blaenorol a gynhaliwyd gan Gyrfa Cymru;
- nodi gweithgareddau sydd wedi gweithio'n dda ac wedi gwella dealltwriaeth dysgwyr o'r byd gwaith;
- nodi unrhyw fylchau posibl yn y ddarpariaeth bresennol;
- asesu'r galw posibl gan ysgolion am ymyriadau digidol;
- gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru i wella gweithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr mewn ysgolion.

## 1.3 Methodoleg

Mabwysiadodd Arad ddull cymysg o gynnal yr ymchwil, a oedd yn cynnwys y tasgau canlynol:

- Cyfweliadau cwmpasu â 10 o randdeiliad yn Llywodraeth Cymru ac arweinwyr rhaglenni ar gyfer gweithgareddau meithrin cysylltiadau â chyflogwyr;
- Adolygiad llenyddiaeth: archwiliad o gefnogaeth yn y DU a chefnogaeth ryngwladol ar gyfer mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr, gan archwilio tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda, y rhwystrau i gyflawni hyn yn llwyddiannus a'i effeithiau.
- Adolygiad o ymarfer mapio a gynhaliwyd yn flaenorol gan Gyrfa Cymru, yn cynnwys ymchwil desg, casglu data gan ddarparwyr gweithgareddau meithrin cysylltiadau â chyflogwyr a chyfweliadau dilynol â chysylltiadau mewn sefydliadau sy'n ddarparwyr.
- Arolwg o ysgolion: Archwilio lefelau ymgysylltu â chyflogwyr a'i effaith ar ysgolion yng Nghymru. Derbyniwyd ymatebion gan 90 o ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig ledled Cymru. Gweler adran 4 ac Atodiad B yr adroddiad am ragor o fanylion.
- Dadansoddi ac adrodd.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau o'r gwaith ymchwil a gynhaliwyd rhwng mis Awst 2020 a mis Mawrth 2021.

# 2. Crynodeb o'r adolygiad llenyddiaeth

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o'r adolygiad llenyddiaeth, gan dynnu ar dystiolaeth sydd wedi'i chynnwys mewn llenyddiaeth gyhoeddedig yng Nghymru, gweddill y DU ac yn rhyngwladol. Mae'n rhoi dealltwriaeth o'r mathau o weithgareddau mentergarwch a chysylltu â chyflogwyr a ddarperir, nodweddion dylunio cyffredin ar gyfer ymarfer effeithiol, tystiolaeth o fanteision i ddysgwyr ac ysgolion, a heriau sy'n ymwneud â chyflwyno darpariaeth a gwerthuso effaith.

Mae'r adolygiad llenyddiaeth llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad A, gan nodi'r ffynonellau a'r cyhoeddiadau y mae'r crynodeb hwn yn seiliedig arnynt. Mae'r adolygiad llawn yn rhoi trosolwg o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg gyrfaoedd yng nghyd-destun y dirwedd polisi ehangach ac enghreifftiau o bolisi a gweithgaredd MMCCh a ddarperir yng ngwledydd eraill y DU. Mae hefyd yn nodi enghreifftiau o arfer da ac arloesi ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol.

## 2.1 Negeseuon allweddol o'r llenyddiaeth

### 2.1.1 Mathau o weithgaredd mentergarwch a meithirn cysylltiadau â chyflogwr a'r rolau

Mae'r llenyddiaeth yn categoreiddio gweithgarwch MMCCh ar dair lefel: lefel ysgol, lefel athro a lefel myfyriwr neu ddysgwr.

- Ar **lefel ysgol,** mae meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yn canolbwyntio ar **weithgareddau arwain a llywodraethu**: e.e. gweithio gyda chyrff llywodraethu; darparu cymorth ariannol ac mewn nwyddau ar gyfer meithrin cysylltiadau â chyflogwyr; buddsoddi mewn cyfleoedd dysgu proffesiynol i staff.

- Ar **lefel athro,** datblygir adnoddau a chynlluniau gwersi i ymgorffori MMCCh fel rhan o **gyflwyno'r cwricwlwm.**

- Ar **lefel dysgwr**, gall ystod o weithgareddau a phrofiadau cysylltiedig â gwaith fel profiad gwaith, ymweliadau ag ysgolion/gweithleoedd, cynlluniau hyfforddi a mentora **wella sgiliau ac ymwybyddiaeth dysgwyr o** yrfaoedd a'r byd gwaith.

Ochr yn ochr â'r gwahanol gategorïau hyn o weithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr, mae ymchwil yn tynnu sylw at y gwahanol ffyrdd y mae meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yn cyfrannu at ddysgu.  Mae'r llenyddiaeth yn dynodi tair 'rôl' o ran meithrin cysylltiadau â chyflogwyr, sy'n cynnwys y canlynol:

- Gall gweithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr fod yn weithgaredd **atodol**: lle mae'n cefnogi dulliau addysgu a dysgu confensiynol yn uniongyrchol er mwyn cyflawni deilliannau dysgu sefydledig e.e. rhaglenni cymorth darllen.

- Gall gweithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr fod yn **ategol:** lle mae'n cynnig ffordd arall o gyflawni deilliannau dysgu sefydledig, e.e. rhaglenni mentora i helpu dysgwyr i wella cyrhaeddiad.

- Yn drydydd, gall gweithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr fod yn **ychwanegol** hefyd: lle mae'n cynnig ffordd o gyflawni deilliannau dysgu sy'n ychwanegol at y rhai a geir mewn addysgu a dysgu confensiynol e.e. gweithgareddau mentergarwch i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd.

### 2.1.2 Yr egwyddorion sy'n sail i ddylunio gweithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr

Mae'r llenyddiaeth yn tanlinellu pwysigrwydd sicrhau bod gweithgareddau meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yn **effeithiol**, yn **effeithlon**, yn **deg** a bod modd **gweld tystiolaeth** ohono. Mae ymchwil yn nodi'r angen i dynnu ar rwydweithiau cyflogwyr presennol i gefnogi effeithlonrwydd ac mae'n pwysleisio pwysigrwydd mynediad cyfartal er mwyn gwella cyfalaf cymdeithasol a chodi dyheadau pob dysgwr. Mae'r llenyddiaeth yn pwysleisio'r angen i ddatblygu data hydredol a all ddarparu dealltwriaeth defnyddiol o effaith gwahanol weithgareddau meithrin cysylltiadau â chyflogwyr.

Mae'r llenyddiaeth yn tynnu sylw at werth modelau rôl cyflogwyr o ran **codi dyheadau** ac agor llygaid dysgwyr i amrywiaeh o gyfleoedd gyrfa posibl, ac mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol o ran codi ymwybyddiaeth o lwybrau galwedigaethol a chyfleoedd yn y farchnad lafur mewn ardaloedd lleol.

Mae'r adolygiad llenyddiaeth hefyd yn nodi'r ystod o weithgareddau meithrin cysylltiadau â chyflogwyr ac addysg gyrfaoedd **sy'n briodol ar gyfer amrywiol gamau addysg**. Mae Ffigur 6.4 yn Atodiad A yn nodi sut y mae gweithgaredd fel arfer yn symud ymlaen o godi ymwybyddiaeth gyffredinol o fyd gwaith mewn ysgolion cynradd i weithgareddau â mwy o ffocws lle ceir rhyngweithio uniongyrchol â chyflogwyr wrth i ddysgwyr symud ymlaen drwy addysg uwchradd.

Mae gwaith ymchwil wedi nodi sawl **her wrth ddarparu profiad gwaith**. Mae'r rhain yn cynnwys llwyth gwaith athrawon; argaeledd lleoliadau yn ôl sector, maint cyflogwr a lleoliad; ac anawsterau o ran meithrin cysylltiadau â chyflogwyr mewn sectorau penodol, yn enwedig y sectorau iechyd, gweithgynhyrchu/adeiladu a'r sectorau creadigol a'r cyfryngau. Gall cost teithio i leoliadau ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus hefyd greu heriau.

O ran **tegwch**, mae'r llenyddiaeth yn nodi bod dysgwyr sydd â statws economaidd-gymdeithasol is yn llai tebygol o gael mynediad at brofiad gwaith mewn gweithleoedd 'statws uchel', yn llai tebygol o fod yn hyderus yn eu dewis o brofiad gwaith ac yn fwy tebygol o gael tasgau dibwys.

### 2.1.3 Sgiliau mentergarwch ac entrepreneuriaeth

Mae datblygu ymwybyddiaeth a sgiliau mewn entrepreneuriaeth wedi bod yn flaenoriaeth i lunwyr polisïau ledled yr Undeb Ewropeaidd yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae Rhaglen EntreComp[1] y Comisiwn Ewropeaidd yn cynnwys 15 o gymwyseddau o dan y

[1] Mae *EntreComp* - Y Fframwaith Cymhwysedd Entrepreneuriaeth - yn cynnig offeryn i wella gallu entrepreneuraidd dinasyddion a sefydliadau Ewropeaidd.

meysydd thematig 'syniadau a chyfleoedd', 'adnoddau' ac 'ar waith' gyda phob cymhwysedd yn nodi meini prawf sylfaen, canolradd, uwch ac arbenigol. Gellir gweld strwythur bras y fframwaith yn Atodiad 2.

Nod addysg entrepreneuriaeth yw datblygu meddylfryd entrepreneuraidd, gwella ymgysylltiad academaidd, cynyddu cyflogadwyedd, ysgogi entrepreneuriaeth o safon ac ehangu mynediad. Mae tegwch o ran addysg entrepreneuriaeth yn cael ei hyrwyddo fwyfwy: arweiniodd ymchwil yng Nghymru at gyhoeddi canllaw arfer da ar gefnogi menywod entrepreneuraidd yng Nghymru ac mae'n amlygu bod stereoteipio ar sail rhyw yn rhwystr. Roedd yn hyrwyddo 'dull ymwybodol o'r rhywiau prif ffrwd' (Busnes Cymru, 2019).

### 2.1.4 Cyflawni gweithgaredd effeithiol o ran meithrin cysylltiadau â chyflogwyr

Credir bod angen i weithgaredd effeithiol o ran meithrin cysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr gynnwys nifer o nodweddion penodol (gweler Tabl 2.1 isod). Mae rhai o'r nodweddion allweddol hyn yn canolbwyntio ar natur y berthynas rhwng yr ysgol a'r cyflogwr, megis gweledigaeth glir o'r hyn y disgwylir ei gyflawni, a'r angen am gyfathrebu da rhwng yr holl bartneriaid. Mae elfennau eraill yn benodol i natur y gweithgareddau a gyflwynir, er enghraifft, amlder gweithgaredd meithrin cysylltiadau a dilysrwydd y gweithgareddau.

*Tabl 2.1: Nodweddion gweithgaredd effeithiol ar gyfer meithrin perthnasoedd a chysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr.*

| Perthnasoedd a meithrin cysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr | |
|---|---|
| **Dilys** - cysylltiadau uniongyrchol â byd gwaith | **Gwerthfawr** - pan fydd dysgwyr yn tystio i'w gwerth mae deilliannau gwell yn dilyn |
| **Rheolaidd** - o leiaf bedwar cyfarfod cofiadwy drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol | **Wedi'i bersonoli** - dylid targedu'r rheini sydd â mynediad cyfyngedig i rwydweithiau sy'n gysylltiedig â gwaith |
| **Gweledigaeth** glir o'r hyn y mae pawb eisiau ei gyflawni | **Hyblygrwydd** - mae gan weithgareddau amrywiol botensial i wella deilliannau ar gyfer gwahanol fathau o ddysgwyr |
| **Cyfathrebu** da ymhlith partneriaid | Canolbwyntio ar y **cwricwlwm** |
| Gweithio mewn **partneriaeth** | Rhaglen sydd **wedi'i strwythuro'n dda** |
| **Ymrwymiad, cydweithrediad** ac arweinyddiaeth ar draws yr holl randdeiliaid |  Ystyriaeth o **flaenoriaethau rhanbarthol,** economaidd a datblygu |
| **Amser** i adeiladu perthnasoedd ac ar gyfer datblygiad proffesiynol | **Ymyrraeth gynnar** - dechrau yn yr ysgol gynradd |

(DYW, 2019, tud. 42; Mann et al., 2018, tud. 72; Burge et al., 2012, tud. 22)

Mae'r nodweddion uchod sy'n ymwneud â meithrin cysylltiadau effeithiol rhwng cyflogwyr ac ysgolion yn gyson â chanfyddiadau Estyn, sydd wedi nodi bod ysgolion sydd â chysylltiadau da â chyflogwyr yn dangos y nodweddion canlynol:

- Gweledigaeth ac ymrwymiad cryf gan uwch arweinwyr;
- Dysgwyr yn cymryd rhan mewn profiadau cysylltiedig â byd gwaith sy'n effeithio ar eu llesiant, eu sgiliau cyflogadwyedd a'u dewisiadau gyrfa;
- Cysylltiadau cryf, pwrpasol â chyflogwyr;
- Defnyddio a datblygu staff yn briodol - staff sy'n deall dyheadau gyrfa dysgwyr, a sut i baratoi dysgwyr ar gyfer byd gwaith;
- Defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur ac olrhain data i ddeall yr economi leol;
- Gwerthuso partneriaethau â chyflogwyr;
- Partneriaethau o ansawdd uchel gyda darparwyr eraill, mentrau a meithrin cysylltiadau â rhieni.

Mae llenyddiaeth arall a adolygwyd yn edrych ar oblygiadau ymarferol darparu gweithgareddau meithrin cysylltiadau effeithiol â chyflogwyr mewn ysgolion. Mae Tabl 2.2 yn crynhoi goblygiadau ymarferol posibl y mae angen mynd i'r afael â nhw i helpu i gynyddu effaith gweithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr mewn ysgolion.

*Tabl 2.2: Goblygiadau ymarferol gweithgaredd effeithiol ar gyfer meithrin cysylltiadau â chyflogwyr.*

| Arfer da o ran meithrin cysylltiadau â chyflogwyr a goblygiadau ymarferol | |
|---|---|
| | **Dechrau'n gynnar**: mae'r gweithgareddau sy'n debygol o fod o fudd i ddysgwyr iau yn cynnwys y rhai sy'n archwilio'r berthynas rhwng dysgu yn yr ysgol a'r byd gwaith; dealltwriaeth o swyddi a herio stereoteipiau. |
| | **Dilysrwydd**: dylid cysoni gweithgareddau â nodweddion a thueddiadau allweddol yn y farchnad lafur leol a dylid datblygu ymweliadau â'r gweithle gyda chyflogwyr yn y sectorau twf. |
| | **Cyswllt parhaus**: dylid annog cyflogwyr i ddatblygu partneriaethau tymor hir a pharhaus. Gallai canllawiau ddarparu strwythur o ran pryd yn ystod taith y dysgwr y mae gweithgareddau penodol meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yn fwyaf buddiol. |
| | **Gweithgareddau amrywiol**: bydd perthnasoedd ag ystod eang o gyflogwyr, gan gynnwys y rhai o wahanol feintiau, yn cyfrannu at ddysgwyr yn dod i gysylltiad ag ystod o yrfaoedd ac yn cael dealltwriaeth o'r farchnad lafur. |
| | **Teilwra gweithgareddau**: bydd cynnig ystod o weithgareddau o fudd i wahanol fathau o ddysgwyr. |
| | **Ansawdd gweithgareddau**: gallai canllawiau ar gyfer ysgolion a chyflogwyr roi sicrwydd ansawdd ynghylch gweithredu gweithgareddau. |
| | **Offeryn rheoli meithrin cysylltiadau â chyflogwyr**: rhoi cyfle i ddysgwyr fyfyrio ar eu cysylltiadau â chyflogwyr a'u dyheadau gyrfa. |

**Manteision i fusnesau**: gallai cyfranogiad mewn ysgolion gael ei gymell drwy hysbysebu sut y gall gweithgareddau ddatblygu sgiliau meddal gweithwyr a gwella enw da sefydliadau.

(Addaswyd o DYW, 2019, tud. 42-49).

### 2.1.5 Prosesau monitro a gwerthuso ar gyfer gweithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr

Mae'r llenyddiaeth a adolygwyd yn awgrymu mai prin yw'r dystiolaeth gadarn ynghylch effaith cyfranogiad cyflogwyr ar gyrhaeddiad a chyrchfannau ôl-16. Gall y sylfaen dystiolaeth ar effeithiolrwydd ac ansawdd gweithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr fod yn ddibynnol ar ddeilliannau hunangofnodedig, gan danlinellu'r angen am ymchwil fwy trylwyr yn seiliedig ar ddulliau lled-arbrofol a data cryfach ar gyrchfannau tymor hwy. Awgrymir y byddai hyn yn darparu 'dealltwriaeth fwy cadarn' o effaith gweithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr, a'r math o gyfranogwyr y mae gwahanol fathau o ymyriadau yn gweithio orau â nhw. Mae llenyddiaeth arall hefyd yn nodi'r pwyslais ar foddhad hunangofnodedig myfyrwyr neu wybodaeth am gyrchfannau a gesglir unwaith yn unig ac unwaith eto mae'n tynnu sylw at gyfyngiadau. Mae hefyd yn nodi bod problemau'n parhau o ran diffinio deilliannau dymunol, a'r ffordd orau o'u mesur.

Nodir y cyfyngiadau yn y sylfaen dystiolaeth bresennol hefyd yng nghyd-destun Cymru: er bod Estyn yn nodi bod ysgolion yng Nghymru yn gwerthuso gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr, dim ond mewn 'ychydig iawn o ysgolion' y mae hyn yn wir.

Er gwaethaf y cyfyngiadau a nodwyd yn y llenyddiaeth, mae tystiolaeth gyson bod profiadau cysylltiedig â byd gwaith gan gynnwys ymweliadau â'r gweithle, dosbarthiadau meistr a chysgodi swyddi yn gysylltiedig ag effeithiau cadarnhaol ar ddysgwyr ar draws sawl maes. Mae'r rhain yn cynnwys effeithiau ar barodrwydd dysgwyr a'u gallu i wneud dewisiadau gwybodus ac effaith ar wybodaeth, sgiliau a deilliannau.

*Tabl 2.3: Enghreifftiau o ddeilliannau a gofnodwyd ar gyfer gweithgareddau meithrin cysylltiadau â chyflogwyr*

| Deilliannau a gofnodwyd ar gyfer meithrin cysylltiadau â chyflogwyr | |
|---|---|
| **Gwell sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth,** e.e. gwell dyheadau gyrfa, gwybodaeth am ddiwydiannau penodol | **Myfyrio ar yrfa** - datblygu meddwl am eich cymhelliant, hunanbenderfyniad a'ch gwytnwch eich hun; |
| **Gwell deilliannau academaidd a dysgu,** e.e. dealltwriaeth ddyfnach o bynciau penodol, integreiddio theori ac ymarfer yn well mewn pynciau; | **Ymchwilio i yrfa** - rhoi siâp i'ch llwybr gyrfa eich hun drwy ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer astudio neu weithio; |
| Mynd i'r afael ag **iechyd a llesiant**, e.e. gwell hunan-barch | **Camau gweithredu ar yrfa** - cyfleoedd i wneud synnwyr o'r hyn a ddysgwyd o ymyriadau gwahanol a gweithredu arno; |

| | |
|---|---|
| Mwy o **fwynhad ac ymgysylltiad**, e.e. gwell presenoldeb, perthnasoedd cadarnhaol â mentoriaid; | **Rhwydweithio** - adeiladu a chynnal rhwydwaith o gysylltiadau allweddol; |
| **Gwell cyfleoedd cyflogaeth a chyfleoedd ar gyfer enillion**, e.e. creu rhwydweithiau personol. | **Amgylchedd dysgu** - ysgogi profiadau bywyd go iawn gyda gwaith a deialog am y profiadau hyn; |
| **Ymrwymiad, cydweithrediad** ac arweinyddiaeth ar draws yr holl randdeiliaid | **Deialog am yrfa** - sgyrsiau ystyrlon gydag athrawon, rhieni neu ofalwyr, cyflogwyr a gweithwyr, cyn-fyfyrwyr, a gweithwyr datblygu gyrfa hyfforddedig proffesiynol. |

Addasiad o Burge et al., 2012; Hughes et al., 2016.

## 2.2 Casgliadau

Mae'r llenyddiaeth yn gyson o ran adrodd ar fanteision mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr i ddysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys gwella dealltwriaeth dysgwyr o'r farchnad lafur gyfoes a'r llwybrau o ran swyddi, gyrfaoedd a dilyniant sy'n bodoli ynddo, ynghyd â mwy o werthfawrogiad o'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol ym myd gwaith. **Mae'r llenyddiaeth hefyd yn awgrymu effaith gadarnhaol ar lesiant dysgwyr, hunan-barch, eu hymwneud â dysgu a chreu rhwydweithiau personol** drwy feithrin cysylltiadau â chyflogwyr a chyfleoedd i fyfyrio, archwilio a chael deialog.

Mae'r llenyddiaeth yn tynnu sylw at lawer o nodweddion allweddol gweithgaredd meithrin cysylltiadau'n llwyddiannus â chyflogwyr, a ddylai fod yn effeithiol, yn effeithlon, yn deg ac y dylid dangos tystiolaeth ohono. **Ystyrir bod datblygu gweledigaeth glir a chyd-ddealltwriaeth** o'r hyn y disgwylir i bartneriaethau rhwng ysgolion a chyflogwyr ei gyflawni yn fan cychwyn hanfodol ar gyfer y broses meithrin cysylltiadau hon.

Ymhlith y nodweddion hanfodol eraill mae ffocws ar fynediad tecach er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau presennol mewn darpariaeth gyrfaoedd a mynediad at gyflogwyr; amlder a dilysrwydd gweithgaredd meithrin cysylltiadau; **ffocws ar ddechrau'n gynnar yn nheithiau dysgwyr i gefnogi eu dyheadau a dylanwadu ar agweddau**; a sicrhau y darperir amrywiaeth o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm ac anghenion economaidd lleol i gefnogi cynnydd dysgwyr drwy'r ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd.

Cysylltwyd y defnydd o **gyngor gyrfaoedd diduedd, wedi'i bersonoli** â meithrin cysylltiadau â dysgwyr a chefnogi staff i ddeall eu dyheadau fel elfen allweddol arall o bontio'n llwyddiannus o'r ysgol i'r gwaith. Ymhlith y nodweddion pwysig eraill mae **cefnogi dysgwyr i gael cyfleoedd i feithrin cysylltiadau parhaus â chyflogwyr** drwy gydol y flwyddyn academaidd a pharu dysgwyr â chyfleoedd priodol sy'n ymwneud â'u diddordebau, gan roi amser iddynt baratoi a myfyrio. **Gall datblygu sgiliau cyflogadwyedd fel gweithio fel rhan o dîm, cyfathrebu a datrys problemau ochr yn ochr â meddylfryd entrepreneuraidd** gyfoethogi addysg dysgwyr a sicrhau deilliannau dysgu ychwanegol.

Mae'r llenyddiaeth ryngwladol wedi amlinellu ystod o heriau i feithrin cysylltiadau'n llwyddiannus â chyflogwyr gan gynnwys argaeledd lleoliadau gwaith yn ôl sector, maint a lleoliad cyflogwyr ynghyd â materion fel biwrocratiaeth ar gyfer cwmnïau bach. **Gall diffyg cefnogaeth, adnoddau ac amser i ysgolion ddatblygu cysylltiadau â chyflogwyr gael ei waethygu gan ddiffyg dealltwriaeth cyflogwyr ynghylch sut y gallant elwa**, er enghraifft drwy lunio'r cyflenwad sgiliau yn y dyfodol, cyfle i hyrwyddo gyrfaoedd yn eu sefydliad neu helpu i wella sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc.

Felly, dylai gweithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr ganolbwyntio ar fynd i'r afael â'r heriau hyn drwy ddylunio a gweithredu'r nodweddion allweddol a amlinellir uchod. Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu y dylai hyn ddigwydd ochr yn ochr â **mwy o ffocws ar gynhyrchu tystiolaeth gadarn ar effaith mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr** ar ddeilliannau fel cyflawniad, cyrchfannau ôl-16, cefndiroedd cymdeithasol dysgwyr ac ansawdd a swm y gweithgareddau.

**Materion i'w hystyried yng nghyd-destun CWRE a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr**

i. A yw'r categorïau a'r fframweithiau a amlinellir yn adran 2.1.4 yn ddefnyddiol o ran cefnogi cynllunio ar lefel ysgol ar gyfer meithrin cysylltiadau â chyflogwyr?

ii. Gan ystyried y gwahanol fathau a 'rolau' meithrin cysylltiadau â chyflogwyr a amlinellwyd, a ddylid annog ysgolion i fyfyrio ar sut y maent yn cynllunio ac yn cefnogi darpariaeth a'r rhesymeg dros y gweithgareddau y maent yn eu darparu?

iii. A yw nodweddion ymarfer effeithiol a nodir yn y llenyddiaeth yn darparu arweiniad defnyddiol i ysgolion wrth iddynt ddatblygu CWRE fel elfen drawsbynciol yn y cwricwlwm newydd?

iv. Mae'n bwysig bod ysgolion yn gallu diffinio a chyfathrebu'r deilliannau y mae eu rhaglen meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yn anelu at eu cyflawni. Mae'r tabl uchod yn rhoi enghreifftiau o ddeilliannau y gallai ysgolion fod yn gweithio tuag atynt. Maent hefyd yn darparu syniadau ar gyfer hyrwyddo gwerth meithrin cysylltiadau â chyflogwyr i staff, dysgwyr a chymuned ehangach yr ysgol.

# 3. Gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yng Nghymru

Mae'r bennod hon yn amlinellu canfyddiadau dadansoddiad o'r ymarfer mapio gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr (MMCCh) yng Nghymru, a ategwyd gan gyfweliadau â darparwyr a rhanddeiliaid allweddol. Nod yr ymarfer oedd ymchwilio i'r gwahanol fathau o weithgaredd MMCCh a ddarperir a barn rhanddeiliaid ynghylch y ddarpariaeth gyfredol a'r bylchau. Mae hefyd yn ymchwilio i sut y mae darparwyr yn addasu darpariaeth i gynnig profiadau i ysgolion a dysgwyr mewn ffyrdd mwy hyblyg, gan adlewyrchu'r newidiadau sy'n deillio o'r pandemig Covid-19. Mae'r bennod hefyd yn cynnwys 5 astudiaeth achos o weithgareddau MMCCh yng Nghymru sy'n nodi gweithgareddau sy'n gweithio'n dda, y rhesymau dros hyn a'u heffaith ar ddysgwyr.

## 3.1 Trosolwg

Mae amrywiaeth eang o fentrau a rhaglenni yn cael eu darparu ledled Cymru, wedi'u harwain gan sefydliadau'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat, sy'n amrywio'n sylweddol o ran maint. Ar un pegwn, mae rhaglenni sy'n cwmpasu Cymru gyfan, a ariennir yn ganolog gan Lywodraeth Cymru, sy'n aml yn cynnig cyfres o weithgareddau a chefnogaeth; mae gweithgareddau eraill yn ymwneud â phynciau penodol (yn aml yn canolbwyntio ar hyrwyddo gyrfaoedd mewn STEM), sydd hefyd yn cael eu darparu ledled Cymru neu mewn rhanbarthau penodol; ceir mentrau sy'n cael eu harwain gan awdurdodau lleol sy'n mabwysiadu agwedd gydlynol tuag at MMCCh, gan ganolbwyntio ar feysydd neu ranbarthau penodol; a cheir prosiectau a mentrau unigol sy'n cael eu hyrwyddo a'u cynnal gan sefydliadau'r trydydd sector a'r sector preifat.

## 3.2 Rhaglenni a mentrau cenedlaethol

Isod, rydym yn rhoi trosolwg o raglenni a gweithgareddau gyda chylch gwaith cenedlaethol neu'r rhai sy'n cael eu darparu ledled Cymru.

**Gyrfa Cymru**
Mae Gyrfa Cymru yn is-gwmni ym mherchnogaeth lwyr Llywodraeth Cymru ac mae'n darparu gwasanaeth gyrfaoedd cenedlaethol i bobl o bob oed. Mae'r sefydliad yn arwain amrywiaeth o fentrau MMCCh cenedlaethol ac yn cyfrannu atynt. Mae hefyd yn cefnogi ysgolion i feithrin cysylltiadau â chyflogwyr er mwyn gwella dealltwriaeth dysgwyr o fyd gwaith. Cyflawnir hyn drwy wasanaethau cyffredinol fel ffeiriau gyrfaoedd ar raddfa fawr, dulliau digidol gan gynnwys gweminarau wedi'u harwain gan gyflogwyr, yn ogystal ag amrywiaeth o weithgareddau a digwyddiadau pwrpasol. Mae Cynghorwyr Gyrfa Cymru hefyd yn darparu cefnogaeth bwrpasol i alluogi ysgolion i wella addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith fel rhan o'r broses o gyflawni'r cwricwlwm.

Lansiwyd y Gyfnewidfa Addysg Busnes gan Gyrfa Cymru yn 2017 fel cronfa ddata i'w defnyddio gan ysgolion i ganfod cyflogwyr a all weithio â nhw i ddarparu rhaglenni a gweithgaredd sy'n gwella eu darpariaeth o'r cwricwlwm a phrofiadau cysylltiedig â byd

gwaith. Mae cyflogwyr yn cofrestru i gael eu cynnwys ar y gronfa ddata ac yn nodi'r math o weithgareddau y gallant eu darparu neu eu cefnogi. Mae'r gronfa ddata yn rhoi cyfle i ysgolion weithio gyda chyflogwyr i drefnu ymweliadau â diwydiant, gweithdai gan gyflogwyr, cyfleoedd gwirfoddoli a lleoliadau gwaith. Mae timau Cyswllt Busnes Gyrfa Cymru yn hwyluso cyfathrebu rhwng ysgolion a busnesau i ddechrau'r broses ac yn cefnogi cyflogwyr ac ysgolion i gynnal y cysylltiadau. Mae'r broses yn caniatáu i gyflogwyr weithio'n uniongyrchol gydag ysgolion, gan godi ymwybyddiaeth o'u cwmnïau o fewn cymunedau lleol a chaniatáu iddynt ymwneud â gweithlu'r genhedlaeth nesaf a chyfleoedd cyflogaeth posibl yn y dyfodol.

Drwy'r rhaglen Sbardun, mae Gyrfa Cymru yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ledled Cymru i ddarparu cefnogaeth i bobl ifanc sydd fwyaf mewn perygl o ddod yn NEET. Mae hyn wedi cynnwys gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ar raglenni a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd, gan helpu i gydlynu ymweliadau cyflogwyr ag ysgolion a lleoliadau gwaith wedi'u teilwra ar gyfer dysgwyr agored i niwed drwy'r prosiectau Ysbrydoli i Gyflawni, Cynnydd a TRAC.

Yn ddiweddar, mae Gyrfa Cymru wedi cyhoeddi ei weledigaeth strategol newydd, *Dyfodol Disglair*.[2] Mae Dyfodol Disglair yn cynnwys pedwar nod a fydd yn llywio gwaith Gyrfa Cymru dros y pum mlynedd nesaf. Caiff y nodau a'r ymrwymiadau trosfwaol eu crynhoi isod.

**Nod un:** Darparu gwasanaeth cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth dwyieithog, cynhwysol a diduedd i bobl Cymru

- cefnogi pobl ifanc i bontio'n gadarnhaol i addysg, gwaith neu hyfforddiant;
- cefnogi cwsmeriaid y mae angen lefelau uwch o gefnogaeth arnynt i bontio'n gadarnhaol i ddarpariaeth briodol;
- codi ymwybyddiaeth cwsmeriaid o addysg, gwaith a hyfforddiant a chyfleoedd eraill i wneud cynnydd;
- gwella mynediad at fanteision cymorth ar ffurf cyfarwyddyd gyrfaoedd ac anogaeth drwy gydweithredu ac ymgysylltu â phartneriaid a dylanwadwyr.

**Nod dau:** Datblygu ein gwaith gyda chyflogwyr, darparwyr hyfforddiant ac entrepreneuriaid i ddeall eu gofynion sgiliau a'u cyfleoedd i bobl ifanc ac oedolion

- hysbysu ac ysgogi pobl ifanc ynglŷn â'r byd gwaith drwy ymgysylltu â chyflogwyr a modelau rôl;
- codi ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r sgiliau sydd eu hangen ar sectorau sy'n flaenoriaeth economaidd a sut maen nhw'n cysylltu â'r cwricwlwm.

**Nod tri:** Cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cwricwlwm i Gymru a chyfrannu at gyflawni'r pedwar diben

- darparu gwasanaeth dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i feithrin sgiliau, gwybodaeth a hyder gweithwyr proffesiynol yn y byd addysg i ddarparu CWRE effeithiol;
- dylunio a chyflwyno gwobr CWRE newydd am ragoriaeth yn y cwricwlwm;
- cefnogi'n rhagweithiol y gwaith o weithredu canllawiau statudol CWRE.

[2] Gyrfa Cymru (2021), Dyfodol Disglair

**Nod pedwar:** Datblygu gweithlu medrus, ymgysylltiol ac ystwyth yn Gyrfa Cymru a'i alluogi i ddarparu gwasanaethau sy'n perfformio'n dda ac sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid

- datblygu gwasanaethau wedi'u personoli, sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, wedi'u gwella gan dechnoleg, sy'n ymatebol i anghenion defnyddwyr ac yn hygyrch i bawb;
- creu gweithlu Gyrfa Cymru medrus, ymgysylltiedig ac ystwyth sy'n gynhwysol ac yn cefnogi llesiant gweithwyr;
- gwneud y defnydd gorau o dechnoleg i drawsnewid ein ffyrdd o weithio a datblygu sgiliau a galluoedd digidol holl weithwyr Gyrfa Cymru;
- seilio ein datblygiadau o ran polisi a gwasanaethau ar ein dealltwriaeth o gwsmeriaid, gwybodaeth fusnes, data a dadansoddeg.

**Syniadau Mawr Cymru**

Mae Syniadau Mawr Cymru yn fenter a arweinir gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu diwylliant entrepreneuraidd yng Nghymru er mwyn cefnogi'r broses o gyflawni'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi. Mae Syniadau Mawr Cymru yn gweithredu mewn ysgolion ledled Cymru, gan ddarparu cyfleoedd i entrepreneuriaid gyflwyno gweithdai awr neu ddwy awr o hyd i ymchwilio i fentergarwch, yn nodweddiadol gyda dysgwyr o Flwyddyn 9 ac uwch. Mae'r digwyddiadau wedi'u cynllunio i feithrin cysylltiadau ysbrydoledig ag entrepreneuriaid, archwilio'r meddylfryd entrepreneuraidd, cynhyrchu syniadau a datblygu dealltwriaeth o greu busnes. Mae Syniadau Mawr Cymru hefyd yn gyfrifol am Gystadleuaeth y Criw Mentrus. Mae'r gystadleuaeth hon ar gyfer plant oedran cynradd ledled Cymru, gan roi cyfle i arddangos eu gweithgareddau menter wrth ddatblygu sgiliau entrepreneuraidd mewn ffordd hwyliog a rhyngweithiol.

**Dosbarth Busnes**

Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru rhwng 2015 a dechrau 2021, roedd Dosbarth Busnes yn fenter a arweiniwyd gan Busnes yn y Gymuned a Gyrfa Cymru a oedd yn hwyluso ac yn hyrwyddo partneriaethau rhwng cyflogwyr ac ysgolion. Drwy ddod ag ysgolion a busnesau ynghyd, nod Dosbarth Busnes oedd gwella dealltwriaeth dysgwyr o fyd gwaith, gwella eu dewisiadau gyrfa a datblygu eu sgiliau cyflogadwyedd.

**Prosiectau eraill ledled Cymru**

Mae nifer o brosiectau, mentrau ac ymyriadau MMCCh eraill ledled Cymru yn cael eu darparu mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mewn rhai achosion, mae'r rhain yn brosiectau a ariennir gan y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector a gychwynnodd yng Nghymru, gyda ffocws ar weithgareddau i hyrwyddo STEM (e.e. Technocamps, sy'n hyrwyddo uwchsgilio digidol a Chynllun Addysg Beirianneg Cymru). Mae rhai o'r rhain yn rhaglenni sydd wedi'u hen sefydlu a chanddynt bartneriaethau cryf ag ysgolion ledled Cymru.

## 3.3 Prosiectau a rhaglenni rhanbarthol a lleol

Ceir ystod eang o fentrau mewn rhanbarthau neu ardaloedd penodol o Gymru. Mae'r rhain wedi esblygu dros amser mewn ymateb i nifer o sbardunau, gan gynnwys cyfleoedd a gyflwynwyd gan gyllid, mentrau a strategaethau'r Undeb Ewropeaidd a ddatblygwyd gan awdurdodau lleol neu bartneriaethau strategol rhanbarthol, prosiectau dan arweiniad

addysg bellach ac uwch a phartneriaid yn y sector preifat sy'n gweithio mewn meysydd penodol.

Fel rhan o Raglen Weithredol yr ESF yng Nghymru, mae TRAC, Cynnydd ac Ysbrydoli i Gyflawni yn brosiectau a arweinir gan awdurdodau lleol ledled Cymru sy'n ceisio lleihau'r risg na fydd pobl ifanc rhwng 11 a 24 oed yn symud ymlaen i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant (NEET). Mae Gyrfa Cymru yn bartner o ran darparu'r rhaglenni ESF hyn drwy gyflwyno 'Sbardun', y rhaglen MMCCh estynedig bwrpasol sy'n darparu cymorth gyda gyrfaoedd, anogaeth a chyfarwyddyd i bobl ifanc a lle bo hynny'n briodol cynnig profiad gwaith wedi'i deilwra. Yn nodweddiadol mae'r ymyriadau hyn, sy'n cynnwys trefnu cyflwyniadau gan gyflogwyr, ymweliadau â'r gweithle a lleoliadau profiad gwaith, yn gofyn am waith cynllunio a chefnogaeth ddwysach.

Mae STEM Gogledd yn brosiect sydd â'r nod o annog myfyrwyr ysgolion uwchradd yng Ngwynedd, Ynys Môn a Chonwy i astudio pynciau STEM ac annog cyrhaeddiad yn y pynciau hynny. Ceir gweithgaredd MMCCh helaeth drwy gyflwyniadau gan gyflogwyr, ymweliadau â safleoedd, rhyngweithio digidol, profiad gwaith tymor byr, dosbarthiadau meistr, a ffeiriau gyrfaoedd STEM.

Mae Dreigiau Ifanc yn cynnal cystadlaethau entrepreneuriaeth sy'n meithrin cysylltiadau ag ysgolion cynradd ac uwchradd yn ne-orllewin Cymru. Mae'r cystadlaethau'n darparu cyfleoedd i bobl ifanc arddangos eu sgiliau i noddwyr a chyflogwyr, gan ddatblygu eu sgiliau entrepreneuriaeth hefyd.

Edrychodd yr ymarfer mapio hefyd ar enghreifftiau o fodelau darpariaeth a ddatblygwyd gan awdurdodau lleol i gefnogi a hyrwyddo MMCCh a gweithgaredd cysylltiedig â gyrfaoedd. Mae Tîm Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant Rhondda Cynon Taf yn darparu rhaglen Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith eang ei chwmpas. Mae hyn yn cynnwys dylunio rhaglenni cyflogadwyedd pwrpasol gydag ysgolion unigol, gan gynnwys meithrin cysylltiadau â chyflogwyr drwy sgyrsiau am ddiwydiant; gwobrau Cyflawniad Cadarnhaol i ysgolion, sy'n annog sgiliau ar gyfer y byd gwaith; ffug gyfweliadau; rhaglen profiad gwaith.

Mae Rhondda Cynon Taf hefyd wedi cynnal rhaglen beilot i weithio tuag at Feincnodau Canllawiau Gyrfa Da Gatsby ac mae'r Rhaglen Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith hefyd yn seiliedig ar ddarparu cymorth i ysgolion i'w galluogi i wneud cynnydd tuag at y meincnodau. (Gweler yr astudiaeth achos am ragor o fanylion.)

Mae Cyngor Dinas Caerdydd wedi datblygu Addewid Caerdydd, sy'n ceisio codi dyheadau a datblygu sgiliau ar gyfer byd gwaith ymhlith pobl ifanc drwy bartneriaeth ag ysgolion, cyflogwyr, y gymuned a phartneriaethau addysg uwch ac addysg bellach. Bydd rhwydweithiau cyflogwyr, yn sectorau twf yr economi yn benodol, yn darparu cyfleoedd ar gyfer meithrin cysylltiadau â disgyblion, ac mewn cydweithrediad ag ysgolion a darparwyr addysg ehangach byddant yn cefnogi cyd-adeiladu profiadau a phrofiadau addysgu a dysgu i wella'r hyn a gynigir drwy'r Cwricwlwm newydd. Mae Addewid Caerdydd yn cynnwys rhaglen eang o waith sy'n cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol Cyngor y Ddinas ac sy'n seiliedig ar:

- Drefniadau llywodraethu: (gweithio i sicrhau bod uwch gynrychiolwyr o fyd busnes ar gyrff llywodraethu ysgolion)

- Profiadau o Waith (Creu partneriaethau rhwng ysgolion a busnesau i ddarparu profiadau o waith a thargedu datblygu sgiliau yn sectorau twf economaidd allweddol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, gan gynnwys lleoliadau profiad gwaith rhithwir)
- Datblygu a hyrwyddo opsiynau prentisiaeth ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed gyda phartneriaid
- Cefnogi ysgolion i weithredu'r Cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru
- Gwerth cymdeithasol: Datblygu fframwaith gwerth cymdeithasol, drwy gynllunio a chaffael nwyddau a gwasanaethau'r Cyngor, sy'n darparu cyfleoedd ystyrlon i bobl ifanc.

Er nad yw fframwaith monitro a gwerthuso ar gyfer Addewid Caerdydd wedi'i ddatblygu'n llawn eto, mae'r awdurdod wedi nodi ei feini prawf llwyddiant, sy'n cynnwys: sicrhau bod pobl ifanc yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ar eu llwybrau dysgu yn seiliedig ar wybodaeth, sgiliau a phrofiadau rhagorol sy'n gysylltiedig â byd gwaith sydd wedi'u hymgorffori yn eu bywyd ysgol. Mae'r rhaglen hefyd yn anelu at wella cyrhaeddiad addysgol ledled y ddinas a sicrhau bod ysgolion yn gweithio gyda busnesau, diwydiant, AB ac AU i ddatblygu a gwella gwybodaeth, sgiliau a phrofiadau staff a disgyblion.

## 3.4 Rhaglenni a phrosiectau â ffocws mwy penodol

Mae rhaglenni a phrosiectau llai eraill, a ddarperir yn aml gan bartneriaid yn y trydydd sector neu'r sector preifat, i'w gweld ledled Cymru. Ceir amrywiaeth o ddulliau gweithredu a chynnwys, sy'n adlewyrchu rhai o'r gweithgareddau a'r arferion da rhyngwladol a amlygwyd yn yr adran lenyddiaeth. Mae'r prosiectau'n amrywio o ran y ffocws ar natur eu gweithgareddau. Dyma rai enghreifftiau o'r math o MMCCh a gynigir:

- Gweithgareddau sy'n ceisio lleihau anghydraddoldeb (anghydraddoldeb economaidd a anghydraddoldeb rhwng y rhywiau) gan dargedu ymyriadau mewn mathau penodol o ysgolion neu gyda grwpiau targed penodol;
- Sefydliadau sy'n darparu rhaglenni neu adnoddau sy'n canolbwyntio ar bynciau neu sectorau penodol e.e. gyrfaoedd yn y cyfryngau a ffilm (gweler yr astudiaeth achos **Into Film**), llythrennedd ariannol, STEM.
- Rhaglenni strwythuredig, dosbarthiadau meistr, mentora ac ymweliadau â'r gweithle i hyrwyddo sgiliau entrepreneuriaeth (gweler yr astudiaeth achos **Menter yr Ifanc Cymru**);
- Sefydliadau sy'n cysylltu ysgolion ag arweinwyr busnes (darparu gwasanaeth broceriaeth sy'n rhannu nodau tebyg â darpariaeth arall);
- Cyfleoedd profiad gwaith a gweithgareddau meithrin cysylltiadau eraill wedi'u teilwra i bobl ifanc agored i niwed neu ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (gweler astudiaethau achos **Cynnydd a Work Fit Cymru**);
- Darpariaeth profiad gwaith rhithwir.
- Mae dysgu proffesiynol gan athrawon hefyd yn rhan annatod o rai prosiectau, er enghraifft Prosiect Peirianneg y Cymoedd ym Mlaenau Gwent a Merthyr a Pheilot Meincnodi Gatsby yn Rhondda Cynon Taf (gweler yr astudiaeth achos o beilot **Gatsby Rhondda Cynon Taf**).

## 3.5 Sylwadau ar weithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yng Nghymru

Mae'r adran ganlynol yn seiliedig ar gyfweliadau â rhanddeiliaid a darparwyr MMCCh ledled Cymru.

### 3.5.1 Cynllunio a chydlynu gweithgaredd

Mae'r 'cynnig' mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr sydd ar gael i ysgolion yn ymddangos yn amrywiol, gyda llu o brosiectau, mentrau ac ymyriadau yn targedu ystod o grwpiau blwyddyn mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth o fodelau cyflawni ac maent yn canolbwyntio ar lawer o bynciau a meysydd pwnc ac yn rhoi sylw cynyddol i weithgaredd i gefnogi'r weledigaeth ar gyfer CWRE yn y cwricwlwm newydd. Fodd bynnag, yn seiliedig ar gyfweliadau a gynhaliwyd gyda phartneriaid, nid yw'n eglur a yw'r dosbarthiad a'r ddarpariaeth yn deg ledled Cymru.

> *"Nid oes llawer sy'n unffurf ledled Cymru o ran y cynnig meithrin cysylltiadau â chyflogwyr."* **(Darparwr MMCCh)**

Adroddwyd bod y swyddogaethau a'r gweithgareddau a ddarperir gan lawer o bartneriaid wedi esblygu dros amser mewn ymateb i amrywiaeth o ffactorau: newidiadau yn y trefniadau cyllido; cyfleoedd a gyflwynir drwy gronfeydd strwythurol yr UE; partneriaethau a strwythurau rhanbarthol a lleol newydd sy'n dod i'r amlwg; blaenoriaethau a nodwyd ar lefel sectoraidd; ymatebion i angen a nodwyd; a buddiannau masnachol. Er y gellir gweld bod y dulliau hyn wedi ymateb yn hyblyg i anghenion a chyfleoedd, prin fu'r oruchwyliaeth strategol gyffredinol ar sut mae'r ddarpariaeth wedi datblygu a phrin yw'r egwyddorion arweiniol i gefnogi'r ddarpariaeth.

Yn ogystal, cododd rhai rhanddeiliaid gwestiynau ynghylch pa mor dda y mae rhai o'r gweithgareddau'n cael eu cydlynu. Awgrymwyd bod gorgyffwrdd a dyblygu mewn mentrau MMCCh - er enghraifft, mae llawer o sefydliadau gwahanol sy'n gweithredu ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol neu leol yn cynnal gweithgaredd broceriaeth a hwyluso sy'n cysylltu ysgolion â chyflogwyr. Felly, ar gyfer y rhanddeiliaid hyn, roedd angen dull symlach wedi'i gynllunio yn y dyfodol.

Roedd rhai rhanddeiliaid hefyd o'r farn nad oedd polisi a gweithgareddau diweddar wedi canolbwyntio'n ddigonol ar fusnesau bach a chanolig, sy'n hollbwysig i economi Cymru, ond y cydnabyddir eu bod o bosibl yn anoddach i feithrin cysylltiadau â nhw oherwydd eu maint, eu lleoliad a'u capasiti. Mae hyn yn cysylltu â'r rhwystrau i feithrin cysylltiadau a amlygwyd yn y llenyddiaeth, gyda biwrocratiaeth ar gyfer cwmnïau bach yn fater a oedd yn eu hatal rhag meithrin cysylltiadau. I randdeiliaid, roedd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr lleol llai hefyd yn allweddol i gefnogi mwy o ffocws ar lwybrau dysgu galwedigaethol a seiliedig ar waith, yr ystyriwyd eu bod yn cynnig cyfle i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau yn y ddarpariaeth yn unol ag ymrwymiadau Llywodraeth Cymru i gefnogi mwy o brentisiaethau.

### 3.5.2 Sylwadau ar ansawdd ac effaith y ddarpariaeth

Yn ei adroddiad a gyhoeddwyd yn 2017, mynegodd Estyn bryder am y lleihad mewn partneriaethau rhwng ysgolion a chyflogwyr a nododd fylchau mewn gwybodaeth ynghylch effaith neu ansawdd partneriaethau o'r fath.

Mae Gyrfa Cymru yn cynnal gwerthusiad helaeth o'i weithgaredd addysg busnes, gan gynnwys casglu adborth gan ddysgwyr, athrawon a rhieni ar y digwyddiadau a gynhelir mewn ysgol a'r ffeiriau gyrfaoedd mawr a gynhelir. Defnyddir hyn i wneud addasiadau a gwelliannau parhaus i'r gweithgaredd. Comisiynodd Gyrfa Cymru hefyd ymchwil allanol i'w weithgaredd partneriaeth addysg busnes yn 2019, a oedd yn cynnwys edrych ar effeithiolrwydd a manteision canfyddedig Dosbarth Busnes a'r Gyfnewidfa Addysg Busnes. Mae'r data a gasglwyd drwy waith ymchwil a gwerthuso mewnol ac allanol yn dangos lefelau uchel o foddhad ymhlith defnyddwyr o ran y ddarpariaeth bresennol ac yn datgelu bod ysgolion yn gwerthfawrogi gweithgareddau MMCCh.

Yn Dyfodol Disglair, mae Gyrfa Cymru hefyd wedi ymrwymo i'r nod o 'seilio ein datblygiadau o ran polisi a gwasanaethau ar ein dealltwriaeth o gwsmeriaid, gwybodaeth fusnes, data a dadansoddeg.'

Teimlai nifer o sefydliadau partner nad oedd llawer wedi newid yn y blynyddoedd ers i Estyn nodi gwendidau mewn partneriaethau rhwng ysgolion a chyflogwyr. Clywodd yr ymchwil hwn fod gweithio mewn partneriaeth (yn enwedig yng nghyd-destun cyfleoedd profiad gwaith) yn dal heb ei ddatblygu'n ddigonol mewn sawl achos. Awgrymwyd bod yr amrywioldeb a welwyd mewn gweithgaredd MMCCh i'w briodoli'n rhannol i ddiffyg cydlynu gweithgaredd yn lleol ac yn rhanbarthol. Mewn achosion eraill, fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod tystiolaeth o newid tuag at gynllunio mwy cydgysylltiedig a chyfannol, gydag ysgolion yn cydnabod potensial y cwricwlwm newydd fel catalydd ar gyfer rhoi mwy o bwyslais ysgol gyfan ar addysg gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith.

Er bod amrywiaeth a chwmpas rhaglenni a phrosiectau MMCCh yng Nghymru yn dangos faint o weithgaredd sydd wedi digwydd, neu sy'n parhau i ddigwydd, prin yw'r asesiadau effaith tymor hwy neu werthusiadau olrhain sydd ar gael i ddangos ei effaith. Fel yr amlinellwyd yn y llenyddiaeth, mae diffyg tystiolaeth gadarn ynghylch effaith y mathau hyn o weithgareddau, yn arbennig o ran effaith ar gyflawniadau dysgwyr, cyrchfannau ac ansawdd a nifer y gweithgareddau.

Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd mynd i'r afael â chwestiynau ynghylch y math o weithgareddau a lleoliadau sy'n gweithio'n dda, a oes rhai gweithgareddau sydd fwyaf priodol ar gyfer grwpiau targed a thystiolaeth o'u gwerth cyffredinol. Gellid disgrifio llawer o ymyriadau a gweithgareddau MMCCh fel digwyddiadau unigrwy neu 'untro', y cydnabuwyd bod eu heffaith ar lwybrau dilyniant a dewisiadau gyrfa yn gyfyngedig iawn.

Roedd y partneriaid a gyfwelwyd yn cytuno bod bylchau yn y dystiolaeth o ran yr hyn sy'n gweithio'n dda mewn ysgolion yng Nghymru a'i bod yn aneglur sut i fesur effaith a llwyddiant llawer o weithgareddau. Mae'r safbwyntiau hyn yn cysylltu â chanfyddiadau'r llenyddiaeth, sy'n dangos nad oes gan ysgolion brosesau digon trylwyr ar waith i werthuso effeithiolrwydd cyfraniad partneriaethau â chyflogwyr neu feini prawf clir i fesur yr effaith neu'r gwerth am arian a gynigir gan bartneriaid allanol.

> *'Prin yw'r gwaith gwerthuso a monitro ac mae angen i hyn fod yn fwy pendant - gan ystyried dysgu cyfunol a gwerthusiadau ar ôl digwyddiad. Mae Gyrfa Cymru a Llywodraeth Cymru yn casglu llawer o ddata ond nid wyf yn credu eu bod wedi cael eu defnyddio'n effeithiol hyd yn hyn.'* **Rhanddeiliad**

> *'Mae gennym wybodaeth a dealltwriaeth dda o'r farchnad lafur, ac rydym yn defnyddio hynny yn sail i'n gweithgareddau gydag ysgolion. Rydym hefyd yn dda am gasglu data gan ddysgwyr ym Mlwyddyn 10 am eu dyheadau ar gyfer y dyfodol. Yr hyn nad ydym yn ei wneud yw olrhain cyrchfannau er mwyn deall pa effaith y mae meithrin cysylltiadau yn ei chael yn nes ymlaen. Mae rhai darnau o'r jig-so yno ond rydyn ni'n dal i fethu gweld y darlun llawn.'* **Rhanddeiliad**

Nododd y partneriaid hefyd fod angen gwneud mwy i ddeall unrhyw gydberthynas rhwng ysgolion sy'n 'ymgysylltu' ac yn rhagweithiol o ran cynllunio a chyflawni ac ystod o fesurau, gan gynnwys: data ar gyrhaeddiad, presenoldeb a chyrchfannau.

> *'Mae diffyg gwybodaeth am yr hyn sy'n gweithio'n dda. A oes gan yr ysgolion hynny sy'n gweithio agosaf gyda ni niferoedd uwch sy'n symud ymlaen i brentisiaethau, neu'n parhau i addysg bellach ac addysg uwch? Dydyn ni ddim yn gwybod ac mae gwella ein gwybodaeth yn bwysig er mwyn bod yn sail i gynllunio a chyflawni yn y dyfodol.'* **Rhanddeiliad**

Mae angen rhoi sylw i'r meysydd yr argymhellodd Estyn bod angen eu gwella yn ei adroddiad yn 2017. Mae angen cefnogi ysgolion o hyd i werthuso gweithgareddau sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd yn fwy systematig ac i fonitro ac olrhain tueddiadau yng nghyflawniad a dilyniant disgyblion. Mae angen iddynt hefyd integreiddio gwerthusiad o'u darpariaeth Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith fel rhan o waith hunanarfarnu eang a chynllunio gwelliannau.

Cydnabyddir yr angen i gryfhau'r sylfaen dystiolaeth a darparu cymorth i ysgolion: Mae Gyrfa Cymru wedi comisiynu astudiaeth sy'n edrych ar yr enillion ar fuddsoddiad drwy MMCCh, sydd i fod i gael ei chyhoeddi eleni. Hefyd, yn anad dim, mae'r Gweinidog Addysg wedi gofyn i Gyrfa Cymru ddatblygu Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru am gyfarwyddyd gyrfaoedd da mewn ysgolion. Mae hyn yn cynnwys datblygu pecyn cymorth hunanasesu ar gyfer CWRE a fydd yn galluogi ysgolion cynradd ac uwchradd i asesu eu darpariaeth gyfredol a datblygu cynllun gwella.

### 3.5.3 Cwricwlwm i Gymru a phwysigrwydd meithrin cysylltiadau'n gynnar ac yn barhaus

Tanlinellodd y rhanddeiliaid bwysigrwydd rhoi cyfleoedd i ddysgwyr feithrin cysylltiadau â chyflogwyr a chael cipolwg ar fyd gwaith ar gam cynnar. Mae hyn yn adleisio canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth, a nododd fod dechrau'n gynnar yn nodwedd allweddol o ddarpariaeth MMCCh lwyddiannus. Mae amrywiaeth o raglenni a phrosiectau yng Nghymru wedi'u cynllunio ar gyfer ysgolion cynradd, gan gynnwys gweithgareddau sy'n

canolbwyntio ar STEM, prosiectau sy'n hyrwyddo sgiliau ac ymwybyddiaeth o fenter a gweithgareddau sy'n herio stereoteipio ar sail rhyw ynghylch cyfleoedd gyrfa yn y dyfodol.

> '*Gall yr ysgol gynradd fod yn oedran ffurfiannol i ddysgu am yrfaoedd, mae hefyd yn gyfle i athrawon dorri'r cylch diweithdra ac mae'n  cysylltu â'r syniad o gwricwlwm 3-16.'* **Rhanddeiliad**

Cynigiodd y rhai a gyfwelwyd y dylai'r Cwricwlwm newydd i Gymru gynnig cyfleoedd i ymgorffori MMCCh fel rhan o'r cwricwlwm ar draws pob cam dysgu.  Mae'n ofynnol i ysgolion gynllunio darpariaeth Gyrfaoedd a Phrofiadau Cysylltiedig â Byd Gwaith (CWRE) fel elfen drawsbynciol o'r cwricwlwm, a ddylai arwain at fod yn rhan fwy gweladwy ac annatod o'r profiad dysgu. Hefyd, mae gan hyn y potensial i sicrhau bod cyfleoedd i ddysgu am fyd gwaith ac i ddatblygu gwybodaeth dysgwyr yn cael eu cyflwyno'n fwy cyson ar draws pob ysgol yng Nghymru.  Nododd sawl un hefyd bwysigrwydd mentergarwch yng Nghymru ynghyd ag ymwybyddiaeth gynyddol o'i werth ymysg cyflogwyr.

> ''*Mae angen canolbwyntio mwy ar entrepreneuriaeth, a allai helpu dysgwyr i greu eu swyddi eu hunain, i fod yn arloesol, i fynegi eu syniadau. Bydd y ffocws ar fentergarwch o fewn y cwricwlwm newydd ac yn enwedig o ran Bagloriaeth Cymru yn helpu gyda hyn, ynghyd â mentrau fel modelau rôl a all ddarparu enghreifftiau o fywyd go iawn i fyfyrwyr. Yr allwedd i bobl ifanc yw hyder ac ymwybyddiaeth o gyfleoedd, yn lleol ac yn ehangach.'* **Rhanddeiliad**

Bydd cyflawni hyn yn dibynnu ar allu ysgolion i gydlynu gweithgaredd ar lefel ysgol gyfan ac, yn hanfodol, sicrhau bod athrawon, llywodraethwyr, partneriaid allanol a chymuned ehangach yr ysgol yn gallu gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a darparu rhaglen weithgaredd sy'n ymateb i'w hanghenion. Felly mae cefnogi sgolion i fabwysiadu'r dull hwn yn gofyn am arweiniad clir gan Lywodraeth Cymru a chefnogaeth gan bartneriaid fel Gyrfa Cymru yn unol â strwythurau'r dull cyd-adeiladu o ddarparu CWRE a adroddir yn y llenyddiaeth.

> *'Ni all cynllunio gweithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr mewn ysgolion fod yn gyfrifoldeb i un athro, mae angen cydweithredu rhwng llywodraethwyr, mentoriaid ac anogwyr hefyd. Rhaid iddo fod yn rhan o ddull sy'n edrych ar ddylanwad hirdymor ac ymgorffori. Bydd y cwricwlwm newydd yn allweddol ar gyfer hyn ac ar gyfer datblygu ysbryd creadigol entrepreneuraidd ymhlith pobl ifanc.'* **Rhanddeiliaid**

Pwysleisiodd y rhanddeiliaid a'r ymarferwyr a ymatebodd i'r arolwg ysgolion (gweler Adran 4) bwysigrwydd cyfleoedd dysgu proffesiynol i sicrhau bod athrawon yn gallu cefnogi cynlluniau CWRE. Amlinellwyd yr angen i gefnogi hyfforddiant pwrpasol ar gyfer arweinwyr gyrfaoedd a chyfleoedd DPP rheolaidd ar gyfer athrawon ysgolion cynradd ac uwchradd. Dywedodd un rhanddeiliad '*mae angen arweinwyr gyrfaoedd i gefnogi cyflwyno cynlluniau gwaith newydd ond bydd angen cymwysterau lefel 6 arnynt er mwyn gwneud hyn yn effeithiol '*.

Mae Gyrfa Cymru wedi darparu hyfforddiant lefel 6 i dair carfan o athrawon ysgolion uwchradd fel rhan o gynnig dysgu proffesiynol ehangach ond maent yn cydnabod y bydd yr ystod oedran 3-16 ar gyfer CWRE o fewn y cwricwlwm newydd yn gofyn am ymestyn y gefnogaeth i ysgolion. Er y bydd rhai adnoddau ar gael drwy Hwb, awgrymodd y

rhanddeiliaid, heb y buddsoddiad hwn, y gallai bylchau mewn gwybodaeth a chymwysterau mewn llawer o ysgolion effeithio ar ymdrechion i wella ansawdd gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr.

Cydnabu’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhaliwyd i gefnogi Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 y bydd costau ariannol i ysgolion o ganlyniad i anghenion dysgu proffesiynol mewn perthynas ag ymgyfarwyddo, dylunio a chynllunio’r cwricwlwm i sicrhau bod gan ymarferwyr y sgiliau a'r wybodaeth i gyflwyno elfennau trawsgwricwlaidd o'r cwricwlwm newydd, gan gynnwys CWRE. Nid yw'r union gostau hyn yn hysbys, ond mae'r Consortia wedi darparu 'syniad bras' yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r amser dysgu proffesiynol gofynnol yn ystod y cyfnod trosglwlyddo wrth i'r cwricwlwm newydd gael ei weithredu.[3]

### 3.5.4 Gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr digidol a rhithwir

Mae darpariaeth ddigidol wedi cyflymu mewn ymateb i'r cyfyngiadau yn ystod y pandemig Covid-19 a'r angen i ddarparwyr addasu i ffyrdd amgen o feithrin cysylltiadau ag ysgolion. Mae darparwyr wedi dangos ystwythder a hyblygrwydd o ran cynyddu'r ystod o gyfleoedd digidol. I randdeiliaid mae cynnig digidol mwy cynhwysfawr yn allweddol i ddatblygu darpariaeth MMCCh yn y dyfodol a datgelodd trafodaethau gyda darparwyr amrywiaeth o ffyrdd y mae darpariaeth wedi cael ei datblygu i gefnogi dysgwyr ac ymarferwyr. Mae enghreifftiau o weithgareddau a ddarperir yn rhithwir yn cynnwys:

- Sgyrsiau gyda diwydiant: cyfweliadau a chyflwyniadau gyda chynrychiolwyr cyflogwyr sy'n cael eu ffrydio'n fyw i ysgolion.  Mae ysgolion hefyd yn cael cyfle i wylio'r rhain eto ac i ofyn cwestiynau cyn y sgyrsiau.
- Profiad gwaith rhithwir: e.e. mae un awdurdod lleol wedi cynhyrchu cyfres o fideos sy'n arddangos gwaith chwe rôl a gyrfa wahanol o fewn y cyngor.
- Adnoddau dysgu o bell a gynhyrchwyd gan Gyrfa Cymru, gan gynnwys gweminarau sy'n rhoi cipolwg ar yrfaoedd mewn gwahanol sectorau. Mae hyn yn rhan o gynnig digidol ehangach sy'n cael ei ddatblygu gan y sefydliad, y mae elfennau ohono'n cael eu profi gyda defnyddwyr am ei effeithiolrwydd ai berthnasedd;
- Ffair gyrfaoedd rithwir.

Mae'r rhain yn aml yn darparu mwy o hyblygrwydd, ac yn cyflwyno cyfleoedd i gyrraedd niferoedd mwy o ysgolion, gan gynnig modelau darpariaeth effeithlon.

Tynnodd rhai darparwyr sylw hefyd at y rôl allweddol y bydd meithrin cysylltiadau'n uniongyrchol â chyflogwyr mewn ysgolion a gweithleoedd yn parhau i'w chwarae ac y bydd dull cyfunol yn cynnig yr hyblygrwydd a'r gallu i addasu y bydd eu hangen yn y dyfodol.

> *'Does dim i guro'r ystafell ddosbarth o ran meithrin cysylltiadau â chyflogwyr... mae cysylltiadau wyneb yn wyneb â chyflogwyr ac entrepreneuriaid yn fuddiol iawn ond gall rôl [gweithgareddau] digidol fod yn ddylanwadol hefyd.'* **Rhanddeiliad**

[3] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-04/deddf%20-cwricwlwm-ac-asesu-memorandwm-esboniadol.pdf (gweler tud.118-119).

Datgelodd tystiolaeth o'r arolwg o ysgolion eu bod hefyd wedi addasu i gynnig darpariaeth fwy rhithwir a digidol. Nododd yr ysgolion, wrth edrych i'r dyfodol, fod gweithgaredd digidol yn debygol o barhau i fod yn agwedd allweddol ar eu cynlluniau. Cyfeiriodd yr ysgolion at ystod o weithgareddau digidol a ddefnyddir, gan gynnwys adnoddau a gynhyrchir gan Gyrfa Cymru, ymweliadau rhithwir â'r gweithle, ffug gyfweliadau drwy lwyfannau ar-lein, fideos cyflogwyr wedi'u recordio ymlaen llaw a threfnu i gyflogwyr ddarparu adborth ysgrifenedig ar CVs.

Mynegodd rhai ysgolion bryder ynghylch effaith bosibl cau ysgolion ar gyrchfannau a llwybrau'r dysgwyr sydd fwyaf agored i niwed ym Mlwyddyn 11. Adroddodd ysgolion eu bod yn cyflwyno sesiynau un-i-un ar-lein (drwy gynghorwyr gyrfa) gan dargedu grwpiau o ddysgwyr sydd mewn perygl er mwyn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r gefnogaeth sydd ar gael a'r llwybrau sy'n agored iddynt.

### 3.5.5 Darpariaeth yn y dyfodol

Er mwyn darparu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig a theg yn y dyfodol, roedd y rhanddeiliaid o'r farn bod potensial i adeiladu ar gryfderau'r ddarpariaeth gyfredol gan symleiddio strwythurau a darpariaeth sefydliadol fel rhan o strategaeth genedlaethol fwy cydgysylltiedig.

Roedd rhanddeiliaid yn gytûn o ran eu hawydd i weld cysylltiadau dyfnach o ansawdd gwell yn cael eu meithrin rhwng cyflogwyr ac ysgolion, gan nodi'r cyfleoedd a ddarperir drwy'r gofyniad i ysgolion gynllunio CWRE fel elfen drawsbynciol o'r cwricwlwm newydd. Awgrymwyd bod gan hyn y potensial i godi proffil MMCCh. Nododd y rhanddeiliaid hefyd fod y pandemig wedi dangos bod partneriaid a darparwyr yn gallu gweithio'n hyblyg wrth ddarparu gweithgareddau'n ddigidol.

Mae'r pwyslais yng nghanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru ar sicrhau bod ysgolion yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu am yrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith drwy bob MDaPh yn tanlinellu'r angen i gydlynu gweithgaredd yn effeithiol. Lle mae angen i ysgolion gael gafael ar gymorth gan bartneriaid allanol, awgrymwyd y dylid sefydlu model symlach o ddarpariaeth a broceriaeth. Gan adeiladu ar swyddogaethau a mentrau presennol a ddarperir gan Gyrfa Cymru, gallai hyn gynnwys sicrhau bod broceriaeth gydgysylltiedig yn digwydd yn lleol neu'n rhanbarthol er mwyn galluogi ysgolion i gael gafael ar gymorth gan gyflogwr a phartneriaid ar amrywiaeth o feysydd:

- dealltwriaeth o dueddiadau'r farchnad lafur leol, genedlaethol a rhyngwladol;
- gweithgareddau sy'n tynnu sylw at gysylltiadau rhwng nodau trosfwaol y cwricwlwm a'r byd gwaith: sut mae'r pedwar diben a'r sgiliau sy'n sail iddynt yn ganolog i baratoi dysgwyr ar gyfer gyrfaoedd a byd gwaith;
- cyfleoedd i elwa ar gysylltiadau â busnesau a/neu gyflogwyr.

### 3.5.6 Astudiaethau achos

Isod mae pum astudiaeth achos lle mae gwerthusiadau wedi'u cynnal ac ar gael i'r cyhoedd. Mae'r rhain yn dangos enghreifftiau o'r mathau o weithgareddau sy'n digwydd ledled Cymru a'r grwpiau targed dan sylw. Mae'r rhan fwyaf o brosiectau yn cynnig ystod o

ddulliau o ddarparu MMCCh, ac mae hyblygrwydd y ddarpariaeth yn nodwedd gyffredin. Ymhlith y deilliannau cadarnhaol a nodwyd mae cynnydd yn hyder, dyheadau a gwybodaeth pobl ifanc o'r byd a gwaith a'u cymhelliant i symud ymlaen. Nododd sawl prosiect hefyd gynnydd y dysgwyr o ran eu cyrhaeddiad academaidd a'u sgiliau meddal, megis gweithio fel rhan o dîm a chyfathrebu.

Ymhlith y ffactorau llwyddiant allweddol a nodwyd mewn gwerthusiadau o weithgareddau MMCCh mae pwysigrwydd sicrhau bod y gweithgareddau'n cyd-fynd â'r cwricwlwm er mwyn gwella a chynnal y dysgu a'r angen am adnoddau o ansawdd da i ennyn diddordeb y dysgwyr a chefnogi ymarferwyr. Cyfeiriwyd hefyd at ymrwymiad staff addysgu a mentoriaid ynghyd â chefnogaeth uwch reolwyr i gyflawni'r prosiectau mewn sawl gwerthusiad. Er y cofnodwyd peth tystiolaeth o effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad dysgwyr, mae dangos effeithiau uniongyrchol ymyriadau yn her.

**Prosiect Llythrennedd yn y Cyfryngau** yng Nghymru, 2014-15 (peilot 12 mis) a gynhaliwyd gan Into Film.

**Nodau'r prosiect:** Datblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu yng Nghyfnod Allweddol 2 gan ddefnyddio ffilm i ennyn diddordeb, addysgu ac ysbrydoli dysgwyr.


**Y cymorth a ddarparwyd gan y prosiect:** Tair *sesiwn hyfforddi* broffesiynol ffurfiol i athrawon; ystod eang o *adnoddau* sy'n gysylltiedig â ffilm a *chefnogaeth un i un*.

**Gweithgareddau'r prosiect:** Fe wnaeth yr athrawon ddefnyddio ffilm i ysgogi trafodaeth, cefnogi dysgwyr i wneud eu ffilmiau eu hunain a datblygu neu gynllunio i ddatblygu arweinwyr digidol.

**Cwmpas y peilot:** Chwe ysgol (gan gynnwys un ysgol arbennig); un yn y gogledd, dwy yn y gorllewin a thair yn y de. Roedd maint y dosbarthiadau'n amrywio o 17-27.

**Gwerthusiad**: Defnyddiodd y gwerthusiad annibynnol ddata dysgwyr, arsylwadau o weithgareddau, a chyfweliadau â dysgwyr, athrawon ac uwch arweinwyr ysgolion. Dywedodd yr athrawon fod ffilm yn werthfawr o ran ennyn diddordeb dysgwyr a chaniatáu i bawb gymryd rhan ar sail gyfartal. Gwelwyd *gwelliant mewn cyflawniad* dysgwyr llai galluog wrth i'w hyder ddatblygu. Roedd ysgolion yn gallu priodoli cynnydd rhai dysgwr mewn sgiliau ysgrifennu, darllen a llafar i ddefnyddio ffilm [*cynyddodd sgoriau darllen* fwy na dwy lefel yn y Gymraeg a'r Saesneg]. Adroddwyd gwelliannau yn *sgiliau gwaith grŵp* ac *ymgysylltiad* y dysgwyr hefyd.

**Ffactorau llwyddiant**: *Dywedwyd bod cyfatebiaeth glos â'r cwricwlwm* yn allweddol i lwyddiant y prosiect. Awgrymwyd argaeledd *adnoddau* ffisegol, gan gynnwys cynlluniau gwersi, fel gwelliant gan athrawon. Roedd ymrwymiad a blaenoriaethau uwch reolwyr ac argaeledd technoleg briodol yn yr ysgol, ynghyd ag ymrwymiad ac angerdd yr athrawon, hefyd yn bwysig. (Trilein, 2016)




### Rhaglen Menter yr Ifanc Cymru

**Nodau'r prosiect:** Cystadleuaeth flynyddol i gynorthwyo dysgwyr 16-19 oed i feithrin sgiliau entrepreneuraidd drwy redeg busnes.

**Y cymorth a ddarparwyd gan y prosiect:** Mae cefnogwyr busnes, cynghorwyr ac athrawon yn cefnogi ac yn ysgogi timau.

**Gweithgareddau'r prosiect:** Gweithgareddau dechrau a datblygu busnes.

**Gwerthusiad**: Holiaduron a chyfweliadau gyda 44 o enillwyr rowndiau terfynol rhanbarthol. Dywedodd mwy na hanner y cyfranogwyr fod Menter yr Ifanc Cymru wedi cael *dylanwad cadarnhaol ar eu dewis gyrfa* ac roedd yr un nifer eisiau *parhau ag addysg fenter* yn y Brifysgol. Roedd 82% yn cytuno bod eu hunanhyder i lwyddo wedi gwella, a 97% yn nodi gwelliant mewn sgiliau gwaith tîm.

**Ffactorau llwyddiant**: *Roedd mentoriaid a chynghorwyr cefnogol* yn fuddiol iawn, ynghyd â chymryd rhan yn y *gystadleuaeth*, a roddodd gyfle i arddangos y busnesau a ddatblygwyd a *meincnodi* cyflawniadau yn erbyn cyfranogwyr eraill. (Jones a Colwill, 2013)

### Peilot Meincnodi Gatsby CBS Rhondda Cynon Taf

**Nodau'r prosiect:** Gweithiodd ysgolion tuag at gyrraedd targedau penodol yn ymwneud â phob un o wyth meincnod Gatsby, dan oruchwyliaeth rheolwr prosiect a'u monitro gan ddefnyddio archwiliad blynyddol.

**Y cymorth a ddarparwyd gan y prosiect:** *Rheolwr rhaglen* i helpu ysgolion i ddeall y meincnodau a mapio eu darpariaeth yn erbyn y meincnodau, cymedroli asesiadau ysgol er cysondeb a helpu gyda datblygu cynlluniau gweithredu i alluogi hunanasesiad parhaus o gynnydd. *£2,000* i ryddhau unigolion i gynllunio a gweithredu gweithgareddau, a thalu cost digwyddiadau, teithiau a threfniadau allanol.

**Gweithgareddau'r prosiect:** Ysgolion yn cynnal gweithgareddau i'w galluogi i wneud cynnydd tuag at gyflawni'r wyth meincnod Gatsby (Gatsby, 2020).

**Gwerthusiad**: Hyd yma, cwblhawyd gwerthusiad dros dro, a oedd yn ystyried cyrchfannau disgyblion, effaith ar gyrhaeddiad, parodrwydd ar gyfer gyrfa, galluogwyr a rhwystrau ac effaith ehangach ar y gymuned a busnesau. Roedd ffynonellau data yn cynnwys 21 o gyfweliadau â phersonél allweddol, data monitro, a 90 o ymatebion i arolwg ar-lein. Mae'r canfyddiadau allweddol yn cynnwys y ffaith mai dim ond yn rhannol y gweithredwyd y meincnodau, *mae'n anoddach cyflawni rhai meincnodau* nag eraill, darparodd yr archwiliad *'fap'* i nodi bylchau yn y ddarpariaeth, roedd y gronfa sbarduno £2,000 yn allweddol i ddarparu adnoddau ar gyfer y gweithgaredd, gwerthfawrogwyd y cymorth gan *reolwr y rhaglen*, credwyd bod *dangos tystiolaeth o'r effaith ar ddysgwyr* yn heriol, roedd cymryd rhan yn y peilot wedi helpu ysgolion i ddwysáu eu gweithgaredd meithrin cysylltiadau allanol, rhoddodd y meincnodau syniad i ysgolion o 'beth yw da', sy'n cynyddu hyder staff. Her allweddol oedd sicrhau *cysondeb* ac osgoi defnyddio *dull symbolaidd* i 'roi tic yn y bocs'.

**Ffactorau llwyddiant**: Roedd *rheolwr y rhaglen a'r rheolwr gyrfaoedd mewn ysgolion* yn allweddol i weithredu'r peilot yn effeithiol; *cyllid sbarduno*, y *strwythur* a gynigiwyd gan y meincnodau i gefnogi cyflwyno'r ddarpariaeth Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith; roedd Fframwaith Gatsby yn darparu *atebolrwydd clir.*

(Powel et al., 2020)

**WorkFit Cymru**

**Nodau'r prosiect:** Rhaglen gyflogaeth y Gymdeithas Syndrom Down yw WorkFit Cymru, a ariannwyd i ddechrau o 2014-17 gan y Gronfa Loteri Fawr. Mae'r prosiect yn dwyn ynghyd unigolion 14-25 oed sydd â syndrom Down a chyflogwyr o bob rhan o Gymru.

**Y cymorth a ddarparwyd gan y prosiect:** Mae'n wasanaeth wedi'i deilwra sy'n ymroddedig i hyfforddi cyflogwyr am broffil dysgu pobl â Syndrom Down fel y gellir eu cefnogi yn y gweithle. Mae'n cefnogi'r cyfranogwyr ifanc i ddatblygu eu sgiliau ac yn eu hannog o ran eu dyheadau i lwyddo.

**Gweithgareddau'r prosiect:** Mae'r opsiynau'n cynnwys gwaith â thâl a gwaith gwirfoddol, prentisiaethau â chymorth, a gweithio gydag ysgolion arbennig i gynnig cyfleoedd profiad gwaith a chyfleoedd dilyniant i bobl ifanc.

**Gwerthusiad**: Cyhoeddodd y Gymdeithas grynodeb byr o werthusiad allanol y rhaglen, sy'n amlinellu manteision i'r cyfranogwyr o ran dyheadau, hyder ac ehangu eu cysylltiadau cymdeithasol a phroffesiynol. Adroddwyd hefyd bod gan weithwyr fwy o ymwybyddiaeth o syndrom Down a'u bod yn teimlo'n fwy hyderus i gefnogi unigolyn â syndrom Down yn y gwaith.

**Ffactorau llwyddiant**: Mae'r prosiect yn darparu pont rhwng cyflogwyr ac ysgolion arbennig ac yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc anabl ystyried amrywiaeth o yrfaoedd sy'n cyfateb i'w dyheadau a'u diddordebau.

**Cynnydd: Prosiect ESF a ddarparwyd yng ngogledd Cymru**

**Nodau'r prosiect:** Prosiect dan arweiniad awdurdod lleol sydd wedi'i anelu at bobl ifanc sydd mewn perygl o ddod yn NEET yw Cynnydd. Mae prosiectau tebyg hefyd yn digwydd yng ngogledd Cymru (TRAC) a Dwyrain Cymru a Gorllewin Cymru a'r Cymoedd (Ysbrydoli i Weithio).

**Y cymorth a ddarparwyd gan y prosiect:** Mae Cynghorwyr Gyrfa yn cyflwyno sesiynau grŵp a chefnogaeth un-i-un ar osod nodau, gall pobl ifanc hefyd gael mynediad at ystod o weithgareddau meithrin cysylltiadau â chyflogwyr fel cyflwyniadau ac ymweliadau â safleoedd, a gall pobl ifanc hefyd gymryd rhan mewn lleoliadau profiad gwaith wedi'u teilwra.

**Gwerthusiad:** Rhoddwyd cynlluniau monitro a gwerthuso ar waith, gan gynnwys offer i'r cyfranogwyr fesur eu cynnydd, ond nid yw gwerthusiadau llawn o'r prosiectau hyn yn wybodaeth gyhoeddus ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd y broses o ddylunio a chynllunio prosiect Cynnydd wedi elwa o gwblhau prosiect Gwarant Ieuenctid Sir Benfro, a ariannwyd drwy'r Comisiwn Ewropeaidd. Nod y peilot hwn oedd cynorthwyo pobl ifanc i gael gwaith, addysg neu hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar waith o fewn pedwar mis ar ôl gadael yr ysgol/Addysg Bellach (AB) neu ddod yn ddi-waith drwy fentora, gweithgareddau i ddeall byd gwaith yn well yng nghyd-destun y farchnad lafur leol, sgiliau cyflogadwyedd, digwyddiadau cyflogwyr, ymweliadau a chyflwyniadau a chefnogaeth gyda chynllunio a dilyniant gyrfa.

**Ffactorau llwyddiant:** Un o lwyddiannau allweddol y peilot oedd cynnig amrywiaeth o weithgareddau cymorth a meithrin cysylltiadau i ddysgwyr, a gyflwynwyd yn hyblyg i weddu i'w hanghenion dysgu a'u bywydau.

**Canfyddiadau allweddol o'r gwaith ymchwil**

- Mae ystod eang ac amrywiol o fentrau a rhaglenni mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yn cael eu darparu ledled Cymru, wedi'u harwain gan sefydliadau'r sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat, sy'n amrywio'n sylweddol o ran maint, cynnwys, grwpiau targed a strwythur.

- Cwestiynodd y rhanddeiliaid a yw'r ffordd y mae gweithgareddau'n cael eu cynnal a'r ffordd y mae adnoddau'n cael eu dosbarthu yn deg a pha mor dda y mae peth o'r gweithgaredd hwn wedi'i gydlynu. Awgrymwyd bod rhai elfennau o ddarpariaeth MMCCh yn gorgyffwrdd neu'n cael eu dyblygu;

- Ar hyn o bryd, mae diffyg tystiolaeth gadarn ynghylch effaith y mathau hyn o weithgareddau ar gyflawniadau dysgwyr, cyrchfannau ac ansawdd a pherthnasedd y gweithgareddau. Awgrymwyd y gallai olrhain cyflawniadau a chyrchfannau dysgwyr yn y tymor hwy fynd i'r afael â hyn yn y dyfodol;

- Mae hefyd angen datblygu gwell dealltwriaeth ar lefel ysgol o ymyriadau effeithiol a gwelliannau posibl i CWRE. Bydd cynhyrchu pecyn cymorth hunanasesu yn galluogi ysgolion cynradd ac uwchradd i asesu'r ddarpariaeth gyfredol a datblygu

cynllun gwella ar gyfer CWRE. Dros amser bydd hyn yn gwella gwybodaeth ymhlith athrawon, gan gyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ehangach.

- Mae'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn cynnig cyfleoedd i ymgorffori MMCCh fel rhan o gyflawni'r cwricwlwm ac iddo fod yn rhan fwy gweladwy ac annatod o'r profiad dysgu;

- Bydd cyflawni hyn yn dibynnu ar allu ysgolion i gydlynu gweithgaredd ar lefel ysgol gyfan a sicrhau bod athrawon, llywodraethwyr, partneriaid allanol a chymuned ehangach yr ysgol yn gallu gweithio gyda'i gilydd i gynllunio a darparu MMCCh.

- Bydd angen cyfleoedd dysgu proffesiynol i gynorthwyo athrawon i gyflwyno elfen CWRE o'r cwricwlwm newydd ar draws ysgolion cynradd ac uwchradd;

- Mae darpariaeth ddigidol wedi cyflymu mewn ymateb i'r cyfyngiadau drwy'r pandemig Covid-19 a'r angen i ddarparwyr addasu i ffyrdd amgen o feithrin cysylltiadau ag ysgolion ac ystyrir bod hyn yn rhan annatod o ddarpariaeth yn y dyfodol;

- Ymysg y deilliannau cadarnhaol a nodwyd o 'rastudiaethau achos mae cynnydd mewn hyder, sgiliau meddal, dyheadau, cyrhaeddiad a gwybodaeth dysgwyr am y byd a gwaith a'u cymhelliant i wneud cynnydd

- Mae rhanddeiliaid yn cefnogi dull gweithredu mwy cydgysylltiedig a theg yn y dyfodol, gan adeiladu ar gryfderau'r ddarpariaeth gyfredol a symleiddio strwythurau a darpariaeth sefydliadol.

# 4. Dadansoddiad o ddata'r arolwg o ysgolion

## 4.1 Cyflwyniad

Fel rhan o'r astudiaeth, lluniwyd holiadur electronig a'i ddosbarthu i bob ysgol gynradd, ysgol uwchradd ac ysgol arbennig yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr arolwg drwy gylchlythyr Dysgu Cymru Llywodraeth Cymru a thrwy gyswllt uniongyrchol â phob pennaeth yng Nghymru. Mae copi o'r arolwg yn Atodiad B.


Er bod pob ysgol wedi ei hysbysu am yr arolwg, roedd llenwi'r holiadur yn ddewisol. Cynhaliwyd yr arolwg hefyd ar gyfnod o ansicr a phan oedd pwysau ychwanegol ar y system addysg oherwydd effeithiau'r pandemig parhaus. Dechreuodd 161 o unigolion lenwi'r holiadur, a darparodd 90 ymatebion digon cyflawn i'w cynnwys yn y dadansoddiad. O blith y 90 o ymatebion a gwblhawyd, cafwyd 57 gan ysgolion uwchradd, 4 gan ysgolion canol, 24 gan ysgolion cynradd a 5 gan ysgolion arbennig.

Mae nifer yr ymatebion yn golygu y dylid ystyried y canfyddiadau fel rhai enghreifftiol yn hytrach na chynrychioliadol o'r holl ysgolion. Yn ogystal, ni wnaeth pob ymatebydd ateb pob cwestiwn, ac adlewyrchir hyn yn y setiau data a gyflwynir yn yr adran hon.

## 4.2 Cynllunio gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr (MMCCh) mewn ysgolion uwchradd

Nododd 40 o blith y 59 o ysgolion uwchradd ac ysgolion canol (68 y cant) a atebodd y cwestiwn hwn fod ganddynt bolisi, cynllun neu strategaeth ysgrifenedig ar gyfer addysg gyrfaoedd, a nododd yr 19 arall (32%) nad oedd ganddynt ddogfen o'r fath. Nododd nifer debyg o ysgolion (42 o blith 58 (72%)) fod ganddynt berson penodedig sy'n gyfrifol am fentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwr.

Ffigur 4.1: P'un a oes gan ysgolion uwchradd bolisi, cynllun neu strategaeth ar gyfer gweithgaredd MMCCh, neu berson penodedig yn gyfrifol am hynny




Ffynhonnell: Arolwg o ysgolion, n=59 ac n=58

Tynnodd mwyafrif yr ymatebwyr sylw hefyd at yr ystod o rolau a chyfrifoldebau sydd gan yr unigolion dynodedig hyn. I lawer o'r ysgolion hyn mae'r unigolion hyn yn arwain yr holl weithgareddau MMCCh a gweithgareddau ehangach sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd gan gynnwys, datblygu a chynnal cysylltiadau â sefydliadau allweddol (megis Gyrfa Cymru a'r Gyfnewidfa Addysg Busnes, a Syniadau Mawr Cymru), gan arwain ar ffug gyfweliadau, cysylltu â chyflogwyr a rhannu arferion da ar draws yr ysgol.

Roedd gan nifer o'r unigolion hyn rolau uwch arweinwyr, er enghraifft pennaeth cynorthwyol yn goruchwylio addysg Byd Gwaith ar draws pob cam allweddol a phennaeth cynorthwyol yn gweithio mewn partneriaeth â chydlynydd gyrfaoedd a chynrychiolwyr lleol Gyrfa Cymru. Mae eraill yn gweithredu fel penaethiaid gyrfaoedd neu gydlynwyr gyrfaoedd.


Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno (27 o blith 56 - 48%) neu'n cytuno'n gryf (7 o blith 56 - 13%) bod gweithgareddau MMCCh yn cael eu cynllunio i adlewyrchu gofynion y cwricwlwm. Roedd niferoedd ychydig yn uwch hefyd yn cytuno (31 o blith 55 - 56%) neu'n cytuno'n gryf (11 o blith 55 - 20%) bod gweithgareddau MMCCh yn cael eu teilwra at anghenion dysgwyr unigol a grwpiau blwyddyn. Mewn rhai achosion, nododd yr ysgolion fod holiadur Gwirio Gyrfa gan Gyrfa Cymru yn cael ei ddefnyddio i gefnogi a llywio gwaith cynllunio'r ysgol ar gyfer gweithgareddau CWRE. Mae data o'r arolwg yn awgrymu bod mwyafrif yr ysgolion uwchradd wedi ymgorffori gweithgareddau MMCCh o fewn strwythurau ysgolion ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm ac maent hefyd yn cynnig profiadau wedi'u personoli i ddysgwyr, a amlygwyd fel nodwedd allweddol o gyflawni gweithgaredd yn llwyddiannus yn yr adolygiad llenyddiaeth.

Roedd lleiafrif bach yn anghytuno (6 o blith 56 - 11%) neu'n anghytuno'n gryf (1 - 2%) ynghylch y datganiad bod gweithgaredd MMCCh yn cael ei gynllunio i adlewyrchu gofynion y cwricwlwm, fodd bynnag, gan awgrymu bod gweithgareddau MMCCh yn fwy ad hoc o hyd mewn rhai ysgolion.

*'Rydym yn cynnal archwiliad o ddiddordebau gyrfa'r myfyrwyr ac yn ceisio teilwra ein gwaith meithrin cysylltiadau â chyflogwyr i fynd i'r afael â'u hanghenion. Rydym yn awyddus i roi cynnig ar amrywiaeth o ddulliau meithrin cysylltiadau â chyflogwyr bob blwyddyn. Mae Bagloriaeth Cymru a Gyrfa Cymru yn rhan annatod o'n system.'*
**Ymatebydd i'r arolwg (ysgol uwchradd)**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno (34 o blith 56 - 61%) neu'n cytuno'n gryf (3 o blith 56 - 5%) eu bod yn tueddu i gynnal yr un gweithgareddau, gan ddefnyddio'r un darparwyr, o flwyddyn i flwyddyn. Mae hyn yn dangos bod gan y mwyafrif o ysgolion gynnig cyson a strwythurau partneriaeth ar waith gyda chyflogwyr ac asiantaethau cefnogol fel Gyrfa Cymru, gydag un ymatebydd yn nodi, '*mae yna weithgareddau craidd sy'n cael eu hailadrodd bob blwyddyn'* tra bod un arall wedi dweud '*rydym yn ehangu ein gwaith meithrin cysylltiadau â chyflogwyr*.'

Ffigur 4.2: Barn yr ymatebwyr ar gynllunio a theilwra gweithgareddau MMCCh




Ffynhonnell: Arolwg o ysgolion

## 4.3 Mathau o weithgareddau mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr (MMCCh) mewn ysgolion

Y gweithgareddau MMCCh a ddarperir amlaf gan ysgolion uwchradd a ymatebodd i'r arolwg yw gweithgareddau sy'n datblygu sgiliau mentergarwch dysgwyr a'u gwybodaeth am fusnes yn CA4 (29 o blith 51 o ymatebion - 57%); mynychu ffeiriau gyrfaoedd ar gyfer myfyrwyr CA4 (27 o blith 51 o ymatebion - 53%), cyflwyniadau gan gyflogwyr lleol i fyfyrwyr CA4 (26 o blith 51 - 51%) a ffug gyfweliadau ar gyfer myfyrwyr CA4 (22 o blith 51 o ymatebion - 43%). Mae profiadau yn y gweithle ar gyfer myfyrwyr CA4 yn cael eu darparu gan ychydig yn llai na hanner yr ysgolion a ymatebodd (21 o blith 51 o ymatebion - 41%) ac

mae gweithgareddau eraill sy'n digwydd yn CA4 yn cynnwys gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar STEM (13 o blith 51 - 25%) a gweithgareddau digidol (14 o blith 51 o ymatebion - 27%).

Mae'r ffigurau hyn yn dangos bod mwyafrif y cyngor gyrfaoedd a gweithgareddau MMCCh yn digwydd ar lefel CA4, sef myfyrwyr blynyddoedd 10 ac 11, gan ganolbwyntio ar fyfyrwyr a fydd yn gwneud dewisiadau o ran dysgu pellach, dysgu neu lwybrau hyfforddi mwy arbenigol neu o bosibl y rhai fydd yn gadael yr ysgol ac anelu at ddod o hyd i waith. Er bod y prif ffocws ar fyfyrwyr CA4 ar hyn o bryd mae canfyddiadau'r arolwg yn dangos bod rhai ysgolion uwchradd yn datblygu continwwm darpariaeth o CA3 ymlaen a thrwodd i'r chweched dosbarth.

Mae'n werth nodi bod 20 o blith 51 o ysgolion (39%) yn cynnal gweithgareddau STEM ar lefel CA3, gan ddangos y ffocws o'r newydd ar ddatblygu cysylltiadau a dilyniant dysgwyr yn y pynciau hyn drwy fentrau fel Technocamps a STEM Cymru. Mae rhai ysgolion (9 o blith 51 - 18%) yn trefnu cyflwyniadau gan gyflogwyr lleol yn CA3, gan nodi bod rhai gweithgareddau MMCCh wedi'u targedu at ddysgwyr iau a'u dyheadau yn hytrach na'r myfyrwyr hynny sy'n gwneud dewisiadau allweddol yn unig. Mae canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth yn awgrymu bod dechrau'n gynnar yn nodwedd allweddol o ddarpariaeth MMCCh lwyddiannus ac mae'r canfyddiadau hyn ynghyd â'r rhai o'r ysgolion cynradd a amlinellir yng nghwestiynau 7 ac 8 yn dangos bod ffocws cynyddol ar ddatblygu'r math hwn o ddarpariaeth.


Roedd ysgolion a adroddodd ar weithgareddau a ddarparwyd yn y chweched dosbarth yn cyfeirio amlaf at ffug gyfweliadau, gweithgareddau digidol, sgyrsiau gan gyflogwyr a chyfleoedd i fynychu ffeiriau gyrfaoedd. Mae hyn yn awgrymu, er bod continwwm o ran y ddarpariaeth, nad yw'n gyffredin ar draws mwyafrif yr ysgolion a bod dwyster a graddfa gweithgareddau MMCCh yn y mwyafrif o ysgolion yn lleihau ar ôl CA4.

Nododd ysgolion uwchradd hefyd y mathau o weithgareddau yr hoffent eu darparu. Y gweithgareddau mwyaf cyffredin yr oedd ysgolion yn dymuno eu darparu oedd profiadau yn y gweithle, a nodwyd gan 14 o blith 51 o ysgolion (27%), a dysgu digidol (11 o blith 51 - 22%). Hoffai nifer llai o ysgolion i gyflogwyr fynychu digwyddiadau mewn ysgolion a datblygu ffug gyfweliadau. Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos, er bod rhai ysgolion yn darparu gweithgareddau MMCCh cynhwysfawr, mae eraill yn wynebu rhwystrau wrth ddarparu ystod o gyfleoedd i feithrin cysylltiadau â chyflogwyr. Mae sylwadau ysgrifenedig yn nodi bod adnoddau yn rhwystr, ynghyd â chapasiti cyfyngedig i ddatblygu darpariaeth ddigidol. Amlinellir sylwebaeth bellach ar rwystrau posibl a allai gyfrif am y bylchau hyn yn y ddarpariaeth yn adran 4.7.

Hefyd, darparodd yr ymatebwyr sylwadau ansoddol ychwanegol i gefnogi eu hatebion. Nododd sawl un ei fod yn targedu grwpiau penodol o ddysgwyr drwy'r gweithgareddau a amlinellir uchod. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r dysgwyr hynny sydd mewn perygl o fod yn NEET a chodi dyheadau dysgwyr benywaidd i astudio pynciau STEM. Nododd sawl ysgol hefyd eu bod wrthi'n datblygu rhai agweddau ar eu darpariaeth e.e. darpariaeth ddigidol ac ymweliadau gan gyflogwyr ar draws cyfnodau allweddol, a fydd yn cyfrannu at fynd i'r afael â rhai o'r bylchau a amlygwyd uchod ac sydd â'r potensial i ymgorffori MMCCh yn y cwricwlwm ac o fewn ethos ehangach yr ysgol.

*'Rydym hefyd yn ymwneud â'r rhaglen Ysbrydoli i Gyflawni eto eleni ar gyfer ein darpar ddisgyblion NEET. Roedd y llynedd yn llwyddiant mawr gydag ymweliadau coleg wedi'u trefnu ynghyd â phrofiad gwaith, a oedd yn fuddiol iawn i'r disgyblion.'*
**Ymatebydd i'r arolwg (ysgol uwchradd)**

Ffigur 4.3: Gweithgareddau MMCCh a ddarperir ar wahanol gyfnodau allweddol gan ysgolion uwchradd





Ffynhonnell: Arolwg o ysgolion

## 4.4 Cynllunio gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr (MMCCh) mewn ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig

Mae gan 10 (34%) o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig a ymatebodd i'r arolwg berson penodedig sy'n gyfrifol am MMCCh ond nid oes gan 19 (66%) berson o'r fath. Rhoddodd wyth ymatebydd fanylion pellach ynglŷn â natur rolau'r unigolion penodedig hyn ac mae'r rhain yn cynnwys y rhai ar lefel uwch e.e. pennaeth a dirprwy bennaeth a'r rhai mewn rolau eraill fel arweinwyr dysgu proffesiynol, arweinwyr tîm ac arweinwyr cyfnod allweddol.

*'Y dirprwy bennaeth hefyd yw'r arweinydd Gyrfaoedd. Mae'r rôl yn cwmpasu arwain a chyfarwyddo staff mewn nifer o feysydd sy'n cynnwys: Ennill achrediad marc ansawdd Gyrfa Cymru; datblygu cwricwlwm gyrfaoedd a threfnu profiad gwaith.'*
**Ymatebydd i'r arolwg (Ysgol arbennig)**

Ffigur 4.4: P'un a oes gan ysgolion cynradd neu ysgolion arbennig berson penodedig ar gyfer MMCCh





Ffynhonnell: Arolwg o ysgolion

Y gweithgareddau MMCCh amlaf a ddarperir gan ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig a arolygwyd yw gweithgareddau sy'n datblygu sgiliau mentergarwch dysgwyr (18 o blith 29 o ymatebwyr - 62%); gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar STEM (15 o blith 29 - 52%) a chyflwyniadau a wnaed gan gyflogwyr lleol (14 o blith 29 - 48%). Nododd 10 o blith 29 o ymatebwyr (34%) hefyd eu bod yn cyflwyno gweithgareddau digidol neu rithwir a nododd 7 o blith 29 (24%) eu bod yn trefnu i gyflogwyr fynychu digwyddiadau gyrfa yn yr ysgol. Mae enghreifftiau o'r gweithgareddau hyn yn cynnwys dysgwyr yn ymweld â manwerthwyr lleol i drafod busnes a menter, sefydlu clwb busnes a threfnu ymweliadau dosbarth â gweithle ar raglen sgiliau bywyd.

Mynegodd rhai ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig eraill a ymatebodd awydd i gynnal y gweithgareddau uchod. Y prif fylchau yw darpariaeth ddigidol gyda 12 o blith 29 (41%) o ymatebwyr yn nodi yr hoffent ddatblygu'r gweithgaredd hwn, yn ogystal â chyflwyniadau gan gyflogwyr, gyda 10 o blith 29 (34%) o'r ymatebwyr yn nodi yr hoffent ddatblygu'r gweithgaredd hwn. Mae hyn yn awgrymu, er bod mwyafrif yr ysgolion cynradd yn darparu ystod eang o weithgareddau MMCCh, mae lleiafrif sylweddol nad ydynt yn cynnig y ddarpariaeth hon ac mae rhwystrau allweddol i feithrin cysylltiadau â chyflogwyr a threfnu digwyddiadau yn ogystal â chael mynediad at ddarpariaeth ddigidol.

Ffigur 4.5: Gweithgareddau MMCCh a ddarperir gan ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig




Ffynhonnell: Arolwg o ysgolion

## 4.5 Ymwybyddiaeth o raglenni a chymorth yn ymwneud â metergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwr (MMCCh)

Mae gwahaniaeth barn ymhlith yr holl ymatebwyr i'r arolwg ysgolion o ran yr ystod o weithgareddau ac adnoddau MMCCh sydd ar gael a'r gefnogaeth a gânt gan eu hysgolion e.e. datblygiad proffesiyno pharuas a chefnogaeth gan yr uwch dîm rheoli i gynnal gweithgareddau. O blith cyfanswm o 73 o ysgolion uwchradd a chynradd roedd llai na'u hanner yn cytuno (28 - 38%) neu'n cytuno'n gryf (4 - 5%) eu bod yn ymwybodol o'r ystod o weithgareddau MMCCh sydd ar gael, nododd 15 (21%) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd 24 (33%) yn anghytuno a 2 (3%) yn anghytuno'n gryf. Nid oedd gwahaniaeth nodedig yn yr ymatebion rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.

Adroddwyd canfyddiadau tebyg o ran ymwybyddiaeth o'r adnoddau ar Hwb i gefnogi addysgu mentergarwch, gyda 28 o blith 73 yn cytuno (38%), a 5 arall (7%) yn cytuno'n gryf. Nid oedd 10 o'r ymatebwyr (14%) yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd 26 arall (36%) arall yn anghytuno'n gryf.

Mae'r ymatebion hyn i'r arolwg yn awgrymu bod bwlch o hyd mewn ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael i ddatblygu MMCCh a'r adnoddau i wella'r ddarpariaeth addysg fenter. Roedd tua thraean yr ysgolion uwchradd yn anghytuno eu bod yn ymwybodol o'r ystod o weithgareddau MMCCh sydd ar gael. Roedd cyfran uwch (tua 40 y cant) o ysgolion cynradd ac ysgolion arbennig yn anghytuno â'r un datganiad.

Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn tynnu sylw at anghydraddoldebau yn y ddarpariaeth sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd ac mae'r ymatebion hyn yn awgrymu bod bylchau yn parhau mewn ymwybyddiaeth ysgolion o gyfleoedd MMCCh.

> *'Nid oeddwn yn ymwybodol o unrhyw adnoddau ar Hwb ac nid wyf yn ymwybodol o unrhyw hyfforddiant ar gyfer staff newydd.'* **Ymatebydd i'r arolwg (ysgol arbennig)**

Roedd y canfyddiadau a adrodddwyd gan ysgolion ynghylch cefnogaeth gan uwch dimau rheoli i gynnal gweithgareddau MMCCh yn fwy cadarnhaol. Roedd 21 o ymatebwyr o blith 72 (29%) yn cytuno'n gryf eu bod yn cael cefnogaeth gan yr uwch dîm rheoli ac roedd 30 o ymatebwyr eraill (42%) yn cytuno. Nododd 14 o ymatebwyr (19%) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd 7 (10%) yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf â'r datganiad hwn. Mae hyn yn dangos bod strwythurau cymorth ar gael mewn ysgolion i ganiatáu i staff ddatblygu ac arwain gweithgareddau MMCCh a bod unigolion o'r uwch dîm rheoli yn barod i gefnogi'r gwaith o gynnal y gweithgareddau hyn.


Mae cefnogaeth hefyd yn cael ei darparu drwy ddysgu proffesiynol ond eto roedd gwahaniaeth barn ymysg yr ymatebwyr o ran darpariaeth DPP i wella eu gallu i gynnal gweithgareddau MMCCh. Roedd 18 o blith 72 (25%) o ymatebwyr yn cytuno â hyn a 3 arall (4%) yn cytuno'n gryf. Nid oedd 26 o'r ymatebwyr (36%) yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd 6 arall (8%) yn anghytuno'n gryf. Mae hyn yn dangos eto fwlch rhwng ysgolion a'r capasiti, yr adnoddau a'r gefnogaeth sydd ganddynt.

> *'Hoffwn ddatblygu'r cyfleoedd datblygu proffesiynol i athrawon yn yr ysgol i wella'u gallu i gynnal gweithgareddau mentergarwch a chynnal partneriaethau gyda chyflogwyr, teimlo bod rhai adrannau gyda chysylltiadau cryf ond efallai nad oes adrannau eraill gyda chysylltiadau.'* **Ymatebydd i'r arolwg (ysgol uwchradd)**

Serch hynny, roedd lefelau hyder mewn perthynas â chyflawni gweithgareddau MMCCh yn gymharol uchel gyda mwyafrif yr ymatebwyr yn mynegi barn gadarnhaol. Roedd 37 o blith 72 o ymatebwyr (51%) yn cytuno eu bod yn hyderus wrth ddarparu gweithgareddau ac roedd 9 arall (13%) yn cytuno'n gryf. Nid oedd 17 o'r ymatebwyr (24%) yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd 6 arall (4%) yn anghytuno'n gryf.

Mae'n ymddangos felly, er gwaethaf y diffyg hyfforddiant proffesiynol ac ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth ar gyfer gweithgareddau MMCCh yn y mwyafrif o ysgolion, bod gan y rhai sy'n gyfrifol am ddylunio a darparu'r gweithgaredd hyder yn eu galluoedd eu hunain a bod ganddynt gefnogaeth yr uwch dîm rheoli mewn llawer o achosion. Awgryma hyn sylfaen wybodaeth y gellid adeiladu arni drwy dargedu a hyrwyddo cefnogaeth ac adnoddau yn well yn y dyfodol, yn enwedig i'r ysgolion a'r ardaloedd hynny yng Nghymru a allai fod yn colli cyfleoedd ar hyn o bryd.

Ffigur 4.6: Barn ar weithgareddau MMCCh, yr adnoddau sydd ar gael a'r gefnogaeth a gafwyd




Ffynhonnell: Arolwg o ysgolion

## 4.6 Partneriaid a darparwyr

Cyfeiriodd yr ysgolion amlaf at weithio gyda Gyrfa Cymru i gefnogi gweithgareddau MMCCh, gyda dros dri chwarter yr ymatebwyr (45 o blith 58 - 78%) yn nodi Gyrfa Cymru fel partner.[4] Nododd yr ysgolion yn gyson hefyd eu bod yn gweithio gydag amryw o fusnesau lleol a chenedlaethol o'r sector preifat, eto gyda thros dri chwarter yr ymatebwyr yn nodi partneriaid o'r fath (44 o blith 58 - 76%). Ymhlith yr enghreifftiau o fusnesau lleol a chenedlaethol a roddwyd gan ymatebwyr roedd banciau, busnesau diwydiannol a gweithgynhyrchu, siopau lleol a busnesau twristiaeth a lletygarwch.


Dywedodd 40% o'r ymatebwyr (23 o blith 58)[5] fod Syniadau Mawr Cymru yn bartner, yn ogystal ag ystod o gyrff cyhoeddus a phrosiectau cysylltiedig a nodwyd gan 34% o'r ymatebwyr (20 o blith 58). Ymhlith yr enghreifftiau o gyrff cyhoeddus a roddwyd gan ymatebwyr mae awdurdodau lleol, y GIG a chonsortia addysg.

Nododd nifer llai o ymatebwyr hefyd amryw o sefydliadau dielw y maent wedi gweithio â nhw (10 o blith 58 - 17%), megis STEM Cymru, neu nodwyd yn syml eu bod wedi gweithio

[4] O blith y 45 o ysgolion a nododd eu bod yn gweithio gyda Gyrfa Cymru, roedd 40 yn ysgolion uwchradd, 4 yn ysgolion arbennig ac 1 yn ysgol ganol.
[5] O blith y 23 o ysgolion a enwodd Syniadau Mawr Cymru fel partner, roedd 21 yn ysgolion uwchradd a 2 yn ysgolion cynradd.

ag 'elusennau'. Nododd naw ymatebydd arall o blith 58 (16%) amryw o sefydliadau addysg bellach ac uwch yr oeddent wedi gweithio â nhw a nododd wyth ymatebydd o blith 58 (14%) fod Busnes yn y Gymuned yn bartner iddynt.

Ffigur 4.7: Partneriaid y mae ysgolion yn nodi eu bod wedi gweithio â nhw




Ffynhonnell: Arolwg o ysgolion

Rhoddodd yr ymatebwyr sylwadau ychwanegol ar ystod o weithgareddau a mentrau a gynhaliwyd gan y darparwyr a'r partneriaid hyn y maent yn ystyried eu bod wedi gweithio'n dda o ran eu dysgwyr. Mae'r rhain wedi cynnwys gweithgareddau a gefnogir gan sefydliadau a rhaglenni cenedlaethol ynghyd â mentrau mwy rhanbarthol a gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr unigol wedi'u harwain gan ysgolion. Mae rhai wedi bod yn weithgareddau ysgol gyfan ac eraill wedi'u targedu'n fwy at ddysgwyr mewn grwpiau blwyddyn penodol, yn enwedig blynyddoedd 9, 10 ac 11 mewn ysgolion uwchradd.

Roedd rhai gweithgareddau'n seiliedig ar ymwybyddiaeth e.e. digwyddiadau gwybodaeth am yrfaoedd sy'n gysylltiedig â phynciau fel ieithoedd, arlwyo, y celfyddydau a'r cyfryngau a diwrnodau gyrfaoedd i blant a rhieni tra bod eraill yn meithrin cysylltiadau'n uniongyrchol ag ystod o gyflogwyr lleol i godi dyheadau a darparu profiad gwaith.

> *'Mae'r plant wedi ymweld â safleoedd busnes i siarad â'r perchnogion a dysgu am y diwydiant (gan gynnwys Pizza Hut, Co-op a Tesco). Mae hon wedi bod yn fenter ragorol i'r plant yn ystod ein Hwythnosau Entrepreneuraidd lle mae'r plant wedi bod yn dysgu am wahanol agweddau ar fusnes a marchnata cynnyrch.'* **Ymatebydd i'r arolwg (ysgol gynradd)**

Adroddir bod Gyrfa Cymru wedi helpu rhai ysgolion i ddatblygu gweledigaeth gydlynol ar gyfer gyrfaoedd a gwaith mentergarwch tra bod eraill wedi tynnu sylw at rannu syniadau drwy glystyrau ysgolion a mentrau rhanbarthol.  I sawl ysgol, roedd gweithgareddau dilynol i

ganiatáu i ddysgwyr feithrin cysylltiadau'n annibynnol ar ôl codi ymwybyddiaeth yn allweddol i gynnal cynnydd.

*'Mae'r ŵyl gyrfaoedd a drefnir gan Gyrfa Cymru a chyngor Powys yn ffordd wych o ennyn diddordeb myfyrwyr. Rydym yn mynd â blynyddoedd 9,10,12 yno bob blwyddyn. Mae modelau rôl Syniadau Mawr Cymru yn boblogaidd iawn ac mae'r myfyrwyr yn mwynhau'r sesiynau. Mae Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru yn darparu cyfleoedd gwych i fyfyrwyr ddatblygu syniadau arloesol sy'n gysylltiedig â'u hopsiynau gyrfa. Mae Gyrfa Cymru wedi bod yn allweddol o ran ein cefnogi i feithrin cysylltiadau â chyflogwyr drwy'r Gyfnewidfa Addysg Busnes a thrwy ein cynghorydd gyrfa.'*
**Ymatebydd i'r arolwg (ysgol uwchradd)**

## 4.7 Rhwystrau i ddarparu gweithgareddau mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwr (MMCCh)

Mae mwyafrif yr ysgolion a ymatebodd i'r arolwg wedi wynebu rhwystrau i gynnal gweithgareddau MMCCh. Nododd 47 o blith 66 o ymatebwyr (71%) eu bod wedi wynebu rhwystrau a dywedodd 19 (29%) nad oeddent wedi cael unrhyw rwystrau o gwbl. Rhoddodd yr ymatebwyr hynny a oedd wedi wynebu rhwystrau fanylion pellach ynglŷn â'r rhain. Y rhwystr mwyaf cyffredin a nodwyd oedd 'prinder amser staff', a nodwyd gan 27 o blith 47 o ysgolion (57%), ac yna 'cost y gefnogaeth/rhaglenni' a adroddwyd gan 21 o ysgolion (45%).

Lle y darparodd ysgolion wybodaeth bellach, roeddent yn cyfeirio at gostau cludo sy'n gysylltiedig â mynd â grwpiau neu ddosbarthiadau i weithgareddau penodol. Rhwystr arall oedd bod MMCCh yn cael ei ystyried yn 'llai o flaenoriaeth na meysydd dysgu eraill'. Codwyd hyn gan 20 o blith 47 o ysgolion (43%), a chyfeiriodd 14 o blith 47 o ysgolion at 'ddiffyg gwybodaeth neu arbenigedd staff' (30%).

Amlinellodd yr ysgolion hefyd amrywiaeth o rwystrau eraill mewn sylwadau ansoddol pellach. Roedd y rhain yn cynnwys gofynion y cwricwlwm ar amser disgyblion a phwysau arholiadau ynghyd â materion yn ymwneud â'r ffaith bod rhai athrawon yn amharod i ryddhau disgyblion ar gyfer gweithgareddau MMCCh. Amlygodd ysgolion hefyd anawsterau cael cyflogwyr lleol i gymryd rhan ochr yn ochr â heriau eraill sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldebau mewn perthynas â darpariaeth megis cyllid ar gyfer trafnidiaeth a dillad arbenigol a dim digon o gyfleoedd i ddysgwyr ag anawsterau dysgu difrifol/anawsterau dysgu dwys a lluosog.

*'Mae'r sector ysgolion arbennig yn cael cefnogaeth wael er gwaethaf y ffaith bod llawer o'n pobl ifanc yn gorfforol alluog i weithio.'* **Ymatebydd i'r arolwg (ysgol arbennig)**

Mae'r heriau hyn yn debyg i rai o'r heriau a amlygwyd yn yr adolygiad llenyddiaeth, er enghraifft diffyg cefnogaeth ac amser i ymarferwyr gynnal gweithgareddau MMCCh. Mae argaeledd, a mynediad at adnoddau, gwybodaeth ddibynadwy a chyflogwyr yn gysylltiedig ag anghydraddoldebau o ran rhai agweddau ar y ddarpariaeth ac mae rhai grwpiau difreintiedig yn ymddangos fel pe baent yn colli cyfleoedd i gymryd rhan. Gellir mynd i'r


afael â rhai o'r prif rwystrau y mae ysgolion yn tynnu sylw atynt drwy ddysgu proffesiynol a dull mwy cyson ac ymwreiddiedig o ddarparu MMCCh, gan gysylltu â'r cwricwlwm a chefnogaeth yr uwch dîm rheoli.

Ffigur 4.8: P'un a yw ysgolion wedi wynebu rhwystrau i gynnal gweithgareddau MMCCh




Ffynhonnell: Arolwg o ysgolion

Ffigur 4.9: Rhwystrau sy'n wynebu ysgolion wrth gynnal gweithgareddau MMCCh




Ffynhonnell: Arolwg o ysgolion

## 4.8 Ansawdd ac effaith mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwr (MMCCh)


Mynegodd yr ymatebwyr i'r arolwg farn gadarnhaol ar y cyfan am y ddarpariaeth a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt, gyda bron y mwyafrif yn cytuno (30 o blith 64 - 47%) neu'n cytuno'n gryf (11 o blith 64 - 17%) bod y ddarpariaeth a'r gefnogaeth a gânt o ansawdd

uchel. Roedd dros hanner yr ymatebwyr hefyd yn cytuno (29 o blith 64 - 45%) neu'n cytuno'n gryf (8 o blith 64 - 13%) bod y ddarpariaeth sydd ar gael yn berthnasol i ystod o feysydd y cwricwlwm. Nododd ychydig yn llai na chwarter yr ymatebwyr (15 o blith 64 - 23%) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â'r ddau ddatganiad hyn.

Roedd lleiafrif yn anghytuno â'r ddau ddatganiad (8 o blith 64 - 13% ac 11 o blith 64 - 17%, yn y drefn honno). Dim ond un ymatebydd a oedd yn anghytuno'n gryf bod y ddarpariaeth sydd ar gael yn berthnasol i ystod o feysydd y cwricwlwm.

Ymhelaethodd ambell ymatebydd ar ei ymateb. Nododd sawl un fod ei brofiad o feithrin cysylltiadau â sefydliadau cymorth penodol wedi bod yn brofiad cadarnhaol. Nododd un neu ddau o ymatebwyr fod darparu MMCCh yn haws mewn rhai meysydd o'r cwricwlwm nag eraill, a chyfeiriodd un at bynciau STEM fel enghraifft.

Ffigur 4.10: Barn ar ansawdd y ddarpariaeth sydd ar gael




Ffynhonnell: Arolwg o ysgolion

Yn gyffredinol, mynegodd yr ymatebwyr i'r arolwg farn gadarnhaol ynghylch effaith gweithgareddau MMCCh ar ddysgwyr, staff a'r ysgol ehangach. Roedd yr ymatebwyr yn arbennig o gadarnhaol ynghylch effaith y gweithgareddau ar ddatblygu sgiliau a dyheadau'r dysgwyr. Roedd 39 o blith 64 o'r ymatebwyr (61%) yn cytuno bod gweithgareddau MMCCh yn eu priod ysgolion yn datblygu sgiliau mentergarwch dysgwyr, ac roedd 11 arall (17%) yn cytuno'n gryf.

Roedd niferoedd tebyg yn cytuno bod meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yn ysbrydoli ac yn codi dyheadau dysgwyr, gyda 39 o blith 63 o ymatebwyr (62%) yn cytuno a 12 arall (19%) yn cytuno'n gryf. Roedd y niferoedd a oedd yn anghytuno â'r datganiadau hyn yn fach, 6 ymatebydd o blith 64 (9%), a 5 o blith 63 (8%) yn y drefn honno ac ni chynigiwyd tystiolaeth ansoddol bellach ar gyfer y safbwyntiau hyn.

*'Drwy ein prosiect byd gwaith, dywedodd y disgyblion a holwyd eu bod wedi dod yn fwy gwydn a'u bod wedi datblygu mwy o hyder, cymhwysedd a sgiliau cydweithio.'* **Ymatebydd i'r arolwg (ysgol gynradd)**

Roedd yr ymatebwyr hefyd yn gyffredinol yn gytûn ynghylch effaith gadarnhaol gweithgareddau MMCCh ar gyrhaeddiad dysgwyr. Roedd 29 o blith 62 o ymatebwyr (47%) yn cytuno bod hyn yn wir yn eu hysgolion hwy, a 12 arall (19%) yn cytuno'n gryf. Nododd 13 o'r ymatebwyr (21%) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â hyn ac roedd 8 arall (13%) yn anghytuno'n gryf.


Mae'r ffigurau hyn yn dangos, ar gyfer mwyafrif helaeth yr ysgolion, bod gweithgareddau MMCCh yn cael eu gwerthfawrogi am eu heffaith gadarnhaol ar ddysgwyr. Mae'r canfyddiadau'n cysylltu â'r rhai o'r adolygiad llenyddiaeth, sy'n awgrymu effaith gadarnhaol ar lesiant a hunan-barch dysgwyr, eu hymwneud â dysgu a chreu rhwydweithiau personol ynghyd â datblygu gwell dealltwriaeth o fyd gwaith, a'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol i symud ymlaen i waith.

*'Mae'r ŵyl gyrfaoedd a drefnir gan Gyrfa Cymru a'r awdurdod lleol yn ffordd wych o ennyn diddordeb myfyrwyr. Mae modelau rôl Syniadau Mawr Cymru yn boblogaidd iawn ac mae'r myfyrwyr yn mwynhau'r sesiynau. Mae Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru yn darparu cyfleoedd gwych i fyfyrwyr ddatblygu syniadau arloesol sy'n gysylltiedig â'u hopsiynau gyrfa. Mae Gyrfa Cymru wedi bod yn allweddol o ran ein cefnogi i feithrin cysylltiadau â chyflogwyr drwy'r Gyfnewidfa Addysg Busnes a thrwy ein cynghorydd gyrfa.'* **Ymatebydd i'r arolwg (ysgol uwchradd)**

Roedd yr ymatebwyr hefyd yn gytûn raddau helaeth ynghylch effaith gadarnhaol gweithgareddau MMCCh ar eu staff a'r ysgol ehangach. Roedd 32 o blith 62 o ymatebwyr (52%) yn cytuno bod hyn yn wir, ac 8 arall (13%) yn cytuno'n gryf. Nododd 13 o'r ymatebwyr (21%) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno ac roedd 9 arall (15%) yn anghytuno. Ychydig o dystiolaeth ansoddol bellach a ddarparwyd i ategu'r safbwyntiau hyn, ond amlygodd sawl ysgol yr effaith gadarnhaol yr oedd MMCCh yn ei chael ar ei phartneriaethau yn ei chymunedau a datblygiad sgiliau a gwybodaeth y staff.

Roedd yr ymatebwyr yn fwy niwtral ynghylch a yw gweithgareddau MMCCh yn cynrychioli gwerth am arian. Nododd bron i hanner yr ymatebwyr (29 o blith 62 - 47%) nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno. Roedd 21 o blith 62 (34%) yn cytuno, 6 arall (10%) yn cytuno'n gryf, a 6 arall (10%) yn anghytuno. Mae sylwadau ansoddol pellach yn awgrymu bod rhai ysgolion yn datblygu eu darpariaeth eu hunain heb fawr ddim cymorth ariannol o fan arall a bod eraill yn teimlo'n anghymwys i ateb y cwestiwn hwn.

Ffigur 4.11: Barn ar effaith gweithgareddau MMCCh




Ffynhonnell: Arolwg o ysgolion

## 4.9 Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

Darparodd ysgolion ystod eang o ymatebion o ran sut y maent yn bwriadu mynd i'r afael â gofynion y Cwricwlwm i Gymru 2022 mewn perthynas â gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith (CWRE). Mae gan rai ysgolion gynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu eu polisïau gyrfa ymhellach gan gynnwys gweithgareddau MMCCh ar lefel ysgol gyfan ac mae cysylltu â gofynion y Cwricwlwm i Gymru yn agwedd annatod ar y dulliau gweithredu hyn a'r weledigaeth hon. Bydd yr ysgolion hyn yn adolygu cynlluniau dysgu i sicrhau bod CWRE yn gysylltiedig â phob Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) a phedwar diben craidd y cwricwlwm newydd. Nododd sawl ysgol arall ei bod wedi cysylltu ei chynnydd â Marc Gyrfa Cymru.[6]

> *'Rwy'n bwriadu llunio polisi sy'n adlewyrchu anghenion ein holl ddisgyblion ac sy'n cyd-fynd â gofynion Cwricwlwm i Gymru 2022. Fy ngweledigaeth yw cael CWRE ym mhob grŵp blwyddyn drwy amrywiaeth o lwybrau e.e. ymweliadau gan gyflogwyr, meithrin cysylltiadau digidol mewn gwersi, ymweliadau â ffeiriau gyrfaoedd, gweithgareddau mewn gwersi sy'n gysylltiedig â CWRE, ffug gyfweliadau, sgiliau ysgrifennu CV, sut i ddod o hyd i wybodaeth am yrfaoedd yn annibynnol.'*
> **Ymatebydd i'r arolwg (ysgol uwchradd)**

Roedd eraill yn fwy gochelgar o ran eu dull gweithredu ac yn bwriadu parhau i adeiladu ar y cysylltiadau â busnesau a diwydiant lleol mewn ffordd fwy cyson a chydlynol. I rai ysgolion, bydd hyn yn gofyn am adolygiad o weithgaredd cyfredol a blaenorol a chynnwys rhieni a disgyblion yn y broses o ddarparu gweithgareddau 'arloesol, mentrus a chynaliadwy'

[6] Noder: Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg y byddai Gyrfa Cymru yn bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru newydd ar gyfer cyfarwyddyd gyrfaoedd da mewn ysgolion.

newydd. Roedd Gyrfa Cymru yn cael ei ystyried yn bartner allweddol ar gyfer y dyfodol, a dywedodd rhai ysgolion hefyd fod ganddynt gynlluniau i barhau i feithrin cysylltiadau â mentrau fel Syniadau Mawr Cymru a chysylltu'r gweithgareddau hyn yn uniongyrchol â CWRE.

> *'(Cynnal) ymwybyddiaeth barhaus o gyfleoedd a/neu addysgu CWRE; parhau i gysylltu â Gyrfa Cymru i gael mynediad at well adnoddau CWRE; ennill Marc Gyrfa Cymru ac felly bod yn rhan o gylch datblygu a gwerthuso blynyddol gan sicrhau bod CWRE yn parhau i fod yn ganolbwynt ac yn flaenoriaeth allweddol i'r ysgol'*
> **Ymatebydd i'r arolwg (ysgol uwchradd)**

Nododd tua hanner dwsin o ymatebwyr nad oeddent yn gwybod, gan ddweud, ar gyfer rhai ysgolion, y byddai eu hysbysu am fwy o wahanol fathau o gymorth sydd ar gael. Darparwyd amrywiaeth o awgrymiadau pellach gan yr ymatebwyr isod.

## 4.10 Cymorth ychwanegol

Gwnaeth yr ymatebwyr nifer o awgrymiadau ar gyfer cymorth ychwanegol. Roedd angen mwy o gyllid ar rai ymatebwyr, gyda sawl un yn awgrymu grantiau ar gyfer cludiant i ddigwyddiadau gyrfaoedd ac ymweliadau â chyflogwyr tra bod sawl un arall yn cynnig cymhellion i gyflogwyr ymwneud ag ysgolion. Roedd darparu mwy o amser i athrawon drefnu a pharatoi gweithgareddau MMCCh yn awgrym arall gan nifer o ymatebwyr. Mae angen cyngor mwy strategol ar rai ysgolion ynghylch cysylltu gweithgareddau â CWRE gydag awgrymiadau ar gyfer modelu arfer da a datblygu cwricwlwm CWRE yn arwain at gefnogi ysgolion i ymgorffori darpariaeth yn effeithiol. Mae hyn yn cysylltu â sawl sylw gan ysgolion am fwy o gefnogaeth ar gyfer dysgu proffesiynol er mwyn caniatáu i'w staff ymgorffori MMCCh yn eu haddysgu.

Galwodd eraill, gan gynnwys nifer o gynrychiolwyr ysgolion cynradd, am ddull ac iddo ffocws mwy lleol gan ddefnyddio partneriaid cymunedol i nodi cyflogwyr sy'n barod i weithio gydag ysgolion. Roedd rhannu adnoddau a defnyddio technolegau newydd yn awgrymiadau ychwanegol i gefnogi ysgolion, sy'n cysylltu â'r safbwyntiau terfynol gan ysgolion ynghylch sut i gefnogi a chynnal gweithgareddau MMCCh gyda'u partneriaid o dan y 'normal newydd'.

> *'Rhestr gyfeirio o gyflogwyr sy'n barod i gyfrannu at waith datblygu gyrfa mewn ysgolion cynradd gan nad oedd yn hawdd dod o hyd i hyn y tro diwethaf i ni astudio'r pwnc. Pan ddaethom o hyd i fanylion pobl drwy wefan gyrfaoedd Llywodraeth Cymru, nid oedd llawer ohonynt ar gael neu roedd yn well ganddynt feithrin cysylltiadau ag ysgolion uwchradd.'* **Ymatebydd i'r arolwg (ysgol gynradd)**

## 4.11 Darpariaeth ddigidol

O ran gweithgaredd MMCCh yn y dyfodol yn y 'normal newydd' rhoddodd yr ymatebwyr i'r arolwg amrywiaeth o atebion. Roedd defnyddio technolegau newydd yn amlwg yn ffocws

allweddol i ymatebwyr a amlinellodd y potensial i ddosbarthiadau meistr, ymweliadau gan gyflogwyr a sgyrsiau ysgogol gan entrepreneuriaid ddigwydd ar-lein. I ysgolion gallai hyn gynnwys gweithgareddau digidol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer gwasanaethau neu ar gyfer gwaith sy'n seiliedig ar y cwricwlwm ynghyd â'r cyfle i ddarparu ffug gyfweliadau a sesiynau holi ac ateb gyda chyflogwyr wedi'u recordio ymlaen llaw. I rai ymatebwyr, roedd y defnydd o dechnolegau newydd yn gysylltiedig â dull mwy hyblyg, wedi'i bersonoli, ond nododd eraill na allai gweithgaredd digidol gael yr un effaith ag ymweliadau â chyflogwyr, a chan gyflogwyr.

> *'Rydym yn bwriadu defnyddio'r adnoddau digidol y mae cyflogwyr wedi'u creu drwy Gyrfa Cymru, mewn gwersi, amser cofrestru neu adeg gwasanaeth a chydag unrhyw grŵp blwyddyn lle bo hynny'n berthnasol. Blwyddyn 11 yw ein prif ffocws eleni ynghyd â Blwyddyn 10, gan fod cyngor gyrfaoedd eleni yn fwy hanfodol byth o dan yr amgylchiadau presennol.'* **Ymatebydd i'r arolwg (ysgol uwchradd)**

**Canfyddiadau allweddol o'r arolwg**

- Mae gan fwyafrif yr ysgolion uwchradd berson penodedig sy'n gyfrifol am MMCCh, maent wedi ymgorffori gweithgareddau o fewn strwythurau ysgolion ac wedi sefydlu partneriaethau. Fodd bynnag, mewn rhai ysgolion mae gweithgareddau'n parhau i fod yn fwy ad hoc gyda chyfleoedd mwy cyfyngedig i feithrin cysylltiadau â chyflogwyr neu gapasiti i ddatblygu darpariaeth ddigidol.

- Mae gan fwyafrif yr ysgolion cynradd berson penodedig sy'n gyfrifol am weithgareddau MMCCh. Y gweithgareddau a gynhelir amlaf yw datblygu sgiliau mentergarwch y dysgwyr, gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar STEM a chyflwyniadau gan gyflogwyr lleol. Ymhlith y rhwystrau allweddol mae diffyg cyfleoedd i feithrin cysylltiadau â chyflogwyr a mynediad at ddarpariaeth ddigidol.

- Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau MMCCh yn digwydd yn CA4 (myfyrwyr blynyddoedd 10 ac 11) er bod rhai ysgolion uwchradd yn datblygu continwwm o CA3 ymlaen. Y gweithgareddau sy'n digwydd amlaf yw mynychu ffeiriau gyrfaoedd, cyflwyniadau gan gyflogwyr lleol a gweithgareddau sy'n datblygu sgiliau menter dysgwyr a'u gwybodaeth am fusnes.

- Ceir diffyg ymwybyddiaeth ymhlith rhai ysgolion cynradd ac uwchradd o'r adnoddau a'r partneriaethau sydd ar gael i gefnogi gweithgareddau MMCCh. Roedd traean o'r ymarferwyr a ymatebodd i'r arolwg yn anghytuno bod cyfleoedd DPP ar gael yn eu hysgol i wella darpariaeth MMCCh.

- Y rhwystrau allweddol i MMCCh yw diffyg amser staff, costau cael gafael ar gymorth, y ffaith bod MMCCh yn cael ei ystyried yn llai o flaenoriaeth na meysydd dysgu eraill a diffyg gwybodaeth ac arbenigedd y staff.

- Mae gweithgareddau mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yn cael effaith gadarnhaol ar ddyheadau, sgiliau a chyrhaeddiad dysgwyr yn y mwyafrif o

ysgolion. Adroddwyd hefyd am effeithiau cadarnhaol ar sgiliau staff a meithrin cysylltiadau â chymunedau lleol.

- Y dulliau yr ystyriwyd eu bod wedi gweithio'n dda oedd:
    - Gweithgareddau sy'n cyfoethogi ac yn cyd-fynd â meysydd o'r cwricwlwm ar draws ystod o bynciau;
    - Cymorth gan bartneriaid cenedlaethol a lleol i ddatblygu gweledigaeth a strategaeth ysgol gyfan ar gyfer gyrfaoedd a mentergarwch;
    - Cyflwyniadau gan fodelau rôl busnes (yn enwedig siaradwyr wedi'u trefnu gan Syniadau Mawr Cymru);
    - Ffeiriau gyrfaoedd, gan gynnwys amser wedi'i neilltuo i ymchwilio i yrfaoedd a mentergarwch fel pwnc ysgol gyfan, gan arwain at ffair gyrfaoedd gyda sesiynau blasu a sgyrsiau gan gyflogwyr;
    - Cyflwyniadau gan gyflogwyr i grwpiau blwyddyn, wedi'u hategu gan gyfleoedd i feithrin cysylltiadau â chyflogwyr/cyflwynwyr mewn grwpiau llai; cyfeiriodd ysgolion at fanteision cysylltiadau a wneir drwy'r gyfnewidfa addysg busnes.

- Roedd rhai gweithgareddau'n seiliedig ar ymwybyddiaeth e.e. digwyddiadau gwybodaeth am yrfaoedd sy'n gysylltiedig â phynciau fel ieithoedd, arlwyo, y celfyddydau a'r cyfryngau a diwrnodau gyrfaoedd i blant a rhieni tra bod eraill yn meithrin cysylltiadau'n uniongyrchol ag ystod o gyflogwyr lleol i godi dyheadau a darparu profiad gwaith.

- Mae blaenoriaethau'r dyfodol ar gyfer gweithgareddau MMCCh ysgolion yn cynnwys mynd i'r afael â gofynion y Cwricwlwm i Gymru mewn perthynas â gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith (CWRE) a datblygu dull ysgol gyfan o ddarparu gweithgaredd MMCCh a phartneriaethau mwy cyson â chyflogwyr.

- Mynegodd ysgolion ddiddordeb mewn cael rhagor o gyfleoedd i fanateisio ar weithgareddau digidol/rhithwir, cyngor strategol ynghylch cysylltu gweithgareddau MMCCh â CWRE a gweithgaredd dysgu proffesiynol i staff.

# 5. Casgliadau a'r camau nesaf

## 5.1 Darpariaeth gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yng Nghymru

Gellir ystyried ehangder ac amrywiaeth y mentrau a nodwyd yn ystod yr astudiaeth hon fel un o gryfderau'r dirwedd MMCCh bresennol yng Nghymru. Mae'n rhoi dewisiadau i ysgolion - ar gyfer yr ysgolion hynny sy'n gallu asesu opsiynau'n effeithiol - a gwneud penderfyniadau gwybodus. Nid yw'n amlwg, fodd bynnag, bod y ddarpariaeth bresennol o reidrwydd yn gyfoethog ac yn amrywiol yn ei hanfod. Roedd rhanddeiliaid o'r farn bod y trefniadau presennol weithiau wedi dod i'r amlwg mewn ffordd ddi-drefn, gan arwain at enghreifftiau o ddyblygu darpariaeth ac awgrymu bod lle i ddull mwy systematig a symlach.

Mae mentrau mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yn cael eu darparu ym mhob rhan o Gymru ac mae'n ymddangos bod cwmpas daeryddol da, yn bennaf o ganlyniad i fentrau cenedlaethol a ddarperir gan Gyrfa Cymru a Syniadau Mawr Cymru, ymhlith eraill. Fodd bynnag, nododd rhai ysgolion eu bod yn wynebu heriau o ran creu partneriaethau cynaliadwy gyda chyflogwyr a darparu profiadau yn y gweithle. Nododd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd hefyd y gall ysgolion mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd sydd dan anfantais economaidd, yn benodol, wynebu rhwystrau rhag meithrin cysylltiadau â chyflogwyr.

## 5.2 Cynllunio a darparu gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr mewn ysgolion

Canfu'r astudiaeth amrywiadau yng ngwaith cynllunio a darparu gweithgareddau MMCCh cyfredol ysgolion. Nododd mwyafrif yr ysgolion uwchradd a gyfrannodd at yr ymchwil fod ganddynt drefniadau MMCCh sefydledig ar waith, ynghyd â phartneriaethau da sy'n cefnogi gwaith cynllunio. Mae cefnogaeth asiantaethau allanol, yn enwedig Gyrfa Cymru, yn rhan annatod o weithgaredd MMCCh mewn llawer o'r ysgolion uwchradd hyn. Adroddodd yr ysgolion fod darpariaeth gyrfaoedd wedi'i theilwra i anghenion y dysgwyr, gyda rhai'n datblygu continwwm o CA3 ymlaen.

Nododd oddeutu traean yr ysgolion uwchradd a gwblhaodd yr arolwg nad oedd ganddynt gynllun na strategaeth ysgrifenedig ar gyfer gyrfaoedd. Roedd yr ysgolion hyn yn fwy tebygol o adrodd hefyd nad oedd ganddynt berson penodedig yn gyfrifol am fentergarwch / meithrin cysylltiadau â chyflogwr. Nododd yr ysgolion hyn hefyd bod ganddynt gyfleoedd mwy cyfyngedig i feithrin cysylltiadau â chyflogwyr drwy ymweliadau neu raglenni yn y gweithle. Adroddwyd sefyllfa debyg gan ysgolion cynradd, gyda'r mwyafrif yn darparu ystod o weithgareddau MMCCh ond gyda lleiafrif sylweddol heb fod yn gwneud hynny ar hyn o bryd.

Er bod yr arolwg yn adlewyrchu'r sefyllfa mewn dim ond sampl o ysgolion ledled Cymru, mae'r canfyddiadau serch hynny yn dangos anghysondeb o ran sut y mae gweithgaredd

MMCCh yn cael ei gynllunio a'i ddarparu. Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn tynnu sylw at anghydraddoldebau mewn darpariaeth sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd fel rhwystr allweddol i sicrhau deilliannau cadarnhaol i bob myfyriwr. Tynnodd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd sylw hefyd at amrywioldeb ac anghysondeb y ddarpariaeth ar draws ysgolion yng Nghymru, gan dynnu sylw at heriau megis capasiti, strwythurau, adnoddau a sgiliau a hyder y staff addysgu.

Gan fyfyrio ar MMCCh a rhaglenni gyrfaoedd yng nghyd-destun diwygiadau addysg ehangach yng Nghymru, mae'n hanfodol bod ysgolion wedi ymgorffori cynlluniau gyrfaoedd a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr sy'n diwallu anghenion eu dysgwyr ac sy'n cael eu cefnogi ar lefel ysgol gyfan. Gallai'r Wobr Ansawdd Gyrfaoedd a'r canllawiau statudol newydd gynorthwyo ysgolion i gyflawni hyn.

## 5.3 Cyflwyno darpariaeth ddigidol a'r galw am hynny

Mae'r ystod o ymyriadau ac adnoddau digidol wedi cynyddu, gyda darparwyr yn dangos eu gallu i addasu eu darpariaeth mewn ymateb i gau ysgolion a gweithio o bell yn ystod y cyfyngiadau symud. Mae partneriaid wedi ymrwymo i barhau i gynnig cyfleoedd i ysgolion gael mynediad at weithgareddau MMCCh drwy ddulliau rhithwir a digidol. Mae tystiolaeth gan ysgolion yn dangos bod y galw am weithgareddau digidol yn debygol o fod yn barhaus, yn ogystal â'r galw am ymyriadau digidol mewn ystod o fformatau, gan gynnwys sgyrsiau gan gyflogwyr a dosbarthiadau meistr, ffug gyfweliadau, ffeiriau gyrfaoedd ar-lein, a sgyrsiau ysgogol gan entrepreneuriaid.

Mae ysgolion hefyd yn rhagweld galw am weithgareddau digidol sydd wedi'u cynllunio ar gyfer gwasanaethau ysgol ac i gefnogi cyflwyno'r cwricwlwm ar draws ystod o MDaPhau. I rai cyfranwyr at yr astudiaeth, roedd ehangu'r ddarpariaeth ddigidol yn cyflwyno'r potensial i gynnig dulliau mwy hyblyg, wedi'u personoli i gefnogi dysgwyr wrth iddynt wneud cynnydd. Amlygodd eraill yr effaith gadarnhaol ar ddysgwyr yn sgil cyfarfyddiadau wyneb yn wyneb â chyflogwyr drwy ymweliadau â'r ysgol neu'r gweithle a mynegodd awydd i'r rhain barhau. Yn y dyfodol, bydd galw am ddull cyfunol.

Prin yw'r dystiolaeth ynghylch effeithiolrwydd y dulliau digidol presennol. Mae darparwyr yn cael eu calonogi gan y ffaith bod gan ymyriadau rhithwir y potensial i feithrin cysylltiadau â niferoedd mwy o ysgolion a dysgwyr, gydag ysgolion yn gallu cyfeirio dysgwyr at adnoddau, gweminarau, ymweliadau rhithwir â'r gweithle sydd wedi'u teilwra i feysydd y mae gan y dysgwyr ddiddordeb ynddynt. Fodd bynnag, hyd yma, ychydig sy'n hysbys am effaith neu ddylanwad y dulliau hyn ar benderfyniadau dysgwyr o gymharu â phrofiadau wyneb yn wyneb neu *ar y safle* a bydd yn rhaid rhoi ystyriaeth i sut y gellir mesur y cysylltiadau hyn. Mae ystyriaethau hefyd o ran diogelu, fel gydag unrhyw ymyrraeth wyneb yn wyneb.

Mae'n bwysig bod unrhyw ymchwil yn y dyfodol ar effeithiolrwydd darpariaeth ddigidol yn ystyried y cyfraniad a wneir at wella mynediad i ddysgwyr at gyfleoedd. Cwestiwn allweddol i ymchwilio iddo - ac un nad oedd yn rhan o gylch gwaith yr astudiaeth hon - yw a yw ymyriadau digidol yn cefnogi meithrin cysylltiadau â chyflogwyr sy'n decach, yn uwch eu safon ac yn ddyfnach ac, os felly, beth y gellir ei wneud i wella'r broses hon dyfodol? Mae

angen ystyried potensial darpariaeth ddigidol i gyfrannu at weithgareddau broceriaeth hefyd.

## 5.4 Effaith mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yng Nghymru

Er gwaethaf gwaith monitro a gwerthuso cyfyngedig, mae peth tystiolaeth o ran effaith gweithgareddau MMCCh serch hynny. Roedd yr ysgolion a arolygwyd yn arbennig o gadarnhaol ynghylch effaith y gweithgareddau hyn wrth ddatblygu sgiliau mentergarwch a dyheadau dysgwyr, gyda'r mwyafrif yn ystyried eu bod hefyd wedi cael effaith ar gyrhaeddiad dysgwyr. Yr effeithiau cyffredin allweddol a nodwyd ar draws astudiaethau achos oedd cynnydd yn hyder y dysgwyr, eu gwybodaeth am fyd gwaith a'u cymhelliant i wneud cynnydd. Nododd sawl un o'r prosiectau astudiaethau achos hefyd bod y dysgwyr wedi gwneud cynnydd o ran cyrhaeddiad academaidd a sgiliau meddal fel gweithio fel rhan o dîm a chyfathrebu.

Mae'r canfyddiadau'n cysylltu â'r rhai o'r llenyddiaeth, sy'n awgrymu effaith gadarnhaol ar lesiant, hunan-barch a diddordeb dysgwyr mewn dysgu ehangach drwy'r gweithgareddau hyn. Adroddodd yr ysgolion a arolygwyd hefyd fod MMCCh yn gwella partneriaethau yn eu cymunedau ac yn datblygu sgiliau a gwybodaeth y staff. Mae hyn eto'n cysylltu â chanfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth, sy'n gweld cyfleoedd i greu rhwydweithiau personol drwy feithrin cysylltiadau â chyflogwyr i gefnogi myfyrwyr i fyfyrio, archwilio a chael deialog am y byd gwaith.

Tanlinellodd y rhanddeiliaid bwysigrwydd darparu cyfleoedd cynnar i ddysgwyr gael dealltwriaeth o fyd gwaith a datblygu meddylfryd creadigol ac entrepreneuraidd. Mae hyn yn adleisio canfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth, a nododd fod cychwyn yn gynnar yn nodwedd allweddol o ddarpariaeth MMCCh lwyddiannus. Dylai datblygu darpariaeth bellach ar gyfer ysgolion cynradd felly fod yn ganolbwynt i ddull mwy cyson a chydgysylltiedig o ymdrin ag MMCCh.

Roedd y dulliau yr ystyriwyd eu bod wedi gweithio'n dda yn cynnwys gweithgareddau sy'n cyfoethogi ac yn cyd-fynd â meysydd o'r cwricwlwm ar draws ystod o bynciau; cymorth wedi'i deilwra i ysgolion er mwyn datblygu gweledigaeth a strategaeth ar gyfer gyrfaoedd a mentergarwch; cyflwyniadau gan gyflogwyr; prosiectau mentergarwch ar thema benodol; a ffeiriau gyrfaoedd.

**Nodweddion allweddol gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwr**

Gan dynnu ar y canfyddiadau o dair elfen yr astudiaeth hon, mae nodweddion gweithgaredd MMCCh effeithiol yn cynnwys:

- Datblygu rhaglen gydlynol o weithgaredd ar draws yr holl Gyfnodau Allweddol, gan sicrhau bod continwwm o ran y ddarpariaeth ar lefel ysgol gyfan sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm ac sy'n diwallu anghenion y dysgwyr.
- Cael arweinydd gyrfaoedd sy'n meddu ar y cymwysterau a'r profiad priodol;
- Pwyslais ar brofiadau wedi'u personoli ar gyfer dysgwyr unigol;

- Partneriaethau rhwng ysgolion, darparwyr allanol a chynrychiolwyr cyflogwyr lle mae gweledigaeth glir a chyd-ddealltwriaeth o'r hyn y disgwylir ei gyflawni.
- Cydnabyddiaeth ar draws yr ysgol gyfan o werth gweithgareddau MMCCh a gefnogir gan gyfleoedd dysgu proffesiynol i wella dealltwriaeth a darpariaeth ymarferwyr.
- Rheolaeth a chyfathrebu da rhwng cyflogwyr, darparwyr ac ysgolion i ganiatáu ar gyfer partneriaeth lwyddiannus.

## 5.5 Rhwystrau a bylchau yn y ddarpariaeth

Nodwyd nifer o rwystrau i MMCCh drwy'r astudiaeth, sy'n arwain at fylchau yn y ddarpariaeth. Y materion allweddol a nodwyd gan ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg yw'r gofynion ar amser y dysgwyr mewn perthynas â'r cwricwlwm ac arholiadau ynghyd a chanfyddiad bod amharodrwydd ymhlith rhai athrawon i ryddhau dysgwyr ar gyfer gweithgareddau. I leiafrif o ysgolion mae diffyg ymwybyddiaeth ynghylch pa gefnogaeth ac adnoddau sydd ar gael ac anawsterau o ran meithrin cysylltiadau â chyflogwyr lleol hefyd yn rhwystrau, gan ddangos yr heriau i rai ysgolion wrth gynllunio a datblygu darpariaeth. Er bod rhai cyfleoedd dysgu proffesiynol wedi'u datblygu ar gyfer ysgolion uwchradd, bydd angen mwy o ddarpariaeth ar draws ysgolion cynradd ynghyd â'r rhai mewn rolau arbenigol fel ymarferwyr arwain gyrfaoedd. Dylai meithrin cysylltiadau ag ymarferwyr i hyrwyddo eu hymwybyddiaeth o weithgareddau MMCCh, a'u hymrwymiad iddynt, fod yn rhan o'r broses hon.

Mae'r llenyddiaeth yn cysylltu argaeledd adnoddau, a mynediad atynt, ag anghydraddoldebau mewn agweddau ar ddarpariaeth gyda grwpiau difreintiedig o ddysgwyr yn colli cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau MMCCh. Amlygwyd y bwlch penodol hwn yn y ddarpariaeth hefyd gan ysgolion a arolygwyd a nododd ddiffyg cyfleoedd i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r astudiaethau achos yn adran 3 yn dangos dulliau o gynnal gweithgareddau sydd wedi'u targedu at rai o'r grwpiau hyn o ddysgwyr. Tynnodd rhanddeiliaid sylw hefyd at yr angen i ganolbwyntio mwy ar feithrin cysylltiadau â chyflogwyr i gefnogi cyfleoedd dysgu galwedigaethol a seiliedig ar waith er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Er bod rhywfaint o waith gwerthuso gweithgareddau MMCCh yn cael ei wneud yng Nghymru, wedi'i arwain gan Gyrfa Cymru yn benodol, prin yw'r asesiad effaith tymor hwy neu'r gwerthusiad olrhain sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae hyn yn cyfrannu at ddiffyg dealltwriaeth o effaith ymyriadau a sut i fesur llwyddiant MMCCh. Felly mae angen dull gweithredu mwy cyson a hydredol i ddeall y cysylltiad rhwng lefelau ymgysylltiad dysgwyr, cyrchfannau a chyrhaeddiad ynghyd â monitro cefndiroedd cymdeithasol dysgwyr ac ansawdd a maint y ddarpariaeth a'r partneriaethau.

Bydd hyn yn caniatáu i ysgolion, cyflogwyr a dylunwyr rhaglenni ddeall effaith eu gweithgareddau a chefnogi dyluniad egwyddorion MMCCh effeithiol. Gallai data cadarn hefyd chwarae rôl fwy effeithiol wrth ddylanwadu ar bolisi drwy ddangos ei werth a nodi lle mae angen mwy o gefnogaeth ac adnoddau.

## 5.6 Y camau nesaf

Mae canfyddiadau o dair elfen yr astudiaeth yn nodi nifer o ystyriaethau y gallai Llywodraeth Cymru ddymuno eu rhoi ar waith i gefnogi datblygiad parhaus darpariaeth MMCCh ar draws ysgolion yng Nghymru:

- Dylai'r Canllawiau Statudol newydd ar gyfer CWRE a Gwobr Ansawdd newydd Gyrfa Cymru:
    - hyrwyddo'r **adnoddau a'r partneriaethau MMCCh** sydd ar gael,
    - **cefnogi ysgolion** i gysylltu gweithgareddau MMCCh â CWRE,
    - nodi'r manteision ac annog ysgolion yn gryf i **benodi rhywun i fod yn gyfrifol am MMCCh**;
    - ystyried pwysigrwydd **datblygu cyd-ddealltwriaeth o'r hyn y disgwylir i weithgareddau a phartneriaethau MMCCh ei gyflawni** (gweler 2.1.4).
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu **gwell dealltwriaeth o effaith ymyriadau MMCCh** ar lefel ysgol a rhaglen.
    - Dylai Gwobr Ansawdd Gyrfa Cymru annog ysgolion i gynnwys gwerthusiadau yn eu rhaglen CWRE i gefnogi eu dealltwriaeth o effaith gweithgareddau MMCCh.
    - Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi Gyrfa Cymru i werthuso gweithgaredd sy'n gysylltiedig â gyrfaoedd yn fwy systematig, gan eu galluogi i fonitro tueddiadau yng nghyflawniad a dilyniant disgyblion.
    - Dylid ymchwilio i waith monitro, gwerthuso ac olrhain hydredol mewn perthynas ag effaith MMCCh ar ddysgwyr. Gallai hyn wedyn gyfrannu at waith llunio polisïau a chynllunio parhaus sy'n ymwneud â gweithgareddau MMCCh.
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gyrfa Cymru, ysgolion a chynrychiolwyr consortia addysg rhanbarthol i sicrhau bod **dysgu proffesiynol ar gael i arweinwyr cwricwlwm CWRE yn ogystal â staff addysgu ehangach ar draws pob ysgol**.
- Gallai Gyrfa Cymru ystyried ymarferoldeb datblygu fersiwn estynedig o'r **Gyfnewidfa Addysg Busnes ar gyfer ysgolion cynradd**. Gallai hyn gynorthwyo i hyrwyddo gweithgareddau MMCCh.
- Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gyrfa Cymru i ystyried y gwersi a ddysgwyd o brosiectau fel Ysbrydoli i Gyflawni, TRAC a Cynnydd wrth **gefnogi dysgwyr agored i niwed i feithrin cysylltiadau â chyflogwyr**.
- Dylid ystyried gwneud rhagor o ymchwil i ddatblygu gwell dealltwriaeth o **ymyriadau digidol** gan ymchwilio i degwch, ansawdd a dyfnder y gwaith meithrin cysylltiadau â chyflogwyr.

# 6. Atodiad A: Adolygiad llenyddiaeth

Mae'r adran hon yn gosod y cyd-destun ar gyfer yr adolygiad, gan dynnu ar dystiolaeth sydd wedi'i chynnwys mewn llenyddiaeth gyhoeddedig yng Nghymru, gweddill y DU ac yn rhyngwladol.

Yn rhan gyntaf y bennod hon rhoddir trosolwg o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg gyrfaoedd yng nghyd-destun y dirwedd polisi ehangach; mae hefyd yn myfyrio ar bwysigrwydd sicrhau cydraddoldeb ac effaith bosibl gweithgaredd MMCCh effeithiol ar ffyniant economaidd. Mae gweithgareddau mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr a ddarperir yng ngwledydd eraill y DU hefyd yn cael eu hadolygu.

Mae'r llenyddiaeth a adolygwyd yn cynnwys barn cyflogwyr, addysgwyr a dysgwyr a gymerodd ran yn yr ymchwil ac mae'n rhoi cipolwg o'r ystod o weithgareddau MMCCh a ddarperir a'u heffaith; prosesau, systemau a chamau gweithredu ar lefel ysgol sy'n cefnogi'r broses ddarparu'r gweithgaredd; a'r math o ganllawiau a chefnogaeth sydd ar gael i ysgolion. Mae'r bennod hefyd yn cyfeirio at enghreifftiau o arfer da ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys monitro a gwerthuso gweithgareddau mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr a dulliau arloesol o gyflawni mentrau.

## 6.1 Addysg yng Nghymru

Mae strategaeth Llywodraeth Cymru *Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl 2017-2021* yn ymrwymo i ddarparu 'cyngor a chyfarwyddyd annibynnol ansawdd uchel ynghylch gyrfaoedd i bobl ifanc i'w helpu i wneud dewisiadau dysgu cadarn, datblygu eu cymwyseddau rheoli gyrfaoedd a llwyddo yn y byd gwaith' (Llywodraeth Cymru, 2017a tud. 32). Mae'r strategaeth yn ymrwymo i godi safonau addysgu a dysgu a rhoi sylfeini i bobl ifanc ar gyfer cyflawniad gydol oes fel rhan o'r ymgyrch barhaus i sicrhau ffyniant economaidd a chydlyniant cymdeithasol. Mae felly'n rhagweld Cymru ble y bydd angen unigolion sydd 'nid yn unig yn meddu ar ddealltwriaeth dda o lythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol, ond hefyd y sgiliau meddwl beirniadol, y dychymyg a'r cydnerthedd'.

Mae nodau Llywodraeth Cymru sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth hon i asesu cynnydd a bylchau yn y ddarpariaeth, cefnogi tegwch a nodi cyfleoedd newydd i arloesi wrth gyflawni cynnydd addysgol ac economaidd yn darparu cyd-destun pwysig pellach i'r ymchwil hwn. Felly, mae'r gwaith ymchwil hwn yn cefnogi Llywodraeth Cymru i '[f]eincnodi'n effeithiol yng Nghymru a chyda'n partneriaid rhyngwladol a sicrhau bod polisïau'n cael eu llywio gan dystiolaeth a bod y broses o'u rhoi ar waith yn agored i werthuso rheolaidd' (Llywodraeth Cymru, 2017a, tud. 32).

### 6.1.1 Addysg Gyrfaoedd a'r cwricwlwm

Yn 2017 adroddodd Estyn fod gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion, cyflogwyr a sefydliadau eraill wedi dirywio'n sylweddol ers ei adolygiad blaenorol yn 2012 (Estyn, 2017, tud.5; Estyn, 2012). Yn ogystal, nododd Estyn nad oedd gan ysgolion, yn y rhan fwyaf o achosion, brosesau digon trylwyr ar waith i arfarnu effeithiolrwydd cyfraniad partneriaethau

gyda chyflogwyr at gefnogi addysg gyrfaoedd, na meini prawf clir y gallant eu defnyddio i fesur effaith neu'r gwerth am arian a gynigir gan ddarparwyr allanol. (Estyn, 2017, tud. 14).

Adroddodd eraill ganfyddiadau tebyg, er enghraifft gwnaeth y Ffederasiwn Busnesau Bach yng Nghymru sylwadau ar drefniadau digyswllt rhwng addysg a busnes: nododd yr adroddiad nad oedd cysylltiadau'n bodoli mewn llawer o achosion, neu fod gwaith meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yn anghyson ac yn dibynnu ar gymhelliant y cyflogwyr eu hunain (FSB, 2017, tud.1). Gwelwyd datblygu'r cwricwlwm newydd fel cyfle delfrydol i ystyried mesurau i wella cysylltiadau o'r fath, gan ymgorffori darpariaeth i gefnogi gwell dealltwriaeth o yrfaoedd a'r byd gwaith.

Cyhoeddwyd y cwricwlwm newydd ar gyfer Cymru a'r canllawiau cysylltiedig ym mis Ionawr 2020 (Llywodraeth Cymru 2020b). Nodir chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) ac mae gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â byd gwaith (CWRE) yn ymddangos ym mhob un o'r rhain. Nod CWRE yw helpu dysgwyr i ddatblygu ymwybyddiaeth a dyheadau ar draws ystod o ddewisiadau gyrfa, gan helpu i greu gweithlu Cymreig mwy amrywiol sy'n cyfrannu at yr economi, yn y dyfodol. Mae'r cwricwlwm newydd yn canolbwyntio ar bedwar diben craidd, sy'n cynnwys y bydd pob plentyn a pherson ifanc yn '[g]yfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith'.

Un o elfennau allweddol polisïau addysg Cymru fu ffocws ar 'gydadeiladu', gweithio mewn partneriaeth ag ysgolion a'u harweinwyr, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill. Yn ei hymateb i adroddiad Estyn a oedd yn edrych ar bartneriaethau â chyflogwyr mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig (Estyn, 2020), ymrwymodd Llywodraeth Cymru i'r dull cydadeiladol hwn o gyflawni CWRE a 'sicrhau eu bod yn ateb y diben a bod modd eu cyflawni mewn amrywiol sefydliadau addysg' (Llywodraeth Cymru, 2020c, tud. 3). Mae'r dull hwn hefyd yn mynd i'r afael â galwadau cynharach am strategaeth addysg menter ar y cyd (FSB, 2017, tud. 28).

Mewn ymateb i'r her o wella ymgysylltiad dysgwyr â'r byd gwaith, cyflwynwyd newidiadau i Gymhwyster Bagloriaeth Cymru yn 2015. Disodlwyd y gofyniad i ddysgwyr ymgymryd â lleoliad profiad gwaith gan yr her Menter a Chyflogadwyedd (CBAC, 2015, tud. 17). Dyluniwyd y gweithgaredd hwn i gefnogi partneriaethau gyda chyflogwyr mewn ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig wrth ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu sgiliau a phriodoleddau menter a gwella eu cyflogadwyedd.

Aeth Gyrfa Cymru i'r afael â heriau MMCCh yn ei strategaeth drwy anelu at roi dulliau clir a chydlynol ar waith i fusnesau feithrin cysylltiadau â phobl ifanc a chefnogi ysgolion. Roedd hyn yn cynnwys cefnogaeth well i weithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru, cronfa ddata MMCCh y Gyfnewidfa Addysg Busnes, marc ansawdd i gyflogwyr, a'r Marc Llysgennad Busnes i gydnabod partneriaethau rhagorol rhwng busnesau ac ysgolion (Gyrfa Cymru, 2017). Mae Gyrfa Cymru hefyd wedi gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a sefydliadau fel Busnes yn y Gymuned ar y fenter Dosbarth Busnes.

Yn ogystal â rhaglenni cenedlaethol, roedd mentrau'n cael eu treialu ar lefel leol: yn Rhondda Cynon Taf cynhaliwyd peilot dwy flynedd o feincnodau Gatsby o gyfarwyddyd gyrfa da (Gatsby, 2020), gydag 14 o ysgolion uwchradd yn cael eu cefnogi i weithio tuag at y meincnod (Cyngor Rhondda Cynon Taf, 2020).

### 6.1.2 Cefnogi cydraddoldeb mewn addysg

Elfen allweddol o gefnogi darpariaeth gyrfaoedd a mentergarwch effeithiol yw y gall gefnogi mwy o degwch mewn addysg os caiff ei darparu'n effeithiol a'i thargedu at yr unigolion hynny sydd â'r angen mwyaf (FSB, 2017, tud.7). Mae'r nodau hyn yn amlwg wrth i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ddechrau newid diwylliant y rhaglen Prentisiaethau i groesawu amrywiaeth a chynyddu lefelau cyfranogiad grwpiau gwarchodedig (Llywodraeth Cymru, 2016a, tud.19). Mae'r dull hwn yn cysylltu â'r ymrwymiad ehangach a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru i greu o leiaf 100,000 o brentisiaethau o ansawdd uchel i bobl o bob oed fel rhan o'r broses o ddarparu 'sgiliau ar gyfer bywyd... i dorri'r cylch o anfantais ac anghydraddoldeb yn y tymor hir' (Llywodraeth Cymru, 2016b, tud.4).

Mae prentisiaethau yn darparu llwybrau dilyniant ychwanegol i bobl ifanc yn ogystal â bod yn offeryn ar gyfer cefnogi partneriaethau agos rhwng ysgolion, cyflogwyr a'r sectorau addysg bellach ac uwch. Fodd bynnag, mae'r ffocws cynyddol hwn ar brentisiaethau yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi cyd-daro â dirywiad cyson mewn cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill a ddyfernir yng Nghymru (Cymwysterau Cymru, 2020).

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd datblygu poblogaeth fedrus, lle mae pob unigolyn yn cyflawni ei botensial (Llywodraeth Cymru, 2015). Mae'r Cynllun Cydraddoldeb yn rhagweld y bydd sectorau yn gweithio gyda chyflogwyr i ddatblygu cysylltiadau ag ysgolion lleol i ddarparu digwyddiadau cyn-gyflogaeth sy'n canolbwyntio ar rywedd, hil ac anabledd, er enghraifft galwedigaethau STEM.

### 6.1.3 Ffyniant economaidd

Un o flaenoriaethau allweddol polisi Llywodraeth Cymru o ran sgiliau yw datblygu 'sgiliau a werthfawrogir gan gyflogwyr' (Llywodraeth Cymru, 2014a, tud. 5) ac mae'r cynllun gweithredu ar yr economi yn ymrwymo i gefnogi 'diwylliant entrepreneuraidd yng Nghymru, a phennu targedau ar gyfer nifer y myfyrwyr sy'n dechrau cwmnïau ar ôl gadael yr ysgol, coleg a phrifysgol.' (Llywodraeth Cymru, 2017b). Ers i Lywodraeth Cymru weithredu'r camau polisi sydd eu hangen i ddatblygu system sgiliau cynaliadwy yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2014b, tud.2), mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol wedi darparu dirnadaeth dan arweiniad cyflogwyr (SQW, 2019, tud. 6). Mae rhan o'r dull hwn yn cynnwys asesu a pharu sgiliau ag anghenion yr economi i olrhain a rhagweld anghenion sgiliau yn y dyfodol.

Fodd bynnag, yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU, ceir aneffeithlonrwydd a chamgymhariadau sgiliau yng Nghymru (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2019, tud.18) gyda bylchau a phrinder sgiliau o ganlyniad (Swyddfa dros Wyddoniaeth y Llywodraeth, 2017, tud. 56). Er enghraifft, adroddir ei bod yn ofynnol i fwy o bobl astudio STEM a dilyn prentisiaethau technegol er mwyn mynd i'r afael â phrinder sgiliau STEM yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2017c, tud. 59). Felly, mae cysylltiadau rhwng busnesau ac addysg yn

allweddol i gysylltu dysgwyr â chyfleoedd gwaith posibl (CBI/Pearson Education, 2019, tud.29). Mae Cymru'n Gweithio yn cyfrannu at fynd i'r afael â phrinder sgiliau drwy gynorthwyo unigolion i ymgymryd â hyfforddiant ar gyfer swyddi penodol (Llywodraeth Cymru, 2019).

Mae diweithdra ymhlith pobl ifanc yng Nghymru yn is na chyfradd y DU (11.2 y cant o'i gymharu ag 11.6 y cant), ac eto mae'r gyfradd yn sylweddol uwch nag ar gyfer y rhai 16 oed a hŷn (3.6 y cant yng Nghymru a 3.8 y cant ar gyfer y DU) (Llywodraeth Cymru, 2020a). Gall profi gweithgareddau mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr gael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau economaidd unigolyn (Hughes et al., 2016, t. 31). Ar lefel unigol adroddir bod cydberthynas ystadegol arwyddocaol ar draws yr holl fyfyrwyr sy'n cael sgyrsiau am yrfaoedd a chael premiwm cyflog 10 mlynedd yn ddiweddarach (Kashefpakdel a Percy, 2017). Felly, bydd datblygu gwell dealltwriaeth o weithgaredd MMCCh a thystiolaeth o effaith yn helpu i lywio ac arwain y gwaith o ddarparu addysg gyrfaoedd yn ysgolion Cymru yn y dyfodol.

Mae'r adran ganlynol yn rhoi trosolwg o'r gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yn rhanbarthau eraill y DU.

## 6.2 Addysg gyrfaoedd ac MMCCh yn y DU

Adroddodd pobl ifanc yn y DU fod datgysylltiad rhwng dyheadau pobl ifanc a'r swyddi sydd ar gael, a chafwyd adroddiadau hefyd bod y cymorth sydd ar gael i bobl ifanc gyda gyrfaoedd yn gyfyngedig (Rogers et al., 2020, tud.1). Os edrychir ar weithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr ar draws gwledydd eraill y DU, gwneir arsylwadau tebyg i'r rhai a wneir yng Nghymru fodd bynnag, oherwydd yng Nghymru, mae ystod o bolisïau a gweithgareddau cenedlaethol yn cael eu datblygu er mwyn gwella MMCCh ochr yn ochr ag addysg gyrfaoedd.

### 6.2.1 Lloegr

Adroddwyd nad yw mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwr mewn ysgolion wedi'i ddatblygu'n ddigonol, bod diffyg arweinyddiaeth a bod angen gwasanaeth broceriaeth yn Lloegr (Sefydliad Ymchwil Cyflogaeth, 2014, tud. 6). Er mwyn mynd i'r afael â hyn yn 2014 sefydlodd Llywodraeth y DU y Careers and Enterprise Company (CEC) i weithio gyda Phartneriaethau Menter Lleol i gyflogi cydlynwyr i lunio cynlluniau gyrfaoedd a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr (Llywodraeth y DU, 2014). O 2015 ymlaen, mae cynghorwyr y Ganolfan Byd Gwaith wedi gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc mewn ysgolion, i roi cyngor iddynt ar gyfleoedd profiad gwaith, llwybrau i hyfforddeiaethau a phrentisiaethau a'r farchnad lafur leol.

Dilynwyd y mentrau hyn gan strategaeth gyrfaoedd newydd a chynhwysfawr ar gyfer Lloegr (Llywodraeth y DU 2017), a oedd yn cynnwys y nod o alluogi'r *holl bobl ifanc i ddeall yr ystod lawn o gyfleoedd sydd ar gael iddynt, i ddysgu gan gyflogwyr am waith a'r sgiliau sy'n cael eu gwerthfawrogi yn y gweithle ac i gael profiad uniongyrchol o'r gweithle.*(Yr Adran Addysg, 2017, tud.4). Mae'r Strategaeth yn amlinellu bod addysg entrepreneuriaeth yn *elfen bwysig* o ddarpariaeth gyrfaoedd o ansawdd uchel a hefyd yn ymrwymo i ddarparu *rôl*

*hanfodol i gyflogwyr* i ysbrydoli pobl ifanc drwy weithgareddau fel profiad gwaith neu gysgodi, gweithdai neu sgyrsiau (tud.10)

Roedd y mentrau a ddatblygwyd drwy'r Strategaeth yn cynnwys cyflwyno Hybiau Gyrfa a drefnwyd gan y Careers and Enterprise Company. Daeth yr Hybiau â thua 30 o ysgolion ynghyd i gefnogi cydweithio tuag at gyflawni Meincnodau Gatsby a fabwysiadwyd gan yr Adran Addysg fel meincnodau ar gyfer cyfarwyddyd gyrfaoedd da yn Lloegr yn 2017, a disgwylir i bob ysgol weithio tuag at y meincnodau hyn erbyn 2020. Disgwylir i bob dysgwr yn Lloegr gael cysylltiad â chyflogwr o leiaf unwaith y flwyddyn (Adran Addysg, 2017, t.11).

Yn dilyn hynny, cyhoeddwyd adroddiad (CEC, 2018) a oedd yn ymchwilio i lefel y gweithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr mewn addysg yn Lloegr yn erbyn meincnod y llywodraeth ar gyfer ysgolion, sef y dylai pob person ifanc ddod i gysylltiad ag o leiaf un cyflogwr y flwyddyn yn ystod ei gyfnod yn yr ysgol uwchradd a chymryd rhan mewn profiad gwaith. Nododd yr adroddiad fwlch yn nifer y cysylltiadau ac amlygodd bod y gweithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yn fratiog.

Adroddwyd bod y gefnogaeth ychwanegol a ddarparrwyd gan yr Hybiau Gyrfa wedi arwain at well rhwydweithiau a chysylltiadau â chyflogwyr (Hutchinson et al., 2019). Yn dilyn y llwyddiannau hyn, ehangwyd y model, gyda buddsoddiad arall o £2.5 miliwn (Llywodraeth y DU, 2019). Canfu gwaith olrhain dysgwyr a oedd yn meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yn Lloegr fod 80 y cant o bobl ifanc bellach yn cwrdd â chyflogwr bob blwyddyn (Percy a Tanner, 2020, t. Iv).

**Astudiaeth achos: Inspiring the Future**

Gwefan yw Inspiring the Future lle mae ysgolion, colegau a gwirfoddolwyr o fyd gwaith yn Lloegr yn cysylltu â'i gilydd. Mae'n seiliedig ar y cysyniad o baru pobl ar-lein, gan ddefnyddio meddalwedd a ddefnyddir gan gwmnïau blaenllaw ar gyfer siopa ar-lein, er mwyn darparu cyfleoedd rhyngweithio am ddim rhwng ysgolion a'r byd gwaith. Mae gwirfoddolwyr o wahanol broffesiynau yn addo gwirfoddoli am awr y flwyddyn mewn ysgol neu goleg gwladol yn yr ardal lle maen nhw'n byw neu'n gweithio i siarad â phobl ifanc am eu swydd a'u llwybr gyrfa. Yn ogystal, gall gwirfoddolwyr ddewis nifer o feysydd arbenigedd a allai fod o ddiddordeb i fyfyrwyr, megis sut mae mathemateg yn cael ei defnyddio yn y gwaith, llythrennedd ariannol, ieithoedd, neu beirianneg a thechnoleg. Mae athrawon yn dewis ac yn gwahodd pobl sy'n diwallu anghenion eu myfyrwyr orau o ystod o sectorau a phroffesiynau.

Lansiwyd dwy ymgyrch gyfochrog. Cafodd y prosiect ei ymestyn i ysgolion cynradd. Mae Primary Futures yn gweithio ar yr un egwyddor, ond mae'n targedu disgyblion mewn ysgolion cynradd. Mae'r ymgyrch Inspiring Women yn cysylltu menywod a merched sy'n gweithio mewn ysgolion gyda'r nod o amlygu merched a menywod ifanc i'r amrywiaeth eang o rolau sydd gan fenywod er mwyn ehangu eu gorwelion a bod yn sail i'w huchelgeisiau.

### 6.2.2 Gogledd Iwerddon

Nododd adolygiad annibynnol o gyfarwyddyd gyrfaoedd yng Ngogledd Iwerddon yn 2014 yr angen am fframwaith sicrwydd ansawdd clir ar gyfer gyrfaoedd, pwysigrwydd mynediad at gyfarwyddyd gyrfaoedd diduedd gan ddarparu gwybodaeth hygyrch a chywir ac arwyddocâd partneriaethau cryf â chyflogwyr drwy ddatblygu strategaeth meithrin cysylltiadau â chyflogwyr (Panel Adolygu Gyrfaoedd, 2014, tud. 43). Amlygodd adolygiad arall o weithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr ddiffyg dull strategol, wedi'i gynllunio pan oedd ysgolion yn gweithio gyda chyflogwyr (KPMG, 2014, tud. 18).

Cyfrannodd yr adolygiadau hyn at ddatblygu strategaeth addysg gyrfaoedd Gogledd Iwerddon yn 2016. Yr ymrwymiadau canlynol oedd prif strwythur y strategaeth:

- atebolrwydd a sicrhau ansawdd;
- e-ddarpariaeth a gwybodaeth am y farchnad lafur;
- profiad gwaith;
- cyngor diduedd;
- cofnodi cyflawniadau, gan roi blaenoriaeth i gynyddu cyfranogiad cyflogwyr.
  (Yr Adran Cyflogaeth a Dysgu a'r Adran Addysg, 2016, tud. 8; tud.35).

Sefydlwyd Fforwm Cynghori ar Yrfaoedd yn cynnwys cynrychiolwyr addysg, busnes, rhieni, y gymuned a'r sector gwirfoddol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r strategaeth. Fodd bynnag, oherwydd gostyngiadau mewn cyllidebau, mae rôl cynghorwyr gyrfa wedi bod yn lleihau, a dim ond yn ddiweddar y dechreuodd yr ymgyrch i feithrin cysylltiadau rhwng athrawon â diwydiant. Mae hyn felly'n golygu bod amrywiad eang ar hyn o bryd yn lefel y gweithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwr rhwng ysgolion (OECD, 2019, tud. 66-69).

### 6.2.3 Yr Alban

Mae strategaeth gyrfaoedd newydd Llywodraeth yr Alban yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau llwybr clir i ddysgwyr ac arwyddocâd rhannu data. Mae heriau'n ymwneud ag anghydraddoldeb a'r farchnad lafur sy'n newid yn gyson yn golygu y credir bod hyblygrwydd mewn cyfarwyddyd gyrfaoedd yn hanfodol i system yrfaoedd lwyddiannus (Llywodraeth yr Alban, 2020, tud. 4). Eto, mae'r ddarpariaeth gwasanaethau gyrfaoedd yn yr Alban yn dameidiog ac mae'n cynnwys ystod o ddarparwyr. Serch hynny, mae pwysigrwydd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yn y broses hon yn sylweddol ac roedd strategaeth gynharach i gefnogi datblygiad y gweithlu ifanc yn annog meithrin cysylltiadau â chyflogwyr (Llywodraeth yr Alban, 2104, tud. 27).


Mae'r Safon Addysg Gyrfaoedd (3-18) yn elfen allweddol o'r strategaeth hon ac mae'n cyflwyno hawliau pobl ifanc o ran gyrfaoedd a disgwyliadau darparwyr, a chyflogwyr a rhieni (Education Scotland, 2015a, tud. 12). Mae ystod o ganllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth yr Alban ar feithrin cysylltiadau â chyflogwyr, yn cynnwys fframwaith i gefnogi gwerthuso a gwella a phecyn cymorth i ysgolion er mwyn cefnogi datblygu'r gwaith o feithrin cysylltiadau â chyflogwyr (Education Scotland, 2020). Ar hyn o bryd yr Alban yw'r unig wlad yn y DU sy'n cynnig elfen o brofiad gwaith safonol i bobl ifanc yn yr ysgol ac mae hyn yn rhoi'r Alban mewn sefyllfa gref i gryfhau gweithgaredd MMCCh ymhellach (Developing thte Young Workforce Glasgow, 2018, tud. 8).

Mae partneriaethau rhwng ysgolion a chyflogwyr yn cael eu blaenoriaethu yn yr Alban, gyda dogfennau canllaw yn cael eu cyhoeddi sy'n targedu cefnogaeth i ysgolion, cyflogwyr, a grwpiau rhanbarthol ac awdurdodau lleol (Education Scotland, 2015b). Cyflwynir cynigion ynghylch sut y gall partneriaethau gefnogi ysgolion, y manteision i gyflogwyr, y weledigaeth ar gyfer unrhyw bartneriaethau a dulliau o sefydlu partneriaethau rhwng ysgolion a chyflogwyr:

- Adeiladu ar bartneriaethau presennol;
- Cael aelod o staff enwebedig ac enw cyswllt wrth gefn, sy'n cael amser neilltuedig er mwyn datblygu partneriaethau;
- Nodi cysylltiadau a fydd yn cefnogi ac yn hwyluso partneriaethau â chyflogwyr;
- Cynnwys rhieni/gofalwyr yn y gwaith o ddatblygu partneriaethau;
- Ystyried anghenion pob dysgwr;
- Cynnwys ysgolion cynradd a cholegau cysylltiedig os yn bosibl;
- Datblygu cyd-ddealltwriaeth o'r disgwyliadau ar gyfer y partneriaethau.

(Education Scotland, 2015, tud. 5)

Awgrymir y bydd partneriaethau'n 'esblygu a gwella', ac y bydd eglurder ynghylch rolau a deilliannau arfaethedig yn bwysig wrth sicrhau ansawdd yn y berthynas rhwng ysgolion a chyflogwyr. Mae angen myfyrio ar effaith ac mae gan awdurdodau lleol rôl o ran cefnogi ansawdd. Mae'r canllawiau hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd ystyried amrywiaeth a chydraddoldeb, ac y dylid datblygu dealltwriaeth a sgiliau ar gyfer gwaith o'r blynyddoedd cynnar ymlaen (Education Scotland, 2015, tud. 6). Mae fframwaith i gefnogi gwerthuso a gwella partneriaethau rhwng ysgolion a chyflogwyr hefyd yn rhan o'r gefnogaeth sydd ar gael. Er mwyn cofnodi'r ystod o weithgaredd partneriaeth a mesur effaith, cynigir tri diffiniad eang o'r mathau o weithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwr ar 'gontinwwm cyfranogi' (Ffigur 6.1).




Ffigur 6.1 *Categorïau gweithio mewn partneriaeth rhwng ysgolion a chyflogwyr.*

(Wedi'i addasu o 'A framework to support evaluation and improvement' (Education Scotland, 2020)).

Gan gyfeirio at Ffigur 6.1, derbynnir bod perthnasoedd anuniongyrchol â chyflogwyr yn debygol o fodoli o dan drefniadau cydweithio a dylanwadu, ac y dylid annog ystod eang o gyfleoedd lleol ac arbenigol. Mae mesur cynnydd hefyd yn cael ei ystyried, gyda chraffu allanol i'w gynnwys. Byddai ysgolion yn hunanwerthuso eu partneriaethau gan ddefnyddio'r continwwm (Education Scotland, 2020).

Er mwyn cefnogi ysgolion a chyflogwyr i ddatblygu partneriaethau a myfyrio ar eu heffeithiolrwydd mae pecyn offer strategol ar gael, sy'n cynnwys offer dysgu (sut y gall mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr helpu ysgolion a dysgwyr); offer myfyrio (i gefnogi myfyrio ar MMCCh) ac offer datblygu (helpu i ddatblygu cynnig MMCCh i ysgolion) (Education Scotland, 2020).

Ymhlith yr enghreifftiau mae offeryn rheoli i ddisgyblion er mwyn cynllunio eu gweithgaredd meithrin cysylltiadau ac adolygu eu dysgu a datblygiad eu gyrfa: Argymhellodd adolygiad o gyfleoedd profiad gwaith yng Nghrŵp Datblygu'r Gweithlu Ifanc yn Midlothian a gynhaliwyd gan Rocket Science y dylid cyflwyno dull apelgar, hawdd ei ddefnyddio o gynllunio, cofnodi ac adolygu cynnydd disgyblion sy'n helpu disgyblion i ddylunio a rheoli eu dilyniant a gwneud y mwyaf o'r hyn y maent yn ei ddysgu ohono o ran sgiliau cyflogadwyedd '(DYW 2019). Gall yr offeryn fod ar ffurf papur neu lyfr gwaith digidol lle y gall disgyblion fyfyrio ar y cysylltiadau y maent wedi'u meithrin â chyflogwyr a'u dyheadau gyrfa, olrhain cynnydd sgiliau cyflogadwyedd penodol, a chynllunio eu datblygiad gyrfa yn y dyfodol.

Mae fframwaith i danategu'r holl weithgareddau partneriaeth cyflogwyr hefyd yn bodoli, sy'n nodi'r math o weithgareddau y dylid eu cynnig ar gyfnodau pontio neu gamau addysg penodol. Mae'r fframwaith hwn yn seiliedig ar ddeilliannau dysgwyr a safonau Addysg Gyrfaoedd ac mae'n pwysleisio continwwm cyfranogi (Addysg yr Alban, 2020). Mae'n bwysig nodi bod yr holl ddogfennau allweddol i gefnogi cynllunio, gweithredu a gwerthuso gweithgareddau mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr a phartneriaethau ysgolion ar gael o fewn un adnodd (Education Scotland, 2020).


## 6.3 Negeseuon allweddol o'r llenyddiaeth

Mae sawl adolygiad llenyddiaeth allweddol yn ymchwilio i dystiolaeth ynghylch gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr. Mae'r drafodaeth ganlynol yn cyflwyno trosolwg o'r adolygiadau allweddol hyn (Tabl 6.1) ac mae'n cynnwys tystiolaeth o brosesau, systemau a chamau ar lefel ysgol ynghyd â'r arweiniad a'r gefnogaeth sydd ar gael i ysgolion er mwyn cynnal gweithgaredd effeithiol yn ymwneud â mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr. Mae gwerthusiadau ac adroddiadau sy'n benodol i weithgareddau a ddarperir yng Nghymru hefyd wedi'u cynnwys.

*Tabl 6.1: Adolygiadau llenyddiaeth allweddol ar addysg gyrfaoedd/meithrin cysylltiadau â chyflogwyr.*

| Adolygiad llenyddiaeth | Cynnwys |
|---|---|
| Burge, B., Wilson, R. a Smith-Crallan, K. (2012) *Employer involvement in schools: a rapid review of UK and international evidence*. Slough: NFER. | Adolygiad o 54 o erthyglau a gynhaliwyd fel rhan o Raglen Ymchwil NFER - From Education to Employment. Y nod oedd canfod yr hyn sy'n hysbys am ymwneud cyflogwyr ag ysgolion yn y DU ac yn |

| | |
|---|---|
| | rhyngwladol, yn enwedig o ran y rhai sydd mewn perygl o ddod yn NEET. |
| Hughes, D., Mann, A., Barnes, S-A, Baldauf, B. a McKeown, R. (2016) *Careers education: International literature review*. Llundain: Education Endowment Foundation and Bank of America Merrill Lynch. | Adolygiad llenyddiaeth a oedd yn seiliedig ar 73 o astudiaethau ar addysg gyrfaoedd a 23 ar gyflogaeth ran-amser gan ymchwilio i effaith addysg gyrfaoedd ar sgiliau a deilliannau rhwng 1996 a 2016. Daw mwyafrif y dystiolaeth o'r Unol Daleithiau. |
| Mann, A., Rehill, J. a Kashefpakdel, E.T. (2018) *Employer engagement in education: Insights from international evidence for effective practice and future research*. UK: Education and Employers Research and Education Endowment Foundation. | Roedd yr adolygiad hwn yn cyflwyno'r cysyniad o feithrin cysylltiadau â chyflogwyr mewn addysg fel offeryn strategol. Mae gwahanol fathau o weithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr, deilliannau a nodweddion allweddol ymarfer llwyddiannus hefyd yn cael eu hadolygu ar sail tystiolaeth sy'n deillio o 42 o erthyglau. Cynigir meysydd y mae angen ymchwilio ymhellach iddynt hefyd. |
| DYW (2019) *The impact of employer engagement with schools*. | Adolygiad llenyddiaeth rhyngwladol wedi'i lywio gan 62 o astudiaethau; mae'n cysylltu'n agos â'r adolygiad gan Mann et al., ond mae hefyd yn cynnwys ffocws ar Addysg Gyrfaoedd yn yr Alban. |
| OECD (2019) Musset, P a Mýtna Kureková, L Working it Out: Career Guidance and Employer Engagement | Mae'r papur hwn yn edrych ar yr angen am gyfarwyddyd gyrfaoedd yng ngwledydd yr OECD a'r ffordd y caiff ei ddarparu. Mae'n ymchwilio i nodweddion arfer da o ran cyfarwyddyd gyrfaoedd, gan gynnwys yr angen i ysgolion ddechrau'n gynnar a rôl hanfodol dod i gysylltiad â byd gwaith. |





Mathau o weithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr. (Burge et al., 2012, tud. 10).

Mae hefyd yn bosibl ystyried gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwr o'r fath drwy gysylltu gweithgareddau â phrofiadau addysgu a dysgu penodol myfyrwyr. Mae Ffigur 6.2 yn darparu dehongliad o wahanol rolau gweithgareddau meithrin cysylltiadau â chyflogwyr ar gyfer dysgwyr ac ysgolion.

Adroddir bod gweithgaredd meithrin cysylltiadau â chyflogwyr mewn ysgolion yn bodoli ar dair lefel (Ffigur 6.3).

Ffigur 6.3: Rolau gwahanol meithrin cysylltiadau â chyflogwyr ar gyfer dysgwyr.




(Addaswyd o Stanley a Mann, 2014, dyfynnwyd yn Mann et al., 2018, tud. 69).

Gall y dull hwn o gynnal gweithgareddau mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr ar gyfer ysgolion ganiatáu archwiliad dyfnach o ymarfer effeithiol. Er enghraifft, bwriedir i gategoreiddio'r gweithgareddau meithrin cysylltiadau yn y fath fodd fod yn ymarferol - drwy ganiatáu i ysgolion bennu'r rhesymeg dros weithgareddau dethol; yn gynhwysfawr - yn berthnasol i'r holl weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda dysgwyr; a chofnodi tystiolaeth - mae'r deilliannau'n cael eu gosod o fewn y llenyddiaeth werthuso (Mann et al., 2018, tud. 37).

**Rhaglen fentora Addysg a Hyfforddiant Galwedigaethol (VET) yn Nenmarc**

O ran ennyn diddordeb pobl ifanc wrth symud ymlaen tuag at gyflogaeth yn Nenmarc mae myfyrwyr VET yn gweithredu fel modelau rôl ac yn ymweld ag ysgolion uwchradd is i hyrwyddo VET drwy ymgyrch a gychwynnwyd ac a arweinir gan Undeb Myfyrwyr Ysgol Galwedigaethol a Thechnegol Denmarc. Mae'r modelau rôl yn ymweld ag ysgolion ac yn cyflwyno eu profiadau eu hunain ynghylch pam y gwnaethant ddewis VET, eu hyfforddiant a'r posibiliadau sydd ganddynt yn y farchnad lafur ac ar gyfer dilyniant mewn addysg a hyfforddiant. Mae'r ymgyrch yn adlewyrchu partneriaeth rhwng ysgolion VET, cyflogwyr ac ysgolion uwchradd is i gynyddu cysylltiadau uniongyrchol rhwng myfyrwyr iau a chyfoedion hŷn sy'n gallu darparu dirnadaeth bersonol i lwybrau VET.

(Ffynhonnell: adroddiad OECD, 2019)

### 6.3.1 Darparu gweithgaredd MMCCh effeithiol

Mae gan fentergarwch ac meithrin cysylltiadau â chyflogwyr y potensial i wella dealltwriaeth pobl ifanc o swyddi a gyrfaoedd, gan roi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt ym myd gwaith a'u paratoi'n well i nodi llwybrau dilyniant gyrfa drwy gymryd rhan mewn gweithleoedd. Adroddir bod pobl ifanc yn fwy tebygol o ymddiried yn y wybodaeth am alwedigaethau penodol a gânt o brofiad uniongyrchol gyda chyflogwyr: maent yn darparu dirnadaeth y mae myfyrwyr yn teimlo'n gyffredinol ei bod yn ddibynadwy ac yn eang ei gwmpas o gymharu â chyngor gan rieni a ffrindiau (a ystyrir yn ddibynadwy ond yn gul o ran ei gwmpas) neu'r cyfryngau/rhyngrwyd (a ystyrir yn annibynadwy ond yn eang eu cwmpas) (Musset a Kurekova, 2018 tud. 69).

**Meithrin cysylltiadau â chyflogwyr: Yr Almaen**

Mae SchoolPLUS (SchulePLUS) yn rhwydweithio ysgolion a busnesau o bob cwr o'r Almaen. Ymhlith pethau eraill, mae myfyrwyr yn ymuno â busnesau, busnesau newydd a phrifysgolion i drefnu digwyddiadau amrywiol sy'n anelu at ddarparu cyfarwyddyd gyrfa iddynt. Mae SchulePLUS yn rhedeg platfform y gall busnesau ledled yr Almaen ei ddefnyddio i hysbysebu hyfforddeiaethau i ddisgyblion. Mae'r rhaglen JUNIOR yn cynnig cyfarwyddyd gyrfaoedd, yn helpu disgyblion i feithrin sgiliau allweddol, yn hyrwyddo parodrwydd am hyfforddiant galwedigaethol a chyfleoedd gyrfa ymysg pobl ifanc, ac yn trosglwyddo gwybodaeth fusnes. Gellir integreiddio'r rhaglen i'r cwricwlwm. Gall ysgolion hefyd gynnig y rhaglen fel rhan o weithgaredd grŵp ar ôl ysgol.

Ffynhonnell: Development of entrepreneurship competence | EACEA National Policies Platform (europa.eu)

Credir bod llawer o nodweddion sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal gweithgaredd effeithiol mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr gydag ysgolion (gweler Tabl 6.2). Mae rhai o'r nodweddion allweddol hyn yn canolbwyntio ar natur y berthynas ei hun rhwng yr ysgol a'r cyflogwr, megis gweledigaeth glir o'r hyn y disgwylir ei gyflawni, gyda chyfathrebu da rhwng yr holl bartneriaid. Mae elfennau eraill yn ymwneud yn benodol â natur y gweithgareddau a ddarperir, er enghraifft, amlder meithrin cysylltiadau a dilysrwydd y gweithgareddau.

*Tabl 6.2: Nodweddion gweithgaredd effeithiol ar gyfer meithrin perthnasoedd a chysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr.*

| Perthnasoedd a meithrin cysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr | |
|---|---|
| **Dilys** - cysylltiadau uniongyrchol â byd gwaith | **Gwerthfawr** - pan fydd dysgwyr yn tystio i'w gwerth mae deilliannau gwell yn dilyn |
| **Rheolaidd** - o leiaf bedwar cyfarfod cofiadwy drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol | **Wedi'i bersonoli** - dylid targedu'r rheini sydd â mynediad cyfyngedig i rwydweithiau sy'n gysylltiedig â gwaith |
| **Gweledigaeth** glir o'r hyn y mae pawb eisiau ei gyflawni | **Hyblygrwydd** - mae gan weithgareddau amrywiol botensial |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | i wella deilliannau ar gyfer gwahanol fathau o ddysgwyr |
| | **Cyfathrebu** da ymhlith partneriaid | | Canolbwyntio ar y **cwricwlwm** |
| | Gweithio mewn **partneriaeth** | | Rhaglen sydd **wedi'i strwythuro'n dda** |
| | **Ymrwymiad, cydweithrediad** ac arweinyddiaeth ar draws yr holl randdeiliaid | | Ystyriaeth o **flaenoriaethau rhanbarthol,** economaidd a datblygu |
| | **Amser** i adeiladu perthnasoedd ac ar gyfer datblygiad proffesiynol | | **Ymyrraeth gynnar** - dechrau yn yr ysgol gynradd |

(DYW, 2019, tud. 42; Mann et al., 2018, tud. 72; Burge et al., 2012, tud. 22)

Gan ddefnyddio tystiolaeth arolygu ac ymweliadau wedi'u targedu â 23 o ysgolion uwchradd a dwy ysgol arbennig y gwyddys eu bod yn gweithio gyda chyflogwyr, mae Estyn yn tynnu sylw at nodweddion ysgolion sydd â chysylltiadau effeithiol â chyflogwr, ac yn dod i'r casgliad bod yr ysgolion hyn yn arddangos y nodweddion canlynol;

- Gweledigaeth ac ymrwymiad cryf gan uwch arweinwyr;
- Dysgwyr yn cymryd rhan mewn profiadau cysylltiedig â byd gwaith sy'n effeithio ar eu llesiant, eu sgiliau cyflogadwyedd a'u dewisiadau gyrfa;
- Cysylltiadau cryf, pwrpasol â chyflogwyr;
- Defnyddio a datblygu staff yn briodol sy'n adnabod eu dysgwyr a'u dyheadau gyrfa, ac sy'n deall sut i baratoi dysgwyr ar gyfer byd gwaith;
- Defnyddio gwybodaeth am y farchnad lafur ac olrhain data i ddeall yr economi leol;
- Gwerthuso partneriaethau â chyflogwyr;
- Partneriaethau o ansawdd uchel gyda darparwyr eraill, mentrau cenedlaethol ac meithrin cysylltiadau â rhieni.

(Estyn, 2020, tud. 13)

**Dysgu proffesiynol: Profiad Gwaith i Athrawon**

Rhoddodd ysgolion uwchradd yn Nottingham, Derby a'r gogledd ddwyrain gyfle i athrawon gysylltu â chyflogwyr lleol i ffurfio prosiectau wedi'u seilio ar ddiwrnod profiad gwaith. Rhoddodd y profiadau gwaith gipolwg i athrawon Blwyddyn 8 ar fyd gwaith a'r cyfleoedd gyrfa sydd ar gael mewn busnesau lleol ac enghreifftiau o sut mae eu maes pwnc yn cael ei ddefnyddio yn y gweithle. Roedd y diwrnod profiad gwaith yn cael ei reoli gan y cyflogwr ac roedd yn amrywio ar draws pynciau. Ar ôl y profiad gwaith undydd mae athrawon yn cwblhau prosiect 6 wythnos yn yr ysgol lle mae'r myfyrwyr yn dysgu mwy am y cyflogwr lleol yr ymwelodd yr athro ag ef. Yna bydd myfyrwyr yn datblygu cyflwyniad byr am y cyflogwr naill ai i'r cyflogwyr eu hunain neu i grŵp o'u gymheiriaid.

Ffynhonnell: Give Yourself the Edge. Evaluation Report (2018)

Fodd bynnag, er bod y llenyddiaeth yn nodi'r ffactorau sy'n hanfodol ar gyfer gweithgaredd llwyddiannus yn ymwneud â mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr, credir bod diffyg tystiolaeth gadarn ar effaith cyfranogiad cyflogwyr ar ddeilliannau fel cyflawniad a chyrchfannau ôl-16 (Burge, 2012, tud. 4). Serch hynny, nodir y deilliannau cadarnhaol canlynol i ddysgwyr o ganlyniad i berthnasoedd cyflogwyr ag ysgolion.

- Gwell sgiliau galwedigaethol, gwybodaeth a dealltwriaeth, e.e. gwell dyheadau gyrfa, gwybodaeth am ddiwydiannau penodol;
- Gwell deilliannau academaidd a dysgu, e.e. dealltwriaeth ddyfnach o bynciau penodol, integreiddio theori ac ymarfer yn well mewn pynciau;
- Mynd i'r afael ag iechyd a llesiant, e.e. gwell hunan-barch
- Mwy o fwynhad a chysylltiad, e.e. gwell presenoldeb, perthnasoedd cadarnhaol â mentoriaid;
- Gwell cyfleoedd cyflogaeth a chyfleoedd ar gyfer enillion, e.e. creu rhwydweithiau personol.

(Burge et al., 2012, tud. 26).

Adroddir bod y llenyddiaeth ar astudiaethau lled-arbrofol ac arbrofol ar addysg gyrfaoedd yn wan, ac nad yw rhai ymyriadau wedi cael eu gwerthuso (Burge et al., 2012; Hughes et al., 2016, tud. 3). Felly, gallai profi effaith gwahanol ymyriadau gan ddefnyddio hap-dreialon rheoledig helpu i nodi gweithgareddau effeithiol (Dumitriu, 2020, tud.28). Ymhlith y meysydd lle y credir bod angen rhagor o ymchwil mae; cefndiroedd cymdeithasol y derbynyddion, ansawdd a swm y gweithgareddau, y deilliannau cyffredinol y mae disgwyl i fentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwr gyfrannu atynt a natur y newid mewn hunanganfyddiad sy'n deillio o ryngweithio â'r byd gwaith (Mann et al., 2018 , tud. 73).

Mae rhai bylchau eraill yn y llenyddiaeth yn cynnwys; sut y gall addysg gyrfaoedd helpu i roi'r hwb mwyaf i gyflawniad academaidd; addysg gyrfaoedd wedi'i phersonoli a'i thargedu; addysg gyrfaoedd a systemau ar gyfer olrhain dilyniant myfyrwyr; pwysigrwydd cyfalaf cymdeithasol a diwylliannol fel adnodd i ysgolion (Hughes et al., 2016, tud. 57). Er yr adroddir bod bylchau o'r fath yn y llenyddiaeth, nodir hefyd bod y llenyddiaeth yn gyson o ran adrodd ar fanteision mentergarwch a meithrin cysylltiadau rhwng cyflogwyr a dysgwyr a nodir nodweddion ymarfer addysg gyrfaoedd arbennig o effeithiol (Mann et al., 2018, t. 6). Mae'n bosibl tynnu cymhariaeth â rhai o nodweddion allweddol mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwr a drafodwyd o'r blaen yn Nhabl 6.2;

- **myfyrio ar yrfa** - meddwl yn bendant am eich cymhelliant a'ch galluoedd eich hun, hunanreoleiddio, hunanbenderfyniad, a gwytnwch i ymdopi â rhwystrau annisgwyl;
- **ymchwilio i yrfa** - rhoi siâp i'ch llwybr gyrfa eich hun drwy ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer astudio neu weithio;
- **camau gweithredu ar yrfa** - cyfleoedd i wneud synnwyr o'r hyn a ddysgwyd o ymyriadau gwahanol a gweithredu ar hynny;
- **rhwydweithio** - adeiladu a chynnal rhwydwaith o gysylltiadau allweddol;
- **amgylchedd dysgu** - ysgogi profiadau bywyd go iawn gyda gwaith a deialog am y profiadau hyn;

- **deialog am yrfa** - mae pobl ifanc yn cael sgyrsiau ystyrlon gydag athrawon, rhieni neu ofalwyr, cyflogwyr a gweithwyr, cyn-fyfyrwyr, a gweithwyr proffesiynol datblygu gyrfa hyfforddedig a chymwys; a
- **sgyrsiau am yrfa yn y gweithle** - rhoi cyfle i fyfyrwyr ddod i gysylltiad â sefyllfaoedd bywyd go iawn a chael profiadau ohonynt.

(Hughes et al., 2016, tud. 56).

Cefnogir y nodweddion hyn gan eraill; dywed Mann et al. (2018) fod pedwar deilliant allweddol yn deillio o fentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr i bobl ifanc, a bod y gweithgareddau wedi'u bwriadu i:

- wella dealltwriaeth o swyddi a gyrfaoedd;
- darparu'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol gan y farchnad lafur gyfoes;
- darparu'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer pontio'n llwyddiannus o'r ysgol i'r gwaith
- cyfoethogi addysg a bod yn sail i gyrhaeddiad.

(Mann et al., 2018, tud. 5).

Mae eraill yn ymchwilio i oblygiadau ymarferol darparu gweithgareddau effeithiol yn ymwneud â mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr mewn ysgolion ac mae Tabl 6.3 yn crynhoi goblygiadau ymarferol posibl y mae angen mynd i'r afael â hwy i helpu i gynyddu effaith gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr mewn ysgolion.

*Tabl 6.3: Goblygiadau ymarferol gweithgaredd effeithiol ar gyfer meithrin cysylltiadau â chyflogwyr.*

| Arfer da o ran meithrin cysylltiadau â chyflogwyr a goblygiadau ymarferol |
|---|
| **Dechrau'n gynnar**: mae'r gweithgareddau sy'n debygol o fod o fudd i ddysgwyr iau yn cynnwys y rhai sy'n archwilio'r berthynas rhwng dysgu yn yr ysgol a'r byd gwaith; dealltwriaeth o swyddi a herio stereoteipiau. |
| **Dilysrwydd**: dylid cysoni gweithgareddau â nodweddion a thueddiadau allweddol yn y farchnad lafur leol a dylid datblygu ymweliadau â'r gweithle gyda chyflogwyr yn y sectorau twf. |
| **Cyswllt parhaus**: dylid annog cyflogwyr i ddatblygu partneriaethau tymor hir a pharhaus. Gallai canllawiau ddarparu strwythur o ran pryd yn ystod taith y dysgwr y mae gweithgareddau penodol meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yn fwyaf buddiol. |
| **Gweithgareddau amrywiol**: bydd perthnasoedd ag ystod eang o gyflogwyr, gan gynnwys y rhai o wahanol feintiau, yn cyfrannu at ddysgwyr yn dod i gysylltiad ag ystod o yrfaoedd ac yn cael dealltwriaeth o'r farchnad lafur. |
| **Teilwra gweithgareddau**: bydd cynnig ystod o weithgareddau o fudd i wahanol fathau o ddysgwyr. |
| **Ansawdd gweithgareddau**: gallai canllawiau ar gyfer ysgolion a chyflogwyr roi sicrwydd ansawdd ynghylch gweithredu gweithgareddau. |
| **Offeryn rheoli meithrin cysylltiadau â chyflogwyr**: rhoi cyfle i ddysgwyr fyfyrio ar eu cysylltiadau â chyflogwyr a'u dyheadau gyrfa. |
| **Manteision i fusnesau**: gallai cyfranogiad mewn ysgolion gael ei gymell drwy hysbysebu sut y gall gweithgareddau ddatblygu sgiliau meddal gweithwyr a gwella enw da sefydliadau. |

(Addaswyd o DYW, 2019, tud. 42-49).

### 6.3.2 Mathau o weithgareddau MMCCh

Er bod rôl mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwr yn cael ei chydnabod fel rôl hanfodol, mae angen i weithgareddau fod yn effeithiol, yn effeithlon ac yn deg a rhaid gallu gweld tystiolaeth ohonynt (Mann et al., 2020, tud. 42). Er enghraifft, mae angen i unrhyw weithgaredd meithrin cysylltiadau baru'r dysgwyr â'r cyflogwr mwyaf priodol, gall system effeithlon ddatblygu drwy ddefnyddio rhwydweithiau cyflogwyr sydd eisoes yn bodoli, gall mynediad cyfartal wella'r cyfalaf cymdeithasol gan sicrhau mynediad teg i bob dysgwr, a chyfleoedd i ddatblygu data hydredol i ddarparu dealltwriaeth ddefnyddiol o effaith gwahanol weithgareddau MMCCh.

Mae datblygu gwybodaeth a sgiliau yn ffocws i rai gweithgareddau mewn ysgolion cynradd, gyda chyfleoedd eraill wedi'u cynllunio i ddylanwadu ar agwedd a dyhead. Fodd bynnag, yn yr ysgol uwchradd, mae'r gweithgareddau a ddarperir yn canolbwyntio mwy ar gyflawni deilliannau economaidd (Mann et al., 2018, tud. 4).

Fel gweithgaredd allweddol mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwr, mae profiad gwaith yn darparu ffocws penodol ar gyfer peth gwaith ymchwil. Daeth adolygiad o lenyddiaeth ynghyd ag ymchwil sylfaenol gydag ymarferwyr ac arbenigwyr i'r casgliad bod angen y camau allweddol canlynol i gefnogi profiad gwaith effeithiol;

1. Paru disgyblion â chyfleoedd sy'n eu hymestyn yn briodol;
2. Amlinellu manteision derbyn pobl ifanc ar brofiad gwaith;
3. Cefnogi cyfleoedd ar gyfer profiad gwaith drwy gydol y flwyddyn academaidd;
4. Cynyddu mynediad myfyrwyr ôl-16 i brofiad gwaith;
5. Helpu disgyblion i baratoi ar gyfer profiad gwaith a rhoi adborth arno;
6. Cefnogi rhyngweithio dro ar ôl tro â chyflogwyr;
7. Cefnogi cyflogwyr a busnesau sy'n derbyn myfyrwyr ar brofiad gwaith;
8. Cefnogi cyfleoedd profiad gwaith yn yr ysgol a gyda chyflenwyr;
9. Monitro a gwerthuso ansawdd profiad gwaith, a;
10. Nodi a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o ran mynediad at brofiad gwaith.

(Millard et al., 2019a, t. 22)

Fodd bynnag, mae dysgwyr sydd â statws economaidd-gymdeithasol is yn llai tebygol o gael mynediad at brofiad gwaith mewn gweithleoedd 'statws uchel', yn llai hyderus yn eu dewis o brofiad gwaith ac yn fwy tebygol o gael tasgau dibwys (Milliard et al., 2019a, tud.13).

**Targedu grwpiau difreintiedig: Y Swistir**

Un o'r negeseuon allweddol a ddeilliodd o'r llenyddiaeth yw pwysigrwydd targedu myfyrwyr difreintiedig er mwyn darparu cyfleoedd tecach. Mae'r rhaglen LIFT yn y Swistir yn targedu'r grwpiau targed hyn drwy bartneriaethau rhwng addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol. Caiff y myfyrwyr eu nodi'n gynnar a gallant elwa o gymorth wedi'i dargedu ar gyfer eu dilyniant gyrfa. Mae pileri eraill yn cynnwys amlygiad i brofiad gwaith, addysg adferol, a chwnsela a mentora i baratoi myfyrwyr ar gyfer y byd gwaith. Amlygodd arolwg o'r ymarferwyr sy'n rhan o'r rhaglen (gan gynnwys y cwmnïau sy'n darparu mentora a lleoliadau gwaith) ei heffeithiolrwydd, er na werthuswyd yr effaith ar fyfyrwyr o ran deilliannau addysg a'r farchnad lafur.

Ffynhonnell: OECD (2019)

Mater arall sy'n effeithio ar effeithiolrwydd profiad gwaith yw 'llwyth gwaith athrawon', gydag addysg gyrfaoedd yn cael ei hystyried yn 'ddewisol'. Mae cael aelod o staff sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am yrfaoedd yn bwysig er mwyn cynnal y proffil. Er y gallant ddod yn 'bwynt cyswllt ar gyfer popeth', gall hyn greu her fawr o ran annog athrawon eraill i gymryd rhan a chymryd unrhyw gyfrifoldeb am yrfaoedd (Millard et al., 2019a, tud. 51).


Awgrymir hefyd y mathau o weithgareddau y credir eu bod yn briodol ar gyfer grwpiau oedran penodol (Millard et al., 2019b, tud. 8). Mae Ffigur 4.5 yn dangos yr ystod o weithgareddau meithrin cysylltiadau â chyflogwyr/addysg gyrfaoedd a awgrymir ar gyfer pob cam addysg.

Edrychodd gwaith ymchwil blaenorol, gyda mwy na 700 o ysgolion/colegau, ar ddarpariaeth ac ymarfer gweithredol gweithgareddau cysylltiedig â gwaith mewn ysgolion yn Lloegr a

chanfod mai profiad gwaith yw'r gweithgaredd a gynigir amlaf (NatCen Social Research a SQW, 2017, tud. 21), gyda'r llwyddiant mwyaf yn digwydd pan fydd y sgiliau a'r wybodaeth flaenorol a gyflwynwyd ers blwyddyn 7 yn cael eu datblygu (Ymchwil Gymdeithasol NatCen a SQW, 2017, tud. 23); rhwng blynyddoedd 7-9, sgiliau cyflogadwyedd fel gweithio fel rhan o dîm, cyfathrebu a datrys problemau yw'r ffocws, gyda rhyngweithio uniongyrchol â chyflogwyr, drwy ffug gyfweliadau/ffeiriau gyrfa yn digwydd yn ystod blynyddoedd 10 ac 11 (NatCen Social Research a SQW, 2017, tud. 24).

Fodd bynnag, adroddir bod sawl her i ddarparu gweithgareddau profiad gwaith. Mae'r rhain yn cynnwys argaeledd lleoliadau yn ôl sector, maint cyflogwr a lleoliad; ac oedran a gallu'r myfyrwyr (NatCen Social Research a SQW, 2017, tud. 46). Gall y sectorau iechyd, gweithgynhyrchu/adeiladu a'r sector chreadigol a'r cyfryngau fod ymysg y rhai anoddaf i feithrin cysylltiadau â nhw. Gall hefyd fod yn anodd 'cael troed yn y drws' gyda chyflogwyr mawr, ond mae sefydliadau llai yn nodi anawsterau gyda 'biwrocratiaeth' fel gwaith papur yn ymwneud ag Iechyd a Diogelwch (NatCen Social Research a SQW, 2017, tud. 47). Gall cost teithio i leoliadau ac argaeledd trafnidiaeth gyhoeddus hefyd greu heriau.

Canfu ymchwil ddiweddar i ddarparu gwasanaeth Partneriaeth Addysg Busnes Gyrfa Cymru hefyd mai ffug gyfweliadau a lleoliadau profiad gwaith sydd o'r gwerth mwyaf i ysgolion (Beaufort Research, 2019, tud. 14). Fodd bynnag, yn sgil colli cronfa ddata profiad gwaith Gyrfa Cymru, a oedd yn cynnwys cyflogwyr a oedd wedi cael eu 'fetio', dywedodd ysgolion nad oedd ganddynt ddigon o amser nac arbenigedd i gynnal eu prosesau 'fetio' eu hunain ar gyfer lleoliadau posibl (Beaufort Research, 2019, tud. 17).




Ffigur 6.4: Y math o weithgareddau y gallai ysgolion eu cefnogi ar gyfer pob grŵp oedran.

(Millard et al., 2019b, tud. 8-11).

Mae eraill hefyd yn pwysleisio y dylid personoli gweithgareddau effeithiol yn ymwneud â mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr a dechrau arnynt yn yr ysgol gynradd, gan nodi bod angen i ysgolion estyn allan at gyflogwyr a chael dealltwriaeth glir o unrhyw rwystrau, megis rhwystrau technegol neu gyfreithiol neu rwystrau'n ymwneud â gwybodaeth, a mynd i'r afael â nhw gan fod gwahanol gostau trafodiadol yn gysylltiedig â gwahanol weithgareddau (Musset, a Kurekova, 2018, tud. 76 a tud. 81). Amlygir mai un o'r rhwystrau allweddol o ran cynnal mwy o weithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwr yw'r ffaith nad yw'n hysbys beth sydd ei angen ar ysgolion a darparwyr addysg, yr hyn y gallant ei ddarparu a sut y gallant elwa.

Er mwyn cynnal gweithgareddau llwyddiannus yn ymwneud â mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr, mae angen cyd-ddealltwriaeth a mynd i'r afael â'r rhwystrau i feithrin cysylltiadau. Adroddir bod cymhellion cyflogwyr fel arfer yn disgyn i un o bedwar maes diddordeb sy'n gorgyffwrdd, sef recriwtio, datblygu staff, meithrin cysylltiadau â staff ac enw da corfforaethol (Mann a Glover, 2011). Mae gwaith ymchwil arall hefyd yn tynnu sylw at y manteision posibl i gyflogwyr gan gynnwys dylanwadu ar y cyflenwad sgiliau yn y dyfodol, y cyfle i hyrwyddo gyrfaoedd yn eu sefydliad neu sector, cwrdd â phobl ifanc y gallai fod ganddynt ddiddordeb yn eu cyflogi, ac yn olaf helpu i wella sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu'n weithwyr mwy effeithiol yn y pen draw (Hooley, Watts ac Andrews, 2015).

Argymhellir hefyd bod ysgolion yn 'cadw ymdeimlad o berchnogaeth' a dylid canolbwyntio ar ddarparu nifer o gyfleoedd rhyngweithio sy'n cael eu gweld fel cyfleoedd o ansawdd gan fyfyrwyr, gyda myfyrwyr o deuluoedd sydd heb rwydweithiau cymdeithasol cryf wedi'u targedu'n benodol (Musset, a Kurekova, 2018, tud. 81). Amlygodd gwaith ymchwil astudiaethau achos gydag 17 o ysgolion cynradd yn Lloegr mai 'diffyg cefnogaeth ac amser' yw'r rhwystr mwyaf ar gyfer datblygu cysylltiadau â chyflogwyr, gydag ysgolion gwledig neu ynysig hefyd yn nodi anawsterau o ran dod o hyd i gyflogwyr a gwirfoddolwyr lleol (Kashefpakdel, Rehill a Hughes, 2019, tud. 52).

Er y nodir diffyg tystiolaeth gadarn o effaith, mae profiad gwaith, cysgodi swyddi ac ymweliadau â'r gweithle yn dal i fod yn gysylltiedig ag effeithiau cadarnhaol ar ddysgwyr ar draws sawl maes;

- Boddhad myfyrwyr
- Sgiliau cyflogadwyedd
- Effeithiolrwydd personol
- Deilliannau addysgol
- Parodrwydd am yrfa
- Deilliannau gyrfa

(Buzzeo a Cifci, 2017, tud. 6)

**Cysgodi Swyddi: Yr Almaen**

Mae'r rhwydwaith traws-ddiwydiant Cymdeithas Entrepreneuriaid Ifanc yr Almaen (Die Jungen Unternehmer) yn rhedeg y prosiect Disgyblion yng Nghadair y Cyfarwyddwr (Schüler im Chefsessel). Mae'n rhoi golwg realistig i ddisgyblion ysgol ar yr hyn y mae bod yn entrepreneur yn ei olygu. Cystadleuaeth i ddisgyblion ysgolion cyfun, ysgolion gramadeg a cholegau galwedigaethol sy'n 15 oed neu'n hŷn yw'r prosiect hwn. Maent yn treulio diwrnod yn cysgodi entrepreneur yn ei fusnes. Daw'r disgyblion i adnabod y cwmni a'r gweithwyr, gan gymryd rhan mewn ymgyngoriadau a chyfarfodydd â chwsmeriaid, ac yna byddant yn ysgrifennu traethawd am eu profiadau. Mae'r traethodau'n cael eu graddio gan banel beirniaid rhanbarthol.

Yng ngoleuni'r pwynt cynharach ynghylch diffyg ymchwil arbrofol, defnyddiodd un astudiaeth ddata gan 650 o fyfyrwyr o bum ysgol yn Lloegr, gyda 307 o fyfyrwyr mewn grŵp ymyrraeth a gafodd dair sgwrs gyrfa ychwanegol ar ben gweithgareddau gyrfa arferol yr ysgol. Gwnaed cymariaethau rhwng y graddau TGAU a ragfynegwyd a'r graddau

gwirioneddol, a chwblhaodd y myfyrwyr arolwg. O gymharu â'r grŵp rheoli, dangoswyd bod hyder y rhai a gafodd y sgyrsiau gyrfa ychwanegol wedi gwella, yn ogystal â'u hagwedd at yr ysgol a'u hyder o ran cyflawni eu dyheadau gyrfa. Gwelwyd cynnydd 'ystadegol arwyddocaol' hefyd yn nifer yr oriau adolygu yn y grŵp ymyrraeth. Adroddwyd hefyd effaith gymedrol ar y grŵp ymyrraeth gan berfformio'n well na'r graddau a ragwelwyd, gyda 'chyflawnwyr is a'r rhai a oedd yn llai cysylltiedig' yn ymateb orau (Kashefpakdel, Percy a Rehill, 2019, tud. 8).

Os edrychir yn fanylach ar addysg menter, mae addysg entrepreneuriaeth wedi darparu ffocws ar gyfer cymwyseddau y cynghorwyd llunwyr polisïau i'w targedu. Mae Rhaglen EntreComp y Comisiwn Ewropeaidd[7] yn cynnwys 15 o gymwyseddau o dan y meysydd thematig 'syniadau a chyfleoedd', 'adnoddau' ac 'ar waith' (gweler Tabl 6.4) gyda phob cymhwysedd yn nodi meini prawf sylfaen, canolradd, uwch ac arbenigol (Bacigalupo et al., 2016, tud 23-35)

*Tabl 6.4: Strwythur cyffredinol fframwaith EntreComp*

| Maes | Cymhwysedd | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Syniadau a chyfleoedd** | Cyfleoedd sylwi | Creadigrwydd | Gweledigaeth | Gwerthfawrogi syniadau | Meddwl yn foesegol a chynaliadwy |
| **Adnoddau** | Hunanymwybyddiaeth a hunaneffeithiolrwydd | Cymhelliant a dyfalbarhad | Symud adnoddau | Llythrennedd ariannol ac economaidd | Defnyddio eraill |
| **Ar waith** | Dangos blaengarwch | Cynllunio a rheoli | Ymdopi ag ansicrwydd, amwysedd a risg | Gweithio gydag eraill | Dysgu drwy brofiad |

(Bacigalupo et al., 2016, tud. 23-35).

Fodd bynnag, gallai teilwra unrhyw raglen addysg i anghenion a galluoedd dysgwyr iau gynnig heriau; gyda theilwra yn ôl agosrwydd dysgwyr at y farchnad lafur o bosibl yn darparu'r ateb (Dumitriu, 2020, tud. 17). Mae amcanion addysg entrepreneuriaeth, sef datblygu meddylfryd entrepreneuraidd, gwella ymgysylltiad academaidd, cynyddu cyflogadwyedd, ysgogi entrepreneuriaeth o safon ac ehangu mynediad, yn darparu'r strwythur ar gyfer archwilio ystod o raglenni addysg. Mae hyn yn ailadrodd rhai o'r negeseuon allweddol a drafodwyd eisoes o fewn gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr fel meithrin cysylltiadau dilys, dechau'n gynnar a chysylltu dysgu â'r byd y tu allan (Dumitriu, 2020, tud. 18-27).

**Cysylltu â'r byd gwaith y tu allan: Y Ffindir**

Prosiect sydd â'r nod o roi dysgu am entrepreneuriaeth, yr economi a chymdeithas ar waith yn ymarferol ar gyfer myfyrwyr ym mlwyddyn chwech (13 oed) yw Me and My City yn y Ffindir. Mae'r modiwl astudiaethau yn cynnwys hyfforddi athrawon, deunydd addysgu gyda 10 gwers yn seiliedig ar y cwricwlwm cenedlaethol ac ymweliad undydd â'r amgylchedd dysgu - MyCity. Dinas fach 500 metr sgwâr, wedi'i hadeiladu o waliau symudol, yw'r

[7] Mae EntreComp - Y Fframwaith Cymhwysedd Entrepreneuriaeth - yn cynnig offeryn i wella gallu entrepreneuraidd dinasyddion a sefydliadau Ewropeaidd.

lleoliad. Mae'r amgylchedd yn cynnwys busnesau go iawn fel cwmnïau ynni a ffôn, gwasanaethau cyhoeddus a'i system fancio ei hun. Am un diwrnod, mae'r myfyrwyr yn gweithio, yn ennill cyflog rhithwir ac yn gweithredu fel aelodau o gymdeithas a defnyddwyr, dan oruchwyliaeth gyson athro.

Ymhlith y gweithgareddau mae gwneud ceisiadau am swyddi gwag a chyfweliadau. Rhaid iddynt hefyd dalu trethi a dysgu sut i reoli eu treuliau a'u hamser rhydd. Mae pob amgylchedd yn MyCity yn adlewyrchu nodweddion bywyd busnes yn y rhanbarth. Cynhaliwyd y gweithgareddau cyntaf yn Helsinki yn 2010. Yn dilyn hyn, ymwelodd y prosiect â sawl dinas yn y wlad a sefydlodd wyth bwrdeistref fersiynau parhaol ohono. Swyddfa Gwybodaeth Economaidd Llywodraeth y Ffindir sy'n rhedeg y rhaglen ac mae'n gweithredu mewn cydweithrediad â gweinyddiaethau a chwmnïau trefol.

Ffynhonnell: InnoveEdu - Profiadau addysgol arloesol

Roedd canllaw arfer da diweddar yn targedu cefnogaeth i fenywod entrepreneuraidd yng Nghymru ac yn amlygu'r rhwystr sy'n gysylltiedig â stereoteipio ar sail rhyw, gan ddweud bod angen 'dull ymwybodol o'r rhywiau prif ffrwd' a dull mentora a hyfforddi a ffefrir gan fenywod, yn hytrach na darparu cyngor ar sail ymgynghoriaeth ar gyfer dynion (Busnes Cymru, 2019, tud. 6; tud. 12). Gellid cymhwyso'r dull gweithredu hwn i unrhyw weithgareddau a ddarperir mewn ysgolion.

**Mynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw: Gwledydd y Baltig**

Mae'r prosiect BE the Future, sydd wedi'i anelu at fenywod ifanc o Sweden, Estonia a Latfia, yn cael ei gynnal rhwng 2020 a 2022 a'i nod yw codi ymwybyddiaeth o hunangyflogaeth fel opsiwn gyrfa, gan greu agwedd gadarnhaol tuag at weithgaredd entrepreneuraidd ac opsiwn gyrfa posibl. Bydd y prosiect tair blynedd yn hyrwyddo meddylfryd entrepreneuraidd drwy rwydweithio ymysg cymheiriaid, rhannu adnoddau a mentoriaid i ddarparu ysbrydoliaeth ac arweiniad. Nod y prosiect yw paratoi, hyfforddi a chefnogi 225 o entrepreneuriaid benywaidd ifanc yn y dyfodol o'r tair gwlad i gynllunio a datblygu cwmnïau myfyrwyr. Erbyn diwedd y prosiect, bydd o leiaf 50 o gwmnïau myfyrwyr wedi'u creu, a fydd yn gallu trosi bwriad entrepreneuraidd yn ymarfer.

Ffynhonnell: bethefuture.global

### 6.3.3 Prosesau monitro a gwerthuso ar gyfer gweithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr

Er bod y llenyddiaeth yn awgrymu nad oes gwerthusiad cadarn o weithgaredd MMCCh (Burge, 2012, tud. 4), adroddir bod sawl gwerthusiad o ymyriadau entrepreneuriaeth ar raddfa fawr yn cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr (Dumitriu, 2020, tud. 17-28). Er enghraifft, mae cymhelliant myfyrwyr wedi cynyddu yn yr ysgol ac maent yn datblygu sgiliau y mae cyflogwyr yn credu eu bod yn bwysig. Nodir hefyd y byddai gwerthuso addysg entrepreneuriaeth o ran a yw cyfranogwyr yn mynd ymlaen i ddechrau eu busnesau eu hunain yn gamgymeriad, gan mai datblygu'r 'sgiliau a'r uchelgeisiau' sy'n allweddol (Dumitriu, 2020, tud. 23). Serch hynny, awgrymir mabwysiadu dull tymor hwy tuag at yr ymchwil fel bod yr agenda'n cael ei harwain gan dystiolaeth ac yn ategu'r addysg academaidd a gynigir (Dumitriu, 2020, tud. 27).

*Er mwyn datrys y mater hwn, dylai llunwyr polisïau ariannu hapdreialon a reolir i brofi effaith gwahanol ymyriadau (Dumitriu, 2020, tud. 28).*

Un feirniadaeth ynghylch y sylfaen dystiolaeth ar leoliadau profiad gwaith yw y gall fod yn ddibynnol ar ddeilliannau hunangofnodedig, gan ailadrodd yr angen i ymgorffori grŵp rheoli ac olrhain cyfranogwyr dros amser. Byddai dull o'r fath yn darparu dealltwriaeth fwy cadarn o effaith y lleoliad a maint yr effeithiau, a'r math o gyfranogwyr y mae'n gweithio orau â hwy (Buzzeo a Cifci, 2017, tud. 18). Mae llenyddiaeth arall hefyd yn nodi'r pwyslais ar foddhad hunangofnodedig myfyrwyr neu wybodaeth a gesglir am gyrchfannau unwaith yn unig ac unwaith eto mae'n tynnu sylw at y cyfyngiadau hyn. Mae hefyd yn nodi bod materion yn parhau o ran beth yw'r deilliannau dymunol, ac felly sut i'w mesur (Musset, a Kurekova, 2018, tud. 42).

Byddai ymchwil sy'n edrych ar faterion megis effaith profiad gwaith ar y farchnad lafur a deilliannau addysgol, gan ymchwilio ymhellach i amseriad lleoliadau a'r cysylltiad cadarnhaol rhwng profiad gwaith a gwella cyrhaeddiad a deall pa gymysgedd o brosesau gwaith a gweithgareddau sy'n fwy buddiol yn ystod lleoliad hefyd yn helpu i greu profiad gwaith o ansawdd uchel (Buzzeo a Cifci, 2017, tud. 18). Er bod Estyn yn adrodd bod ysgolion yng Nghymru yn gwerthuso gweithio mewn partneriaeth â chyflogwyr, dim ond 'ychydig iawn o ysgolion' sy'n gwneud hynny (Estyn, 2020, tud. 18).

## 6.4 Casgliadau

Mae'r llenyddiaeth yn gyson o ran adrodd ar fanteision mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr i ddysgwyr. Mae'r rhain yn cynnwys gwella dealltwriaeth dysgwyr o'r farchnad lafur gyfoes a'r llwybrau o ran swyddi, gyrfaoedd a dilyniant sy'n bodoli ynddo, ynghyd â mwy o werthfawrogiad o'r wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol ym myd gwaith. **Mae'r llenyddiaeth hefyd yn awgrymu effaith gadarnhaol ar lesiant dysgwyr, hunan-barch, eu hymwneud â dysgu a chreu rhwydweithiau personol** drwy feithrin cysylltiadau â chyflogwyr a chyfleoedd i fyfyrio, archwilio a chael deialog.

Mae'r llenyddiaeth yn tynnu sylw at lawer o nodweddion allweddol gweithgaredd llwyddiannus yn ymwneud â mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr, a ddylai fod yn effeithiol, yn effeithlon, yn deg ac y gellir gweld tystiolaeth ohonynt. **Ystyrir bod datblygu gweledigaeth glir a chyd-ddealltwriaeth** o'r hyn y disgwylir i bartneriaethau rhwng ysgolion a chyflogwyr ei gyflawni yn fan cychwyn hanfodol ar gyfer y broses meithrin cysylltiadau hon.

Ymhlith y nodweddion hanfodol eraill mae ffocws ar fynediad tecach er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau presennol mewn darpariaeth gyrfaoedd a mynediad at gyflogwyr; amlder a dilysrwydd gweithgaredd meithrin cysylltiadau; **ffocws ar ddechrau'n gynnar yn nheithiau dysgwyr i gefnogi eu dyheadau a dylanwadu ar agweddau**; a sicrhau y darperir amrywiaeth o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm ac anghenion economaidd lleol i gefnogi cynnydd dysgwyr drwy'r ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd.

Cysylltwyd y defnydd o **gyngor gyrfaoedd diduedd, wedi'i bersonoli** â meithrin cysylltiadau â dysgwyr a chefnogi staff i ddeall eu dyheadau fel elfen allweddol arall o bontio'n llwyddiannus o'r ysgol i'r gwaith. Ymhlith y nodweddion pwysig eraill mae **cefnogi dysgwyr i gael cyfleoedd i feithrin cysylltiadau parhaus â chyflogwyr** drwy gydol y flwyddyn academaidd a pharu dysgwyr â chyfleoedd priodol sy'n ymwneud â'u diddordebau, gan roi amser iddynt baratoi a myfyrio. **Gall datblygu sgiliau cyflogadwyedd fel gweithio fel rhan o dîm, cyfathrebu a datrys problemau ochr yn ochr â meddylfryd entrepreneuraidd** gyfoethogi addysg dysgwyr a sicrhau deilliannau dysgu ychwanegol.

Mae'r llenyddiaeth wedi amlinellu ystod o heriau i weithgaredd llwyddiannus yn ymwneud â mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr gan gynnwys argaeledd lleoliadau gwaith yn ôl sector, maint a lleoliad cyflogwyr ynghyd â materion fel biwrocratiaeth ar gyfer cwmnïau bach. **Gall diffyg cefnogaeth ac amser i ysgolion ddatblygu cysylltiadau â chyflogwyr gael ei waethygu gan ddiffyg dealltwriaeth cyflogwyr ynghylch sut y gallant elwa**, er enghraifft drwy ddylanwadu ar y cyflenwad sgiliau yn y dyfodol, cyfle i hyrwyddo gyrfaoedd o fewn eu sefydliad neu helpu i wella sgiliau cyflogadwyedd pobl ifanc.

Felly, dylai mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy ddylunio a gweithredu nodweddion allweddol a amlinellir uchod fod yn ffocws i weithgaredd mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr. Mae'r llenyddiaeth yn awgrymu y dylai hyn ddigwydd ochr yn ochr â **mwy o ffocws ar gynhyrchu tystiolaeth gadarn ar effaith mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr** ar ddeilliannau fel cyflawniad, cyrchfannau ôl-16, cefndiroedd cymdeithasol dysgwyr ac ansawdd a swm y gweithgareddau.

## Cyfeiriadau


A JOB'S WORTH: Making Careers Education Age-Appropriate.

Bacigalupo, M., Kampylis, P., Punie, Y., a Van den Brande, G. (2016) EntreComp: The entrepreneurship competence framework.

Beaufort Research (2019) *Ymchwil Partneriaeth Addysg Busnes*.

Burge, B., Wilson, R. a Smith-Crallan, K. (2012) Employer involvement in schools: a rapid review of UK and international evidence. Slough: NFER.

Busnes Cymru (2019) Cefnogi Merched Entrepreneuraidd yng Nghymru.

Buzzeo, J. a Cifci, M. (2017) Work Experience, Job Shadowing and Workplace Visits. What Works? Llundain: The Careers & Enterprise Company.

Careers Review Panel (2014) A report by an independent panel of experts from education and employers on careers education and guidance in Northern Ireland.

CBAC (2015) Bagloriaeth Cymru Uwch

CBI/Pearson Education (2019) Education and learning for the modern world.

CEC (2018) Closing the Gap: The Level of Employer Engagement in England Schools and Colleges

Cymwysterau Cymru (2020) Bwletin chwarterol cymwysterau galwedigaethol ac eraill. (Fel ar: 10 Hydref 2020)

Cyngor Rhondda Cynon Taf (2020) Peilot Meincnod Gatsby. (Fel ar: 25 Medi 2020).

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2019) Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Caerdydd: Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Developing the Young Workforce Glasgow (2018) The impact of employer engagement with schools.

Dumitriu. S. (2020) Educating Future Founders. UK: The Entrepreneurs Network.

DYW (2019) The impact of employer engagement with schools.

Education Scotland (2015a) Developing the Young Workforce Career Education Standard (3-18).

Education Scotland (2015b) Developing the Young Workforce School/Employer partnerships Combined version incorporating: Guidance for schools Guidance for employers Guidance for DYW regional groups and local authorities.

Education Scotland (2020) Education-employer partnerships. (Fel ar: 10 Hydref 2020).

Estyn (2012) Penderfyniadau gwybodus: Gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith.

Estyn (2017) Gyrfaoedd: Gweithredu'r fframwaith gyrfaoedd a'r byd gwaith mewn ysgolion uwchradd.

Estyn (2020) Partneriaethau â chyflogwyr mewn ysgolion uwchradd ac arbennig.

FSB (2017) A National Ambition: Enterprise education, schools and the Welsh economy.

Gatsby (2020) Good Career Guidance. (Fel ar: 10 Hydref 2020).

Gyrfa Cymru (2017) Newid Bywydau. Gweledigaeth ar gyfer Gyrfa Cymru 2017-20.

Hooley T., A.G. Watts a D. Andrews (2015), Teachers and Careers: The Role of School Teachers in Delivering Career and Employability Learning, International Centre for Guidance Studies, Prifysgol Derby, Derby.

Hooley T., A.G. Watts a D. Andrews (2015), Teachers and Careers: The Role of School Teachers in Delivering Career and Employability Learning, International Centre for Guidance Studies, Prifysgol Derby, Derby.

Hughes, D., Mann, A., Barnes, S-A, Baldauf, B. a McKeown, R. (2016) Careers education: International literature review. Llundain: Education Endowment Foundation and Bank of America Merrill Lynch.

Hutchinson, J., Morris, M., Percy, C., Tanner, E. a Williams, H. (2019) Careers Hubs: One Year On. Llundain: The Careers & Enterprise Company.

Institute for Employment Research (2014) Understanding the link between employers and schools and the role of the National Careers service, Papur Ymchwil BIS Rhif 206.

Jones, P. a Colwill, A. (2013) Entrepreneurship education: an evaluation of the Young Enterprise Wales initiative. Education and Training, 55(8/9), tud. 911-925.

Kashefpakdel, E., Percy, C. a Rehill, J. (2019) Motivated to achieve - How encounters with the world of work can change attitudes and improve academic attainment. UK: Education and Employers Research.

Kashefpakdel, E., Rehill, J. a Hughes, D. (2019) Career-related learning in primary - the role of primary teachers and schools in preparing children for the future. UK: Education and Employers Research.

Kashefpakdel, E.T. a Percy, C. (2017) Career education that works: an economic analysis using the British Cohort Study, Journal of Education and Work, 30(3) tud. 217-234.

KPMG (2014) Evaluation of education and employer partnerships in Northern Ireland. Gogledd Iwerddon: CBI.

Llywdoraeth Cymru (2020c) Partneriaethau â chyflogwyr mewn ysgolion uwchradd ac arbennig. Adroddiad cylch gwaith Estyn Ymateb Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014a) Datganiad polisi ar sgiliau.

Llywodraeth Cymru (2014b) Cynllun gweithredu ar gyfer sgiliau.

Llywodraeth Cymru (2015) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Llywodraeth Cymru (2016a) Cynllun ac Amcanion Cydraddoldeb Strategol 2012-2016.

Llywodraeth Cymru (2016b) Symud Cymru Ymlaen 2016-2021.

Llywodraeth Cymru (2017b) Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl.

Llywodraeth Cymru (2017b) Ffyniant i Bawb: cynllun gweithredu ar yr economi.

Llywodraeth Cymru (2017c) Gwyddoniaeth i Gymru.

Llywodraeth Cymru (2019) Gwasanaeth Cymru'n Gweithio newydd yn cael ei lansio i helpu rhagor o bobl o gael swyddi. (Fel ar: 25 Medi 2020).

Llywodraeth Cymru (2020a) Arolwg Blynyddoedd o'r Boblogaeth: Gorffennaf 2019 i Mehefin 2020. (Fel ar: 10 Hydref 2020).

Llywodraeth Cymru (2020b) Cwricwlwm i Gymru. (Fel ar: 25 Medi 2020).

Llywodraeth y DU (2014) New careers and enterprise company for schools. (Fel ar: 12 Hydref 2020).

Llywodraeth y DU (2019) Education Secretary announces £2.5m boost to Careers Hubs in 20 areas. (Fel ar: 10 Hydref 2020).

Llywodraeth yr Alban (2014) Developing the Young Workforce, Scotland's Youth Employment Strategy.

Llywodraeth yr Alban (2020) Scotland's Careers Strategy.

Mann, A. a C. Glover (2011), "The point of partnership: The case for employer engagement in education", Strategic HR, Cyfrol. 10/1, tud. 21-27.

Mann, A., Denis, V., Schleicher, A., Ekhtiari, H., Forsyth, T., Liu, E. a Chambers, N. (2020) Dream jobs? Teenagers' Career Aspirations and the Future of Work. OECD.

Mann, A., Rehill, J. a Kashefpakdel, E.T. (2018) Employer engagement in education: Insights from international evidence for effective practice and future research. UK: Education and Employers Research and Education Endowment Foundation.

Millard, W., Bowen-Viner, K., Baars, S. a Menzies, L. (2019b) MORE THAN

Millard, W., Shaw, B., Baars, S. a Menzies, L. (2019a) MORE THAN A JOB'S WORTH: Making Work Experience Fit for Purpose.

Moote, J. ac Archer, L. (2018) Failing to deliver? Exploring the current status of career education provision in England, Research Papers in Education 33(2) tud. 187-215.

Musset, P. a  Kurekova, L. M. (2018) Working it out: Career guidance and employer engagement. OECD Education Working Papers, Rhif. 175.

NatCen Social Research and SQW (2017) Work experience and related activities in schools and colleges Research report. Yr Adran Addysg.

OECD (2019) Engaging Employers and Developing Skills at the Local Level in Northern Ireland, United Kingdom.

Percy, C. a Tanner, E. (2020) Closing the Gap: Employer Engagement in England's Schools and Colleges in 2019. Llundain: The Careers & Enterprise Company.

Powel, D., Burgess, A., Grunhut, S. a Griffiths, E. (2021) *Gatsby Benchmarking Pilot Interim Evaluation.*

Rogers, M., Chambers, N. a Percy, C. (2020) Disconnected: Career aspirations and jobs in the UK. Education and Employers.

Siambr Fasnach Prydain (2020) Quarterly Recruitment Outlook Q2 2020.

SQW (2019) Independent Review of Regional Skills Partnerships' evidence-based planning, Report to Welsh Government.

Trilein (2016) Media Literacy Project – Final Report.

Wilson, R., Barnes, S.A., May-Gillings, M., Patel, S. a Bui, H. (2020) Working Futures 2017-2027: Long-run labour market and skills projections for the UK

Winterbotham, M., Vivian, D., Kik, G., Huntley Hewitt, J. Tweddle, M., Downing, C., Thomson, D., Morrice, N. a Stroud, S. (2018) Employer skills survey 2017 Research report.

Y Brifysgol Agored (2020) The Open University Business Barometer. UK: Y Brifysgol Agored.

Y Swyddfa dros Wyddoniaeth (2017) Future of Skills and Lifelong Learning. UK: Y Swyddfa dros Wyddoniaeth, Llywodraeth y DU.

Yr Adran Addysg (2017) Careers strategy: making the most of everyone's skills and talents.

Yr Adran Cyflogaeth a Dysgu a'r Adran Addysg (2016) Preparing for Success 2015-2020. A Strategy for Careers Education and Guidance.

# 7. Atodiad B: Holiadur a ddefnyddiwyd yn ystod yr arolwg ysgolion

## Cyflwyniad

**Mae Arad wedi'i gomisiynu gan Lywodraeth Cymru i adolygu gweithgareddau mentergarwch a meithrin cysylltiadau a chyflogwyr (MMCCh) mewn ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru. Bydd yr adolygiad yn cefnogi'r trefniadau ar gyfer partneriaethau rhwng ysgolion a chyflogwyr yn y dyfodol.**

**Fel rhan o'r astudiaeth rydym yn awyddus i glywed barn gan arweinyddion ysgolion ac athrawon. Mae'r holiadur hwn wedi'i gynllunio er mwyn deall y mathau o weithgareddau y mae ysgolion yn eu cynnal a'u cyrchu ar hyn o bryd.**

**Mae'r holiadur ar gyfer uwch-reolwyr neu athrawon sydd â chyfrifoldeb am fentergarwch, gyrfaoedd neu bartneriaethau â chyflogwyr. Yn eich ysgol chi, gall hyn fod yn uwch-reolwr, arweinydd neu gydlynydd gyrfaoedd, athro(-awes) gyrfaoedd neu aelod staff penodedig. Y dyddiad cau ar gyfer yr arolwg yw 20 Tachwedd 2020.**

**Mae cwblhau'r holiadur yn gwbl gwirfoddol. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir yn cael ei adrodd yn anhysbys. Bydd yr wybodaeth yn cael ei chynnwys mewn adroddiad a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, ac o bosibl mewn adroddiadau eraill. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut y byddwn yn casglu a storio unrhyw wybodaeth bersonol yn eich ymateb.**

## Eich ysgol

**1. Ym mha ranbarth y mae eich ysgol?**

- ☐ Gogledd Cymru (rhanbarth GwE)
- ☐ Canolbarth a Gorllewin Cymru (rhanbarth ERW)
- ☐ Canol De Cymru (rhanbarth CSC)
- ☐ De Ddwyrain Cymru (rhanbarth EAS / GGY)

**2. Pa un o'r canlynol yw eich ysgol chi? ***

- ☐ Ysgol gynradd
- ☐ Ysgol uwchradd
- ☐ Ysgol ganol (3-16/3-19)
- ☐ Ysgol arbennig
- ☐ Arall (nodwch os gwelwch yn dda) ____________________

## Cynllunio gweithgareddau mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr

**3. A oes gan yr ysgol bolisi ysgrifenedig, gynllun neu strategaeth ar gyfer gyrfaoedd, mentergarwch a meithrin cysylltiadau a chyflogwyr?**

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes

**4. A oes gan eich ysgol chi berson penodedig sy'n gyfrifol am fentergarwch a meithrin cysylltiadau a chyflogwyr? Gall hwn fod yn arweinydd neu gydlynydd gyrfaoedd neu rôl debyg.**

- ☐ Oes
- ☐ Nac oes

Os 'oes', nodwch yn gryno beth yw natur y rôl os gwelwch yn dda.

**5. I ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol?**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno na'n anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae gweithgareddau MMCCh yn cael eu cynllunio i adlewyrchu gofynion y cwricwlwm | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae gweithgareddau MMCCh yn cael eu teilwra at anghenion dysgwyr unigol a grwpiau blwyddyn. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rydym yn tueddu cynnal yr un gweithgareddau gan ddefnyddio'r un darparwyr ym mhob blwyddyn ysgol. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol i gefnogi'ch ateb.

## Mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yn eich ysgol (uwchradd)

**6. Pa weithgareddau mentergarwch ydych chi wedi'u cynnal yn yr ysgol yn ystod blynyddoedd diweddar? Nodwch hefyd unrhyw weithgareddau yr hoffech eu cynnal yn**

**yr ysgol.**

**Noder. Rydym yn ymwybodol bod nifer fawr o weithgareddau wedi'u gohirio ar hyn y bryd - nodwch pa weithgareddau sy'n cael eu cynnal yn ystod blwyddyn arferfol os gwelwch yn dda.**

| | Darperir yn CA3 (Bl 7, 8 neu 9) | Darperir yn CA4 (Bl 10 neu 11) | Darperir i'r 6ed dosbarth (lle'n berthnasol) | Hoffem gynnal y gweithgaredd hwn |
|---|---|---|---|---|
| Profiadau yn y gweithle (e.e. ymweliadau, cysgodi a / neu profiad gwaith) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cyflwyniadau gan gyflogwyr lleol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cyflogwyr yn mynychu digwyddiadau gyrfaoedd yn yr ysgol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gweithgareddau sy'n datblygu sgiliau mentergarwch neu wybodaeth o gychwyn busnes | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cyfweliadau ffug | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mynychu ffeiriau / digwyddiadau gyrfaoedd y tu allan i'r ysgol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gweithgareddau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg) | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Gweithgareddau digidol / rhithiol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth gyda chyflogwyr trwy ddulliau eraill? (Nodwch isod)

## Mentergarwch a meithrin cysylltiadau â chyflogwyr yn eich ysgol (cynradd)

**7. A oes gan eich ysgol chi berson penodedig sy'n gyfrifol am fentergarwch / meithrin cysylltiadau â chyflogwyr? Gall hwn fod yn arweinydd neu gydlynydd gyrfaoedd neu rôl debyg.**

☐ Oes

☐ Nac oes

Os 'oes', nodwch yn gryno beth yw natur y rôl os gwelwch yn dda.

**8. Pa weithgareddau mentergarwch ydych chi wedi'u cynnal yn yr ysgol yn ystod blynyddoedd diweddar? Nodwch hefyd unrhyw weithgareddau yr hoffech eu cynnal yn yr ysgol.**

**Noder. Rydym yn sylweddoli bod nifer fawr o weithgareddau wedi'u gohirio ar hyn y bryd - nodwch pa weithgareddau sy'n cael eu cynnal yn ystod blwyddyn arferfol os gwelwch yn dda.**

| | Rydym yn cynnal y gweithgaredd yn yr ysgol | Hoffem gynnal y gweithgaredd hwn |
|---|---|---|
| Cyflwyniadau gan gyflogwyr lleol | ☐ | ☐ |
| Cyflogwyr yn mynychu digwyddiadau gyrfaoedd yn yr ysgol | ☐ | ☐ |
| Gweithgareddau sy'n datblygu sgiliau mentergarwch disgyblion | ☐ | ☐ |
| Gweithgareddau STEM | ☐ | ☐ |
| Gweithgareddau digidol / rhithiol | ☐ | ☐ |

Ydych chi'n gweithio mewn partneriaeth gyda chyflogwyr trwy ddulliau eraill? (Nodwch isod)

## Ymwybyddiaeth o raglenni i gefnogi partneriaethau rhwng ysgolion a chyflogwyr

**9. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol?**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno na'n anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Rwyf yn ymwybodol o'r ystod o weithgareddau sydd ar gael i gefnogi mentergarwch a chysylltiadau rhwng ysgolion a chyflogwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwyf yn ymwybodol o'r adnoddau ar Hwb i gefnogi addysg fentergarwch | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae cefnogaeth ymysg yr uwch dîm rheoli i gynnal gweithgareddau MMCCh | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae cyfleoedd datblygu proffesiynol i athrawon yn yr ysgol i wella'u gallu i gynnal gweithgareddau MMCCh | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Rwyf yn hyderus wrth gynnal gweithgareddau MMCCh | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Nodwch unrhyw sylwadau i gefnogi'ch atebion

## Y partneriaid a'r darparwyr rydych yn gweithio â nhw

**10. Rhestrwch y darparwyr a phartneriaid yr ydych yn gweithio â nhw fwyaf aml er mwyn cefnogi MMCCh.**

**Noder. Gall y rhain fod yn bartneriaid cenedlaethol (e.e. Gyrfa Cymru, Syniadau Mawr Cymru, Busnes yn y Gymuned), rhanbarthol neu leol (e.e. awdurdodau lleol, cyflogwyr unigol neu eraill).**

1.
2.
3.
4.
5.

**11. Gan feddwl am y partneriaid rydych wedi'u henwi uchod, nodwch unrhyw sylwadau ar y mathau o weithgareddau sydd wedi gweithio'n dda yn eich ysgol.**

## Rhwystrau wrth gynnal gweithgareddau mentergarwch a phartneriaethau â chyflogwyr

**12. Gan feddwl yn ôl i'r cyfnod cyn pandemig Covid-19, a ydych chi wedi wynebu unrhyw rwystrau wrth gynnal gweithgareddau mentergarwch?**

☐ Ydyn

☐ Nac ydyn

**13. Os ateboch chi 'ydyn' i'r cwestiwn uchod, nodwch a fu'r ffactorau canlynol yn rhwystr i'ch ysgol chi.**

- [ ] Cost y gefnogaeth / rhaglenni
- [ ] Prinder amser staff
- [ ] Diffyg gwybodaeth neu arbenigedd staff
- [ ] Gormod o ddewis / Dryswch ynghylch pa raglenni sydd fwyaf addas i'n dysgwyr ni
- [ ] Ystyrir mentergarwch yn llai o flaenoriaeth na meysydd dysgu eraill
- [ ] Rhwystrau eraill (nodwch os gwelwch yn dda):

## Ansawdd ac effaith mentergarwch a phartneriaethau â chyflogwyr

**14. Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol mewn perthynas âg ansawdd a'r dewis o gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr.**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno na'n anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Mae'r ddarpariaeth a chefnogaeth rydym yn eu defnyddio o ansawdd uchel. | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Mae'r ddarpariaeth sydd ar gael yn berthnasol i ystod o feysydd cwricwlwm | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Nodwch unrhyw sylwadau i gefnogi'ch atebion:

**15. Nodwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno gyda'r datganiadau canlynol mewn perthynas âg effeithiolrwydd ac effaith cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â chyflogwyr.**

**Yn ein hysgol ni mae'r partneriaethau gyda chyflogwyr yn:**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno na'n anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu sgiliau mentergarwch dysgwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Ysbrydoli a chodi dyheadau dysgwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad dysgwyr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cael effaith gadarnhaol ar staff a'r ysgol yn fwy eang | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| Cynrychioli gwerth am arian | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

Nodwch unrhyw sylwadau i gefnogi'ch atebion.

## Blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

**16. Sut y mae'ch ysgol yn bwriadu mynd i'r afael afael â gofynion Cwricwlwm i Gymru 2022 mewn perthynas â gyrfaoedd a phrofiadau cysylltiedig â gwaith (CWRE)?**

**17. Pa gefnogaeth ychwanegol sydd ei hangen arnoch chi yn y maes hwn?**

**18. Wrth edrych tua'r dyfodol, sut ydych chi'n rhagweld y bydd gweithgareddau MMCCh yn cael eu gweithredu yng nghyd-destun y 'norm newydd' y mae ysgolion a phartneriaid yn gweithredu ynddi?**

## Cyswllt pellach

**19. Bydd ein tîm ymchwil yn cynnal nifer fach o gyfweliadau pellach gyda chynrychiolwyr ysgolion er mwyn trafod rhai o'r materion uchod mewn rhagor o fanylder.**

**Os ydych yn fodlon cymryd rhan mewn sgwrs fer, nodwch eich enw a'ch manylion cyswllt isod os gwelwch yn dda.**

| | |
|---|---|
| Enw | |
| Cyfeiriad ebost | |
| Rhif ffôn | |